Nursing & Midwifery Council

Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

# Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2018–2019

# a Chynllun Strategol 2019–2020

Gofal Gwell a Mwy Diogel Gofal Gwell a Mwy Diogel Gofal Gw
Gofal Gwell a Mwy Diogel Gofal Gwell a Mwy Diogel Gofal Gw
Gofal Gwell a Mwy Diogel Gofal Gwell a Mwy Diogel Gofal Gw
Gofal Gwell a Mwy Diogel Gofal Gwell a Mwy
Gofal Gwell a Mwy Diogel Gofal Gwell a Mwy
Gofal Gwell a Mwy Diogel Gofal Gwell a Mwy
Gofal Gwell a Mwy Diogel Gofal
Gofal Gwell a Mwy Diogel Gofal
Gofal Gwell a Mwy Diogel Gofal

Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

# Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2018–2019 a Chynllun Strategol 2019–2020

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2018-2019 a Chynllun Strategol 2019-2020 a gyflwynwyd i'r Senedd yn unol ag Erthygl 50(2) o Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth (Diwygio) 2008

Cyfrifon a gyflwynwyd i'r Senedd yn unol ag Erthygl 52(7) o Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth (Diwygio) 2008

***Gorchmynnwyd gan Dŷ'r Cyffredin i'w hargraffu ar 22 Gorffennaf 2019***

HC 2343

© **Hawlfraint y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth 2019**

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu yn unol â thelerau Trwydded Llywodraeth Agored f3.0 oni nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3.

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth am hawlfraint trydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn **www.nmc.org.uk**.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn atom yn Nursing and Midwifery Council, 23 Portland Place, London W1B 1PZ.

ISBN 978-1-5286-1433-7

CCS0619426012

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 75% o gynnwys ffeibr wedi'i ailgylchu

Argraffwyd yn y DU gan APS Group ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhagair | 5 |
| Ein rôl | 6 |
| Adolygiad o berfformiad 2018–2019 | 7 |
| Cynllun Strategol 2019–2020 | 32 |
| Adolygiad ariannol | 36 |
| Adroddiad cydnabyddiaeth | 40 |
| Datganiad o gyfrifoldebau'r Cyngor a'r Prif Weithredwr a Chofrestrydd mewn perthynas â'r cyfrifon | 50 |
| Datganiad llywodraethu blynyddol | 52 |
| Adroddiad yr archwilydd annibynnol i ymddiriedolwyr y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth | 69 |
| Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol i Ddau Dŷ'r Senedd | 73 |
| Datganiad o weithgareddau ariannol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019 | 77 |
| Y Fantolen ar 31 Mawrth 2019 | 78 |
| Datganiad o lif arian parod ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019 | 79 |
| Cysoni incwm net â llif arian parod net o weithgareddau gweithredu | 80 |
| Dadansoddiad o arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo | 80 |
| Nodiadau i'r cyfrifon | 81 |
| Atodiad 1 – Penderfyniad ynglŷn â'r cyfrifon | 107 |

# Rhagair

Bu'r 12 mis diwethaf yn gyfnod o heriau a newid sylweddol i'r NMC. Drwy gydol y flwyddyn, mae cydweithwyr ym mhob rhan o'r sefydliad wedi gweithio'n galed i wneud gwelliannau i'r ffordd rydym yn gweithio a sicrhau ein bod yn cefnogi nyrsys, bydwragedd ac, yn Lloegr, cymdeithion nyrsio i ddarparu gofal gwell a mwy diogel. Rydym yn ddiolchgar i'n cydweithwyr am eu hymrwymiad a'u hymroddiad. Rydym hefyd yn cydnabod na fyddem wedi gallu gwneud y cynnydd rydym wedi'i wneud heb gymorth a chyfraniad gweithgar aelodau o'r cyhoedd, y gweithwyr proffesiynol ar ein cofrestr a'n partneriaid ym mhob un o bedair gwlad y DU. Unwaith eto, hoffem ddiolch iddynt ac edrychwn ymlaen at gydweithio â nhw yn y dyfodol.

Eleni, cyhoeddwyd adolygiad yr Awdurdod Safonau Proffesiynol, *Lessons Learned Review*, o'r ffordd y gwnaethom ymdrin â phryderon am addasrwydd i ymarfer bydwragedd yn Ysbyty Cyffredinol Furness, yn ogystal â'n hymateb i'r adolygiad hwnnw.

Roedd y ffordd y gwnaethom ymdrin â'r achosion hyn, a'r ffordd y gwnaethom drin y bobl dan sylw, yn annerbyniol. Pan gyhoeddwyd yr adolygiad ym mis Mai 2018, gwnaethom ymddiheuro ac ymrwymo i weithredu'n gyflym i roi ei argymhellion ar waith. Ers hynny, rydym wedi cymryd camau pwysig i fod yn fwy tosturiol a chanolbwyntio'n fwy ar unigolion yn ein gwaith, gan gynnwys cyflwyno ein Gwasanaeth Cymorth Cyhoeddus newydd.

Rydym wedi parhau â'n gwaith i annog diwylliant o fod yn agored a dysgu yn y sector iechyd a gofal. Drwy ein dull gweithredu newydd mewn perthynas ag addasrwydd i ymarfer, rydym yn rhoi mwy o ystyriaeth i gyd-destun camgymeriadau, gan bwysleisio'r angen i roi cyfle i nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio wneud iawn am bryder pan fydd rhywbeth yn mynd o chwith.

Rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol yn erbyn ein blaenoriaethau strategol eraill. Lansiwyd ein safonau addysg nyrsio newydd uchelgeisiol sy'n codi safonau o ran yr hyn y bydd pobl yn ei ddysgu, ac yn rhoi mwy o hyblygrwydd i'r rhai sy'n addysgu gweithwyr proffesiynol y dyfodol. O fis Medi 2019, bydd nyrsys dan hyfforddiant yn dechrau hyfforddi yn unol â'r safonau newydd hynny. Yn nes ymlaen eleni, byddwn yn pennu'r safonau addysg terfynol ar gyfer y genhedlaeth nesaf o fydwragedd.

Ym mis Ionawr 2019, gwnaethom agor ein cofrestr i gymdeithion nyrsio am y tro cyntaf. Erbyn hyn, mae mwy na 1,000 o gymdeithion nyrsio yn gofalu am bobl mewn amrywiaeth o leoliadau gwahanol ledled Lloegr a gwyddom eu bod eisoes yn gwneud gwahaniaeth.

Wrth edrych i'r dyfodol, rydym yn gwahodd pawb sydd â barn ar yr heriau sy'n wynebu'r sector nyrsio a bydwreigiaeth i helpu i gydlunio ein strategaeth pum mlynedd nesaf. Gan gydweithio â phobl sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd a gofal, y gweithwyr proffesiynol ar ein cofrestr a'n partneriaid ym mhob un o bedair gwlad y DU, rydym yn benderfynol o sicrhau y bydd ein strategaeth ar gyfer y dyfodol yn gwthio'r NMC yn ei flaen.

Byddwn yn parhau i newid a gwella'r ffordd rydym yn rheoleiddio. Byddwn yn adeiladu ar y cynnydd a amlinellir yn yr adroddiad hwn ac yn gwneud popeth o fewn ein gallu i helpu nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio i ddarparu gofal gwell a mwy diogel nawr ac yn y dyfodol.

**Philip Graf**
Cadeirydd
**4 Gorffennaf 2019**

**Andrea Sutcliffe**
Prif Weithredwr a Chofrestrydd
**4 Gorffennaf 2019**

# Ein rôl

> rydym yn gwerthfawrogi pobl, tegwch a thryloywder

Ni yw'r rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio. Gennym ni mae'r gofrestr o nyrsys a bydwragedd a all ymarfer yn y DU, a chymdeithion nyrsio a all ymarfer yn Lloegr. Rydym yn ceisio sicrhau bod ein holl waith yn sicrhau budd i'r cyhoedd. Rydym yn atebol i'r Senedd drwy'r Cyfrin Gyngor.

Mae gofal gwell a mwy diogel i bobl wrth wraidd yr hyn a wnawn, gan helpu'r gweithwyr iechyd a gofal proffesiynol ar ein cofrestr i ddarparu gofal o'r safon uchaf.

Rydym yn sicrhau bod gan nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio y sgiliau sydd eu hangen arnynt i ofalu am bobl yn ddiogel, ag urddas, arbenigedd, parch a thrugaredd, o'r eiliad y byddant yn camu i mewn i'w swydd gyntaf.

Ni fydd nyrsys, bydwragedd na chymdeithion nyrsio yn rhoi'r gorau i ddysgu ar y diwrnod y byddant yn cymhwyso. Er mwyn hybu diogelwch ac ymddiriedaeth y cyhoedd, rydym yn ei gwneud yn ofynnol i weithwyr proffesiynol ddangos drwy gydol eu gyrfaoedd eu bod yn ymrwymo i ddysgu a datblygu er mwyn sicrhau bod eu sgiliau'n gyfredol a'u bod yn gwella fel ymarferwyr.

Rydym am annog gweithwyr iechyd a gofal proffesiynol i fod yn agored a dysgu er mwyn gwella gofal a chadw'r cyhoedd yn ddiogel. Ar yr achlysuron pan fydd rhywbeth yn mynd o chwith ac y bydd pobl yn wynebu risg, gallwn gamu i mewn i ymchwilio i'r mater a chymryd camau gweithredu, gan roi llais i'r bobl yr effeithiwyd arnynt, gan gynnwys pobl sy'n defnyddio gwasanaethau, cleifion, eu gofalwyr a'u teuluoedd yn y broses.

Ein cyfrifoldebau rheoleiddio yw:

- cadw cofrestr o'r holl nyrsys a bydwragedd sy'n bodloni'r gofynion ar gyfer cofrestru yn y DU a chymdeithion nyrsio sy'n bodloni'r gofynion ar gyfer cofrestru yn Lloegr
- pennu'r safonau ar gyfer addysg, hyfforddiant, ymddygiad a pherfformiad er mwyn i nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio allu rhoi gofal o safon uchel yn gyson drwy gydol eu gyrfaoedd
- cymryd camau i ymdrin ag unigolion yr effeithir ar eu huniondeb neu eu gallu i roi gofal diogel, fel y gall y cyhoedd ymddiried yn yr ansawdd a'r safonau gofal a ddarperir gan nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio.

## Ein gwerthoedd

Mae ein gwerthoedd wrth wraidd popeth a wnawn:

**Rydym yn gwerthfawrogi pobl:** **credwn eu bod yn bwysig.**
**Rydym yn gwerthfawrogi tegwch:** **rydym yn gyson ac yn sicrhau uniondeb.**
**Rydym yn gwerthfawrogi tryloywder:** **rydym yn agored ac yn onest.**

# Adolygiad o berfformiad 2018–2019

Mae gennym rôl freintiedig yma yn yr NMC. Mae ein gwaith i helpu nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio i ddarparu'r gofal gorau, mwyaf diogel posibl yn cael effaith ar bawb ledled y DU. Felly, mae sicrhau ein bod yn gwneud hynny'n dda yn gyfrifoldeb enfawr.

Gwnaethom ddysgu gwersi pwysig iawn y llynedd. Yn bwysicach na dim, gwnaethom sylweddoli ein bod wedi colli golwg ar ein dyngarwch fel rheoleiddiwr. Gwnaethom siomi'r bobl a ofynnodd am ein cymorth. Ni wnaethom wrando arnynt na'u cymryd ddigon o ddifrif. Mae'n ddrwg iawn gennym am hyn ac rydym yn benderfynol o sicrhau y byddwn yn gwneud pethau'n wahanol.

Gyda'n Cadeirydd newydd, Philip Graf, a'n Prif Weithredwr a Chofrestrydd newydd, Andrea Sutcliffe, a ymunodd ym mis Ionawr 2019, mae gennym arweinwyr sy'n ymrwymedig i sicrhau ein bod yn rheoleiddiwr caredig, tosturiol, agored a theg.

Yn gywir ddigon, mae llawer o'n gwaith dros y flwyddyn ddiwethaf wedi cael ei lywio gan adolygiad yr Awdurdod Safonau Proffesiynol, *Lessons Learned Review*. Roedd yr adolygiad hwn yn ymchwilio i'r ffordd y gwnaethom ymdrin â phryderon a godwyd gyda ni ynglŷn ag addasrwydd i ymarfer bydwragedd yn Ysbyty Cyffredinol Furness.

Gwnaethom ymrwymo i gyflwyno rhaglen eang o waith i roi argymhellion yr Adolygiad ar waith ac adeiladu arnynt, gan ganolbwyntio ar y blaenoriaethau canlynol.

- Trin pawb sy'n dod i gysylltiad â ni ag urddas a pharch a'u cefnogi'n well pan fyddant yn dilyn ein prosesau.
- Bod yn fwy tryloyw a bod yn agored gyda phobl pan fydd pethau'n mynd o chwith.
- Ymgorffori diwylliant o fod yn agored a dysgu drwy'r sefydliad cyfan.

Gwnaethom ysgrifennu at yr holl deuluoedd y gwnaeth y digwyddiadau trasig effeithio arnynt, gan ymddiheuro'n ddiamod am y ffordd y gwnaethom eu trin. Rydym yn ddiolchgar i'r teuluoedd hynny a wnaeth gyfarfod â ni ac a ddywedodd wrthym am eu profiadau gyda'r broses addasrwydd i ymarfer. Mae'r wybodaeth a gawsom ganddynt wedi bod yn hanfodol er mwyn ein helpu i lywio ein cyfeiriad strategol ar gyfer y dyfodol.

Yn yr un modd, mae angen i ni drin cofrestreion â thosturi a pharch, gan gydnabod y materion cymhleth a'r pwysau y mae nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio yn eu hwynebu bob dydd.

Rydym wedi gweithio'n galed yn ystod 2018-2019 i roi'r hyn a ddysgwyd ar waith. Rydym wedi gwneud y canlynol:

- datblygu dull gweithredu newydd mewn perthynas ag addasrwydd i ymarfer sy'n ein hannog i fod yn agored a dysgu pan fydd pethau'n mynd o chwith
- atgyfnerthu ein gallu i nodi achosion lle mae angen cymorth clinigol arbenigol arnom, a recriwtio chwe chynghorydd clinigol newydd
- sefydlu Gwasanaeth Cymorth Cyhoeddus newydd sy'n arwain ein gwaith i sicrhau bod y sefydliad yn canolbwyntio ar unigolion
- edrych o'r newydd ar ein holl ohebiaeth er mwyn sicrhau ein bod yn cyfathrebu â phobl yn gliriach, yn fwy agored ac yn fwy gonest
- sefydlu tîm canolog newydd sy'n gyfrifol am ymdrin â cheisiadau am wybodaeth, adborth a chwynion, gyda thryloywder yn nod craidd iddo
- dechrau datblygu strategaeth pum mlynedd newydd sbon a gaiff ei llunio ar y cyd â'r cyhoedd, gweithwyr proffesiynol, a'n partneriaid.

## Sicrhau bod pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn

Gall y profiad o wneud cwyn ynglŷn â nyrs neu fydwraig fod yn llawn gofid ac ansicrwydd.

Mae ein Gwasanaeth Cymorth Cyhoeddus yn cynnig cymorth personol a phwrpasol i gleifion a theuluoedd sy'n codi pryderon gyda ni ynglŷn â nyrsys, bydwragedd neu gymdeithion nyrsio.

Nod y gwasanaeth yw rhoi llais i bobl pan fydd pethau'n mynd o chwith gyda'u gofal, gan eu trin â'r parch, y tosturi a'r dyngarwch y maent yn ei haeddu. Mae'r gwasanaeth yn ceisio sicrhau ein bod yn gwrando ar bobl, yn gweithio gyda nhw ac yn eu cefnogi drwy edrych yn fanwl ar eu tystiolaeth, rhoi'r wybodaeth gywir a'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt, ac ymdrin â nhw yn agored ac yn onest.

Eleni rydym wedi gwneud y canlynol:

- hyfforddi ein timau er mwyn eu helpu i nodi y gall fod angen cymorth ychwanegol ar rywun, a dangos iddynt ble i gael cymorth
- lansio adran newydd ar ein gwefan sy'n rhoi gwybodaeth well i gleifion, teuluoedd ac aelodau o'r cyhoedd
- cynnig cyfarfodydd gyda phobl sydd wedi gwneud atgyfeiriad er mwyn ein helpu i ddeall eu pryderon yn well
- sefydlu llinell cymorth emosiynol annibynnol ar y cyd â'r Cyngor Meddygol Cyffredinol sy'n cynnig cyngor cyfrinachol am ddim
- creu grŵp llywio sy'n cynnwys grwpiau cleifion, teuluoedd, cyflogwyr a sefydliadau eraill o bob rhan o'r DU er mwyn cefnogi ac arwain y gwelliannau rydym yn eu gwneud.

Dywedodd yr unigolyn cyntaf a gysylltodd â'r gwasanaeth yn uniongyrchol:

“*Yn ystod y pum mis cyntaf o fod mewn cysylltiad â'r NMC, roeddwn i wedi cael fy siomi ac yn teimlo'n unig ac yn ddryslyd – roedd fy nghwyn yn teimlo fel un o blith rhestr hir, yn cael ei throsglwyddo o un unigolyn i'r llall. Yn ystod y cyfnod hwnnw, wnaeth neb erioed ddweud ei bod yn ddrwg ganddo glywed beth oedd wedi digwydd i mi.*

“*Roedd ceisio cael rhywun i fy nghlywed i'n flinderus iawn – doeddwn i ddim yn ysgrifennu negeseuon e-bost am fy mod yn mwynhau gwneud hynny.*

“*Ers i mi fod mewn cysylltiad â'r gwasanaeth cymorth, mae fy marn ar yr NMC wedi gwrthdroi'n llwyr. O'r diwedd, gwelais dosturi, ymatebion cyflym, ac roedd pobl yn siarad â fi fel rhywun cyfartal. Rwy'n credu y dylai'r NMC fod yn falch iawn o'r ffordd mae ei Wasanaeth Cymorth Cyhoeddus yn datblygu. Nid gwasanaeth y mae'n ddymunol ei gael yw hwn – mae'n gwbl hanfodol. Mae wir wedi gwneud gwahaniaeth enfawr i fi.*”

# Ein cyfrifoldebau rheoleiddio

## Cynnal y gofrestr

Mae ein cofrestr wrth wraidd popeth a wnawn.

Ddiwedd mis Mawrth 2019, roedd dros 698,000 o nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio ar ein cofrestr o gymharu â thua 690,000 ddiwedd mis Mawrth 2018.

Rydym yn cadarnhau bod pobl sy'n gwneud cais i gael ymuno â'r gofrestr yn meddu ar y cymwysterau cywir ac y gallant ymarfer yn ddiogel ac yn effeithiol. Gall cyflogwyr ac aelodau o'r cyhoedd gadarnhau statws cofrestriad unrhyw nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio ar ein gwefan.

Bob tair blynedd, rhaid i bawb ar ein cofrestr ddangos y gall ddarparu gofal diogel, effeithiol a phroffesiynol drwy ailddilysu. Mae hyn yn golygu y gall y cyhoedd fod yn hyderus ei bod yn cael gofal gan weithwyr proffesiynol sy'n cymryd rhan mewn proses reolaidd o fyfyrio, dysgu a gwella.

Gwnaethom gyflwyno'r broses ailddilysu yn 2016, felly 2018-2019 oedd trydedd flwyddyn y cylch. Drwy gydol y tair blynedd gyntaf hyn, mae Ipsos MORI wedi bod yn cynnal gwerthusiad annibynnol ar ein rhan: mae'r canfyddiadau'n awgrymu bod y broses ailddilysu yn cael dylanwad cadarnhaol ar agweddau ac ymddygiad.

Dywed nyrsys a bydwragedd fod y broses ailddilysu yn eu helpu i ymarfer yn ddiogel ac yn effeithiol.

> "Mae'n rhoi cyfle i chi edrych yn ôl dros eich datblygiad a gloywi eich gwybodaeth a'ch profiad. Mae'n cynnig cyfle i chi fyfyrio ar yr holl flynyddoedd rydych wedi bod yn gweithio ac yn helpu i wella eich ymarfer. Mae'n wych adolygu a gloywi eich datblygiad dros amser!"

Ar 31 Mawrth 2019, roedd:

**653,544**
**o Nyrsys**

**36,916**
**o Fydwragedd**

**7,288**
**o Nyrsys a Bydwragedd**

**489**
**o Gymdeithion Nyrsio**

ar ein cofrestr.

**Cyfanswm o 698,237**

Mae cyflogwyr yn ei gweld fel ffordd bwysig o wella hyder y cyhoedd a chleifion yn y proffesiynau.

> Mae'n annog nyrsys i feddwl am eu hymarfer a pham rydym yn gwneud pethau, ac a oes angen eu newid.

## Cofrestru nyrsys a bydwragedd o dramor

Mae'r nyrsys a'r bydwragedd hynny ar ein cofrestr a hyfforddwyd y tu allan i'r DU yn gwneud cyfraniad hanfodol ac amhrisiadwy at iechyd a gofal cymdeithasol yn y DU.

Ym mis Ionawr 2018, gwnaethom ddechrau ein hadolygiad o'n proses gofrestru gyfan ar gyfer y rhai a hyfforddwyd dramor – y tu allan i'r UE/yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE). Mae ein hadolygiad yn ymdrin â phob rhan o'n proses gofrestru gan gynnwys sut mae ymgeiswyr yn cyflwyno eu ceisiadau, y ffioedd a delir ganddynt, sut maent yn dangos eu bod yn cyrraedd ein safonau a'r dystiolaeth sydd ei hangen arnom o'u gallu yn yr iaith Saesneg. Ein nod yw ei gwneud mor syml â phosibl i bobl sydd â'r sgiliau cywir ymuno â'n cofrestr.

Er mwyn gwneud gwelliannau mor gyflym â phosibl, gwnaethom gyflwyno rhai newidiadau ar unwaith gan gynnwys:

- galluogi nyrsys a bydwragedd sydd newydd gymhwyso nad ydynt o'r UE/AEE i wneud cais i weithio yn y DU drwy gael gwared ar y gofyniad i weithio am o leiaf 12 mis ar ôl cymhwyso
- caniatáu i ymgeiswyr sydd wedi methu rhannau o'r prawf ymarferol gorfodol ailsefyll y rhannau hynny yn unig, yn hytrach na'r prawf cyfan
- gwella canllawiau a deunyddiau ategol er mwyn helpu ymgeiswyr i baratoi cystal â phosibl
- derbyn sgôr o 6.5 yn elfen ysgrifenedig y prawf System Brofi Iaith Saesneg Ryngwladol (IELTS) – ar yr amod bod yr ymgeisydd yn ennill sgôr gyffredinol o 7 neu fwy.

## Perfformiad cofrestriadau

Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom barhau i wella ein gwasanaethau cofrestru i bawb.

- Gwnaethom ddiweddaru ein canllawiau ar iechyd a chymeriad, ailddilysu a thystiolaeth o allu yn yr iaith Saesneg.
- Gwnaethom symleiddio ein prosesau cofrestru er mwyn gwella profiad y cwsmer. Er enghraifft, gwnaethom wella ein gwefan a chynyddu'r meysydd y gall cwsmeriaid gysylltu â ni ar-lein yn eu cylch, fel ceisiadau cychwynnol gan bobl o'r UE a cheisiadau i newid enw a chyfeiriad, a oedd yn brosesau papur yn unig o'r blaen.
- Gwnaethom gyflwyno dull rheoli achosion ar gyfer nyrsys a bydwragedd sy'n dymuno ailymuno â'r gofrestr ac ar gyfer gwasanaethau cofrestru eraill. Drwy ddynodi un gweithiwr achos, sy'n cynnig un pwynt cyswllt a pharhad ar gyfer pob cais, mae ceisiadau cofrestru ac apeliadau gan bobl o'r DU yn symud yn eu blaenau'n gyflymach o lawer.

Yn 2018-2019 gwnaethom brosesu 30,623 o geisiadau gan bobl a oedd yn gwneud cais i ymuno â'n cofrestr am y tro cyntaf. O'r rhain:

- Roedd 23,498 gan ymgeiswyr a hyfforddwyd yn y DU (2017–2018: 21,931)
- Roedd 968 gan ymgeiswyr a hyfforddwyd yn yr UE/AEE (2017–2018: 805)
- Roedd 6,157 gan ymgeiswyr a hyfforddwyd y tu allan i'r UE/AEE (2017–2018: 2,724).

Gwnaethom barhau i berfformio'n gadarn drwy gydol y flwyddyn yn erbyn ein dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer cofrestru.

- Gwnaethom gwblhau 98.5 y cant o geisiadau cofrestru gan ymgeiswyr o'r DU o fewn 10 diwrnod (2017–2018: 97.9 y cant), gan ragori ar ein targed o 95 y cant. Cwblhawyd 99.9 y cant o fewn 30 diwrnod (2017–2018: 99.7 y cant). Cwblhawyd y rhan fwyaf o geisiadau i ymuno â'n cofrestr am y tro cyntaf o fewn diwrnod.
- Gwnaethom gwblhau 100 y cant o geisiadau cofrestru gan ymgeiswyr tramor/o'r UE o fewn ein cyfnod targed, sef 60 diwrnod (2017–2018: 98.5 y cant) – gan ragori ar ein targed o 90 y cant.

Mae ein canolfan alwadau yn rhoi cymorth i nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio gydag ymholiadau sydd ganddynt am gofrestru ac ailddilysu. Yn 2018–2019, deliodd y ganolfan alwadau ag 857 o alwadau y dydd ar gyfartaledd (2017–2018: 1,000), gan godi i 986 yn ystod y cyfnodau cofrestru ac adnewyddu brig. Gellir priodoli'r lleihad yn nifer y galwadau i'r hunanwasanaeth ar-lein gwell a gwelliannau i

**Yn 2018–2019 gwnaethom brosesu 30,623 o geisiadau newydd i gofrestru.**

**23,498**

gan ymgeiswyr a hyfforddwyd yn y **DU**

**968**

gan ymgeiswyr a hyfforddwyd yn yr **UE/AEE**

**6,157**

gan ymgeiswyr a hyfforddwyd **y tu allan i'r UE/AEE**

brosesau. Nid oedd ein perfformiad bob amser cystal ag y byddem wedi hoffi yn ystod y flwyddyn, gyda chyfartaledd o 88 y cant o'r holl alwadau a gafwyd yn cael eu hateb dros y flwyddyn gyfan (2017–2018: 91.2 y cant). Roedd hyn yn rhannol oherwydd problemau gyda'n ffonau, ac rydym wedi cymryd camau i'w datrys.

## Cymhwyso gweithwyr proffesiynol y dyfodol

### Cymdeithion nyrsio: rôl broffesiynol newydd

Gwnaethom groesawu ein cymdeithion nyrsio cyntaf i'n cofrestr ym mis Ionawr 2019.

Roedd hwn yn benllanw dwy flynedd o waith paratoi gan gynnwys datblygu ein safonau rheoliadol a'n prosesau ar y cyd ag amrywiaeth eang o bartneriaid a rhanddeiliaid.

Mae ein safonau yn sicrhau bod gan gymdeithion nyrsio y sgiliau sydd eu hangen arnynt i ofalu am bobl yn ddiogel, ag urddas, arbenigedd, parch a thrugaredd, o'r eiliad y byddant yn camu i mewn i'w swydd gyntaf.

Gall cymdeithion nyrsio ddarparu gofal yn annibynnol yn ogystal â chyfrannu at waith craidd nyrsys cofrestredig.

Mae ganddynt rôl hanfodol i'w chyflawni er mwyn cefnogi gofal gwell a mwy diogel i bobl o bob oed ym mhob math o leoliad iechyd a gofal cymdeithasol yn Lloegr.

Rydym hefyd wedi gweithio'n agos â chyrff cenedlaethol eraill yn Lloegr er mwyn sicrhau bod cyflogwyr yn cael y cymorth a'r canllawiau sydd eu hangen arnynt wrth drefnu cymdeithion nyrsio.

Roedd yn bleser gennym allu dathlu cyflwyno'r rôl broffesiynol newydd hon mewn derbyniad yn y Senedd gyda chymdeithion nyrsio sydd newydd gofrestru a'r holl bartneriaid a rhanddeiliaid a helpodd i greu'r rôl hon.

Dywedodd cydymaith nyrsio:

> *Roeddwn i'n teimlo mor falch wrth gwblhau fy ngradd, graddio o Brifysgol Lincoln a dod yn gydymaith nyrsio cofrestredig. Er fy mod yn bryderus wrth ddechrau ar fy nghwrs yn 2017, roeddwn i hefyd yn llawn cyffro a chefais lawer o foddhad o gymhwyso'r hyn roeddwn i'n ei ddysgu yn y brifysgol yn y gweithle ar fy lleoliadau. Wrth i fy sgiliau ddatblygu, roeddwn i'n teimlo bod fy nghydweithwyr nyrsio yn fy ngwerthfawrogi fwyfwy. Rwy'n credu eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n well ac roedd yn wych i mi allu rhoi gofal ymarferol ar lefel uwch nag o'r blaen.*

Mae'r NMC yn bodoli er mwyn i aelodau o'r cyhoedd allu bod yn hyderus bod y nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio sy'n gofalu amdanynt yn gallu darparu'r gofal gorau, mwyaf diogel posibl. Mae ein safonau addysg yn allweddol i hyn. Rydym wedi parhau i wneud cynnydd gyda'n rhaglen pedair blynedd er mwyn gwella ein safonau addysg. Mae'r rhain yn sicrhau bod nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio'n meddu ar y sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen arnynt i ddarparu gofal diogel o safon uchel nawr ac yn y dyfodol.

## Nyrs y dyfodol

Cyhoeddwyd ein safonau addysg uchelgeisiol newydd ym mis Mai 2018 a daethant i rym ym mis Ionawr 2019. Treuliwyd dwy flynedd yn datblygu'r safonau ar y cyd â nyrsys, myfyrwyr, addysgwyr, gweithwyr proffesiynol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, elusennau a grwpiau cleifion o bob cwr o'r DU. Mae'r safonau'n nodi'r sgiliau a'r wybodaeth y bydd y genhedlaeth nesaf o nyrsys yn eu dysgu er mwyn eu galluogi i ddarparu gofal o'r radd flaenaf.

Fel rhan o'r gwaith o ddiweddaru ein safonau, gwnaethom fabwysiadu Fframwaith Cymhwysedd y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol ar gyfer pob Rhagnodwr fel ein safonau newydd ar gyfer nyrsys a bydwragedd sy'n rhagnodi, gan ddiddymu ein safonau ar gyfer rheoli meddyginiaethau ar yr un pryd.

## Bydwraig y dyfodol

Gwnaethom ddechrau ymgynghori ynghylch safonau yr un mor uchelgeisiol i ail-lunio dyfodol addysg a hyfforddiant bydwreigiaeth yn y DU.

Lluniwyd y safonau drafft ar y cyd â menywod a'u teuluoedd, bydwragedd, myfyrwyr a'n partneriaid ym mhob un o'r pedair gwlad ym maes addysg a gwasanaethau mamolaeth. Roedd yn hanfodol deall yr hyn sy'n bwysig i'r grwpiau hyn. Rydym yn ddiolchgar i'r Athro Mary Renfrew FRSE am arwain y gwaith hwn ac am y cyfraniadau parhaus gan y grŵp arwain syniadau sy'n cynnwys aelodau o bob un o'r pedair gwlad. Gwnaed gwaith goruchwylio a sicrwydd hanfodol gan ein Panel Bydwreigiaeth.

Cyhoeddwyd y safonau drafft ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus 12 wythnos ledled y DU ym mis Chwefror 2019, a ategwyd gan ddigwyddiadau ymgysylltu yng Nghymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban, ochr yn ochr â gweminarau, blogiau a gweithgarwch yn y cyfryngau cymdeithasol.

Mae ein Panel Bydwreigiaeth yn cynnig cyngor strategol lefel uchel ar faterion yn ymwneud â bydwreigiaeth a mamolaeth. Roeddem wrth ein bodd bod yr Athro Anna van der Gaag wedi cytuno i ymgymryd â rôl Cadeirydd annibynnol y Panel ym mis Hydref 2018.

Ymhlith yr aelodau mae pedwar Prif Swyddog Nyrsio, Prif Swyddog Bydwreigiaeth Lloegr, Prif Gynghorydd Bydwreigiaeth yr Alban a'r bydwragedd ar y lefel uchaf yng Nghymru a Gogledd Iwerddon, Prif Weithredwr Coleg Brenhinol y Bydwragedd, gweithwyr proffesiynol arweiniol, addysgwyr bydwreigiaeth ac unigolion allweddol eraill sydd â diddordeb mewn gwasanaethau bydwreigiaeth a mamolaeth, gan gynnwys arbenigwyr.

Yn fewnol, gwnaethom benodi dau Uwch-gynghorydd Bydwreigiaeth i gynnig arbenigedd ac arweiniad mewn perthynas â bydwreigiaeth i bob rhan o'r sefydliad. Byddant yn cefnogi gwaith y Panel, y gwaith o ddatblygu ein safonau ar gyfer bydwraig y dyfodol a'n gwaith parhaus i ymgysylltu â bydwragedd, bydwragedd dan hyfforddiant, menywod a theuluoedd.

## Dychwelyd i ymarfer

Yn 2018 gwnaethom gynnal ymgynghoriad ynghylch ein safonau dychwelyd i ymarfer newydd. Mae'r safonau hyn yn nodi sut y gall nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio ailymuno â'n cofrestr yn dilyn cyfnod i ffwrdd o ymarfer. Cymeradwyodd y Cyngor y safonau newydd ym mis Mawrth 2019. Mae'r safonau newydd yn galluogi pobl naill ai i gwblhau cwrs dychwelyd i ymarfer sy'n seiliedig ar ganlyniadau yn llwyddiannus, neu lwyddo ym mhrawf cymhwysedd yr NMC er mwyn iddynt allu ailymuno â'n cofrestr. Cyhoeddwyd y safonau newydd ym mis Mai 2019 a bydd y prawf cymhwysedd ar gael ym mis Ionawr 2020.

## Safonau ôl-gofrestru

Gwnaethom gomisiynu gwerthusiad annibynnol o'n safonau nyrsio iechyd y cyhoedd cymunedol arbenigol a'n safonau cymwysterau ymarfer arbenigol. Byddwn yn ymgysylltu'n eang â rhanddeiliaid yn ystod 2019 i benderfynu ar y ffordd ymlaen mewn perthynas â'r safonau hyn. Mewn ymateb i'r gwerthusiad, cafwyd hefyd safbwyntiau ar gymwysterau ôl-gofrestru yn gyffredinol a ph'un a ddylai'r NMC fod yn fwy gweithgar yn y maes hwn. Bydd y safbwyntiau hyn yn cyfrannu at y gwaith o ddatblygu ein strategaeth ar gyfer y dyfodol 2020–2025.

## Cydweithio

Dim ond drwy gydweithio â'n rhanddeiliaid a'n partneriaid y gallwn wneud ein gwaith yn dda.

Rydym yn cyfarfod yn rheolaidd ag amrywiaeth eang o bartneriaid ledled Cymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban. Maent yn cynnwys adrannau'r llywodraeth, rheoleiddwyr eraill, Colegau Brenhinol ac undebau llafur, sefydliadau addysg a'r rhai sy'n cynrychioli barn y cyhoedd, cleifion a phobl sy'n defnyddio gofal nyrsio a bydwreigiaeth.

Dangosodd archwiliad annibynnol o ganfyddiadau fod ein huwch randdeiliaid o'r farn ein bod wedi bod yn gwella'n gyson ers 2012. Mae ein cydberthnasau'n dda ac yn gwella ac rydym yn gwbl ymrwymedig i sicrhau'r gwelliannau y mae ein partneriaid am eu gweld.

Byddwn yn gwneud mwy o waith gyda phartneriaid er mwyn eu cynnwys mor gynnar â phosibl yn ein gwaith meddwl, gan gynnwys dilyn dull strategol newydd o ymchwilio er mwyn casglu tystiolaeth glir o'r amgylchedd rydym yn gweithio ynddo. Dechreuodd ein Prif Weithredwr a Chofrestrydd newydd, Andrea Sutcliffe, ar ei chyfnod gyda'r NMC drwy gynnal cyfres o ymweliadau o dan y teitl #listeningmode. Gwnaeth gwrdd â nyrsys a bydwragedd sy'n gweithio ym mhob un o'r pedair gwlad. Yn Lloegr, gwnaeth hefyd gwrdd â chymdeithion nyrsio a'u gweld yn ymarfer.

Mae bod yn dryloyw ac yn agored yn un o'r nifer o ffyrdd rydym yn canolbwyntio ar ddysgu a gweithredu'n unol ag adborth gan sefydliadau ac unigolion. Rydym yn cynnal adolygiad ehangach, mwy rhagweithiol o'n blaenoriaethau strategol ac yn siarad ag un llais amdanynt.

Er mwyn sicrhau dull gweithredu cydgysylltiedig, rydym yn gweithio gyda grwpiau perthnasol, gan ddatblygu ein cysylltiadau â llywodraethau, cynrychiolwyr etholedig a chyrff iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban.

Byddwn yn parhau i siarad yn eang â'r cyhoedd, gweithwyr proffesiynol a'n partneriaid wrth i ni fwrw ymlaen â rhaglenni polisi a newid mawr fel ein rhaglenni addysg a thramor, parhau i roi ein dull strategol newydd mewn perthynas ag addasrwydd i ymarfer ar waith a datblygu ein strategaeth newydd ar gyfer 2020–2025.



**83**

**o SACau yn cyflwyno**

**938**

**o raglenni cymeradwy**



## Sicrhau ansawdd addysg

Yn 2018–2019 gwnaethom gyflwyno safonau newydd sy'n seiliedig ar ganlyniadau ar gyfer sefydliadau addysg a'u partneriaid lleoliadau ymarfer. Bydd y safonau newydd hyn yn galluogi sefydliadau addysg cymeradwy (SACau) i ddatblygu a chyflwyno amrywiaeth ehangach o raglenni newydd ac arloesol gan gynnwys prentisiaethau. Ochr yn ochr â'r safonau newydd, rydym wedi datblygu model sicrhau ansawdd addysg newydd. Ar 31 Mawrth 2019, mae 28 o SACau wedi'u cymeradwyo i gyflwyno rhaglenni prentisiaeth gradd nyrsio.

### Cymeradwyo

Gan ddefnyddio'r model sicrhau ansawdd newydd, gwnaethom ddechrau cymeradwyo sefydliadau a rhaglenni yn erbyn ein safonau addysg newydd, gan gynnwys y safonau newydd ar gyfer cymdeithion nyrsio.

Mae nifer y SACau wedi cynyddu o 81 i 83 ar 31 Mawrth 2019, gan gyflwyno 938 o raglenni cymeradwy.

Mae ein fframwaith sicrhau ansawdd newydd wedi cyflwyno ymwelwyr lleyg fel gofyniad ar gyfer ein hymweliadau cymeradwyo ar gyfer rhaglenni cyn cofrestru. Bellach, rhaid i sefydliadau ddangos sut maent yn rhyngweithio'n dda â phobl sy'n defnyddio gwasanaethau, cleifion a'u gofalwyr. Mae hyn yn rhan o'n hymrwymiad i ymgysylltu'n fwy â'r cyhoedd yn ein gweithgarwch sicrhau ansawdd.

### Monitro

Gwnaethom ddewis SACau ar gyfer ymweliadau monitro gan ddefnyddio dull sy'n seiliedig ar risg. Gwnaethom ganolbwyntio ar raglenni bydwreigiaeth cyn cofrestru, dychwelyd i ymarfer (bydwreigiaeth) a nyrsio iechyd y cyhoedd cymunedol arbenigol. Mae rhagor o fanylion i'w cael yn *Sicrhau ansawdd addysg nyrsio a bydwreigiaeth Adroddiad Blynyddol 2017-2018* sydd wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan.

Dysgu ymarfer oedd y maes a oedd yn peri'r pryder mwyaf o hyd. Gwnaethom gymryd camau dilynol mewn perthynas ag unrhyw faterion a nodwyd gennym er mwyn sicrhau bod sefydliadau a'u partneriaid yn eu rheoli'n brydlon ac yn effeithiol.

Gwnaethom ddechrau datblygu a defnyddio ein dull newydd seiliedig ar ddata o fonitro sefydliadau, gan gymryd camau priodol lle y caiff pryderon eu codi, neu lle y ceir risgiau nad yw ein safonau'n cael eu cyrraedd. Mae hyn yn cynnwys defnyddio gwybodaeth o'n gwaith gyda chyflogwyr, yn ogystal â gweithio'n agosach gyda rheoleiddwyr addysg ac iechyd a gofal cymdeithasol eraill i rannu gwybodaeth, gan barhau i'w gwneud yn ofynnol i sefydliadau adrodd yn eithriadol ar unrhyw bryderon.

## Gwrando ar bobl a phartneriaid

Fel rheoleiddiwr pedair gwlad, mae angen i ni ddeall y gwahanol dirweddau iechyd a gofal yng Nghymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon a Lloegr, a bod yn ymatebol iddynt. Mae'n bwysig iawn ein bod yn gwrando ar gydweithwyr o bob rhan o'r DU, ac yn dysgu oddi wrthynt, ynglŷn â'r ffordd mae'r gwaith a wnawn yn effeithio ar fywydau'r rhai a reoleiddir gennym a'r cyhoedd.

Gwnawn hyn drwy:

- ystyried goblygiadau'r penderfyniadau a wnawn a'r camau gweithredu a gymerwn i bob un o'r pedair gwlad
- cydweithio'n agos â'r pedwar Prif Swyddog Nyrsio a phartneriaid eraill ym mhob gwlad
- cynnal digwyddiadau ymgynghori ac ymgysylltu ledled Cymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon a Lloegr.

Mae ein Prif Weithredwr a Chofrestrydd newydd wedi ymweld â phob gwlad i glywed yn uniongyrchol gan y rhai a reoleiddir gennym a'r bobl y maent yn gofalu amdanynt.

## Perfformiad addasrwydd i ymarfer

Os bydd rhywun sydd wedi'i gofrestru â ni yn peri risg i gleifion neu'r cyhoedd, gallwn weithredu i gyfyngu ar ei hawl i weithio fel nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio neu ddiddymu'r hawl honno.

Yn 2018–2019 cawsom 5,373 o bryderon newydd, sef tua 2.5 y cant yn llai o atgyfeiriadau nag a gawsom yn 2017–2018. Mae cyfanswm nifer y pryderon a gawsom yn cynrychioli tua wyth atgyfeiriad am bob 1,000 o gofrestreion.

Mae'n cymryd amser i ymchwilio i achosion a dod i gasgliad, felly mae'r ffigurau isod yn cynnwys achosion a gafwyd mewn blynyddoedd blaenorol yn ogystal â'r achosion a gafwyd yn 2018-2019.

Gwnaethom gau 3,389 o achosion ar ôl asesiad cychwynnol (2017–2018: 3,081) naill ai am nad oedd modd i ni nodi nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio ar ein cofrestr neu am i ni ddod i'r casgliad, yn dilyn asesiad cychwynnol, nad oedd angen cymryd unrhyw gamau rheoleiddio mewn perthynas â'r pryderon.

Yn 2018–2019, gwnaeth ein Harchwilwyr Achos 1,638 o benderfyniadau (2017–2018: 2,234) ar ddiwedd ymchwiliad. Mae hyn yn adlewyrchu mewnbwn is na'r bwriad gan ein timau ymchwilio i'r Archwilwyr Achos. Gwnaethom weithio i sefydlogi a gwella perfformiad mewn ymchwiliadau drwy newid ffocws ein timau a buddsoddi mewn ymchwiliadau allanol ychwanegol.

Ar ôl atgyfeirio achos at wrandawiad neu gyfarfod, gall nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio wneud cais i gael eu tynnu oddi ar y gofrestr yn wirfoddol. Yn ystod 2018-2019, cawsom 101 o geisiadau o'r fath, a chytunwyd i 60 ohonynt.

Yn 2018–2019, gwnaeth ein paneli 661 o benderfyniadau terfynol ynghylch achosion (2017–2018: 1,207 a 2016–2017: 1,513) drwy gyfarfodydd a gwrandawiadau, a rhoddwyd sancsiynau mewn 549 o achosion (2017–2018: 923). Mae'r lleihad yn nifer y canlyniadau gwrandawiadau a chyfarfodydd yn adlewyrchu:

- lleihad cyffredinol mewn llwyth achosion dros y tair blynedd diwethaf am ein bod wedi datrys yr ôl-groniad hanesyddol
- achosion o ddefnyddio pwerau Archwilwyr Achos i gytuno ar ymrwymiadau, rhoi rhybuddion a rhoi cyngor, a gyflwynwyd ym mis Gorffennaf 2017
- allbwn is na'r bwriad o'r cam ymchwilio.

Rydym wedi cynnal perfformiad cadarn yn erbyn y ddau darged perfformiad addasrwydd i ymarfer sydd gennym.

- Gwnaethom roi 84 y cant o orchmynion interim o fewn 28 diwrnod ar ôl i bryderon gael eu codi gyda ni (2017–2018: 88 y cant). Cyfyngiad dros dro a roddir ar ymarfer nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio wrth i ni ymchwilio i bryderon yw gorchymyn interim.
- Gwnaethom gwblhau 86 y cant o'n hachosion o fewn 15 mis (2017–2018: 81 y cant).

Ym mis Ebrill 2019, cyhoeddodd yr Awdudod Safonau Proffesiynol ei adolygiad blynyddol o'n perfformiad ar gyfer 2017-2018. Cadarnhaodd yr Awdurdod ein bod wedi cyrraedd wyth allan o'r 10 safon rheoleiddio da ar gyfer addasrwydd i ymarfer. Y ddwy safon na wnaethom eu cyrraedd oedd:

- Proses dryloyw, deg a chymesur sy'n canolbwyntio ar amddiffyn y cyhoedd (Safon 5).
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i bartïon achosion am hynt eu hachos a chynnig cymorth iddynt allu cymryd rhan yn y broses yn effeithiol (Safon 7).

Rydym yn cymryd canfyddiadau'r Awdurdod o ddifrif ac roeddem eisoes yn gweithio i wneud cynnydd yn y meysydd hyn yn ystod 2018–2019. Bydd y gwaith rydym yn ei wneud i ddilyn dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar unigolion mewn perthynas ag addasrwydd i ymarfer yn mynd i'r afael â rhai o'r canfyddiadau hyn. Rydym hefyd wedi:

- newid y ffordd rydym yn cofnodi'r sail resymegol dros ein penderfyniadau ar y camau cynnar
- rhoi hyfforddiant i'n penderfynwyr er mwyn sicrhau bod eu sail resymegol yn glir ac yn gysylltiedig â'n canllawiau
- cyflwyno safonau ansawdd tystiolaethol sy'n nodi'r wybodaeth y mae angen i'n hymchwilwyr ei chael yn glir, a rhoi hyfforddiant ar hyn i'n timau.

**Gorchmynion interim**

**Rhoddwyd**

**84%**

**o fewn 28 diwrnod**

**Cwblhawyd**

**86%**

**o achosion o fewn 15 mis**

# Ffigurau o ran addasrwydd i ymarfer 2018–2019

## 1 Asesiad rhagarweiniol

Pan fydd pryderon yn cael eu rhannu â ni ynglŷn ag addasrwydd rhywun i ymarfer **byddwn yn cadarnhau bod yr unigolyn dan sylw ar ein cofrestr ac yn asesu p'un a oes angen ymchwilio'n llawn i'r pryderon.**

Cawsom
**5,373**
**o bryderon newydd**

## 2 Gorchmynion interim

Lle bo angen, **gall ein paneli annibynnol gymryd camau brys dros dro ar unrhyw adeg er mwyn amddiffyn y cyhoedd** wrth i ni ymchwilio i'r pryderon a godwyd.

Cytunodd ein paneli i wneud y canlynol:

## 3 Ymchwiliadau

**Lle bo angen, byddwn yn ymchwilio'n llawn i'r pryderon a godwyd ynglŷn ag addasrwydd rhywun i ymarfer.**

Ar ddiwedd yr ymchwiliad, bydd ein Harchwilwyr Achos yn penderfynu p'un a oes angen cymryd unrhyw gamau pellach i amddiffyn y cyhoedd. Gall Archwilwyr Achos benderfynu peidio â chymryd unrhyw gamau pellach os byddant yn dod i'r casgliad nad oes angen cymryd camau rheoleiddio mewn perthynas â'r pryderon neu os yw'r nyrs, y fydwraig neu'r cydymaith nyrsio wedi cymryd camau digonol i wella ei hymarfer/ei ymarfer.

Gwnaethom gwblhau
**1,638**
**o ymchwiliadau**

**Penderfynodd ein Harchwilwyr Achos wneud y canlynol:**

## 4 Dyfarnu

**Lle bo angen, caiff achosion eu dyfarnu gan ein paneli annibynnol.**

Y paneli sy'n penderfynu a oes angen cymryd camau rheoleiddio i amddiffyn y cyhoedd. Gall y paneli benderfynu peidio â chymryd unrhyw gamau pellach os byddant yn dod i'r casgliad nad yw'r honiadau wedi'u cadarnhau neu os yw'r nyrs, y fydwraig neu'r cydymaith nyrsio wedi cymryd camau digonol i wella ei hymarfer/ei ymarfer.

**Gwnaeth ein paneli ddyfarnu**
**661**
**o achosion**

Penderfynodd ein paneli wneud y canlynol:

Gwnaethom benderfyniadau ynghylch **5,379** o achosion

**Gwnaethom benderfynu** bod angen **ymchwilio'n llawn i** **1,990** o achosion

**Gwnaethom benderfynu** nad oedd angen **ymchwilio'n llawn i** **3,389** o achosion

Rhoi gorchmynion **atal dros dro interim** mewn **238** **o achosion**

Rhoi gorchmynion **amodau ymarfer interim** mewn **268** **o achosion**

Peidio â chymryd **unrhyw gamau pellach** mewn **963** **o achosion**

**Rhoi cyngor, rhoi rhybudd,** neu **gytuno ar ymrwymiadau** mewn **155** **o achosion**

**Atgyfeirio** **520** **o achosion** **am ddyfarniad**

**Tynnu'r unigolyn** oddi ar y gofrestr mewn **162** **o achosion**

Atal yr unigolyn rhag bod ar y gofrestr dros dro mewn **231** **o achosion**

Rhoi gorchmynion amodau ymarfer mewn **99** **o achosion**

**Rhoi rhybuddion mewn** **57** **o achosion**

**Peidio â chymryd unrhyw gamau pellach mewn** **112** **o achosion**

## Addasrwydd i ymarfer – dull strategol newydd o weithredu

Mae ein dull strategol newydd o weithredu mewn perthynas ag addasrwydd i ymarfer yn allweddol er mwyn mynd i'r afael ag argymhellion yr Awdurdod Safonau Proffesiynol yn *Lessons Learned Review*.

Ymatebodd bron i 900 o unigolion a sefydliadau i ymgynghoriad cyhoeddus ynghylch ein cynlluniau i bennu cyfeiriad strategol newydd ar gyfer addasrwydd i ymarfer. Rhoddwyd gwybodaeth ac adborth gwerthfawr ganddynt i lywio agweddau ar y dull newydd hwn o weithredu, sydd â'r nod o wella'r ffordd rydym yn ymdrin â phryderon a godir gyda ni.

Gwnaethom gomisiynu sefydliad annibynnol i gyflawni ymchwil ansoddol gyda rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys y cyhoedd, cofrestreion a chyflogwyr, er mwyn cael gwybod beth mae'r bobl rydym yn eu gwasanaethu a'r sawl rydym yn eu rheoleiddio yn ei ddisgwyl o'r broses reoleiddio. Rhoddodd hyn ddealltwriaeth well i ni o'r hyn y mae pobl yn ei ddisgwyl o'r broses addasrwydd i ymarfer ac mae wedi llywio'r gwaith o ddatblygu ein dull strategol newydd o weithredu.

Rydym yn ymgorffori dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar unigolion ym mhopeth a wnawn. Rydym am annog diwylliant dysgu agored mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol, sy'n helpu nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio i ddysgu o gamgymeriadau a mynd i'r afael â phryderon ynglŷn â'u hymarfer.

Rhwng mis Medi 2018 a mis Mawrth 2019 gwnaethom dreialu pum newid gweithredol i brofi'r ffyrdd newydd o weithio.

- Gwnaethom weithio gyda chyflogwyr i lunio canllawiau ar yr hyn sydd ei angen arnom er mwyn ymchwilio i bryderon. Gwnaethom hefyd lansio system atgyfeirio ar-lein newydd i wella ansawdd y wybodaeth a gawn ac i gael cyflogwyr i feddwl yn fwy am gamau gweithredu lleol. Mae'n debygol bod hyn yn un o'r rhesymau pam y cawsom 2.5 y cant yn llai o atgyfeiriadau nag yn 2017–2018.
- Pan godwyd pryderon gan aelodau o'r cyhoedd, gwnaethom siarad â nhw'n uniongyrchol er mwyn sicrhau ein bod yn deall yn llawn beth roeddent am i ni ymchwilio iddo. Gwnaethom hefyd siarad â nhw am ein proses a phennu disgwyliadau.
- Gwnaethom ofyn i gyflogwyr ddweud mwy wrthym am y cyd-destun a'r amgylchedd y bydd camgymeriadau'n digwydd ynddynt, ac ymgorffori hyn yn ein proses gwneud penderfyniadau.
- Gwnaethom hyfforddi ein timau i helpu nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio i ddysgu o gamgymeriadau a mynd i'r afael â nhw drwy adferiad.
- Gwnaethom weithio gyda nyrsys, bywragedd a chymdeithion nyrsio i gytuno ar ble na lwyddwyd i gyrraedd safonau gofal neu broffesiynoldeb fel ein bod ond yn mynd ag achosion i wrandawiad llawn pan fydd anghydfod o hyd ynghylch materion.

Gwnaethom werthuso canlyniadau'r cynlluniau treialu hyn a nodi nifer o bwyntiau dysgu, ond ni nodwyd unrhyw beth i awgrymu na ddylem fwrw ymlaen â'n dull newydd o weithredu. Byddwn yn rhoi'r dull newydd ar waith yn 2019.

## Gwasanaeth Cyswllt Cyflogwyr Gwybodaeth Reoleiddio

Mae ein Gwasanaeth Cyswllt Cyflogwyr a'n Huned Gwybodaeth Reoleiddio yn ein helpu i gyfathrebu'n well â chyflogwyr nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio, nodi risgiau posibl a sicrhau eu bod yn cael eu rheoli'n briodol.

Eleni:

- Bu ein Cynghorwyr Rheoleiddio yn gweithio'n agos gyda chyflogwyr i gydlunio dulliau gwell o reoli ac uwchgyfeirio pryderon ynghylch addasrwydd i ymarfer.
- Gwnaethom ddatblygu adnoddau er mwyn ein helpu i ddeall ffactorau risg yn well a rhannu gwersi o ymarfer gwael. Bydd hyn yn fodd i ddarparu gofal mwy diogel i gleifion a phobl sy'n defnyddio gwasanaethau.
- Gwnaethom arwain rhwydwaith o reoleiddwyr iechyd a gofal i greu dull safonol o rannu gwybodaeth a phryderon, fel ein bod i gyd yn deall ffactorau risg yn well.
- Gwnaethom lunio memoranda cyd-ddealltwriaeth gyda nifer o reoleiddwyr iechyd a gofal cymdeithasol ledled y DU.
- Gwnaethom greu Emerging Concerns Protocol a'i ddefnyddio i rannu gwybodaeth a monitro risgiau mewn perthynas â sefydliadau yn llwyddiannus.

Dywedodd cyflogwr:

*Hoffwn roi gwybod i chi faint o fudd rwyf wedi'i gael o gymorth a chyngor y Gwasanaeth Cyswllt Cyflogwyr dros y flwyddyn neu ddwy ddiwethaf – mae wedi bod yn amhrisiadwy ac rwy'n ei werthfawrogi'n fawr iawn.*

Mae *Adroddiad Blynyddol ar Addasrwydd i Ymarfer 2018–2019*, a gyhoeddir ar wahân, yn rhoi trosolwg manwl o'r gwaith rydym wedi bod yn ei wneud eleni.

## Chwythu'r chwiban i ni fel unigolyn rhagnodedig

Mae'r NMC yn 'unigolyn rhagnodedig' yn ôl y gyfraith. Golyga hyn y gall pryderon gael eu codi gyda ni gan nyrsys, bydwragedd, cymdeithion nyrsio, myfyrwyr neu weithwyr proffesiynol eraill ym maes gofal iechyd sy'n nodi camwedd yn eu gweithleoedd neu leoliadau ymarfer. Mae ein polisi yn nodi'r meini prawf a ddefnyddiwn i benderfynu a ddylai gwybodaeth a ddaw i law gael ei thrin fel chwythu'r chwiban.

Cawsom 34 o ddatgeliadau rydym yn credu'n rhesymol eu bod yn achosion o chwythu'r chwiban am eu bod yn bodloni pob un o'n meini prawf.

Roedd rhai o'r pryderon chwythu'r chwiban mwyaf cyffredin a godwyd gyda ni yn ymwneud â'r canlynol:

- diogelwch a gofal cleifion
- arwain a rheoli
- ymddygiad (gan gynnwys bwlio cydweithwyr, eu bygwth neu aflonyddu arnynt).

Y rhesymau mwyaf cyffredin pam nad oedd materion yn bodloni ein meini prawf oedd:

- Nid oedd y pryderon yn perthyn i'n cylch gwaith rheoleiddio. Lle y bo'n briodol, gwnaethom atgyfeirio'r pryderon hyn at gorff arall.
- Nid oeddent yn bodloni prawf budd y cyhoedd. Wrth gynnal asesiad, byddwn yn ystyried nifer yr unigolion y mae'r datgeliad yn gofalu am eu buddiannau a natur y camwedd. Cwynion personol neu gwynion sydd ond yn gofalu am fuddiannau'r unigolyn sy'n gwneud y datgeliad yw'r rhan fwyaf o'r datgeliadau nad ydynt yn bodloni prawf budd y cyhoedd. Os nad yw datgeliad yn bodloni prawf budd y cyhoedd gallwn, lle y bo'n briodol, ymdrin â'r datgeliad drwy ein proses addasrwydd i ymarfer neu rannu'r wybodaeth â rheoleiddiwr arall.
- Nid oedd digon o wybodaeth i ni weithredu.

Rydym yn gweithio gyda rheoleiddwyr iechyd a gofal cymdeithasol eraill i gyhoeddi adroddiad ar y cyd yn ystod hydref 2019 ar y ffordd y gwnaethom ymdrin â datgeliadau chwythu'r chwiban a'r camau a gymerwyd gennym.

## Ceisiadau rhyddid gwybodaeth a cheisiadau eraill am wybodaeth

Fel pob sefydliad arall, rydym yn cydymffurfio â mesurau amddiffyn mwy caeth mewn perthynas â thrin gwybodaeth bersonol, a ddaeth i rym ym mis Mai y llynedd fel rhan o'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) a Deddf Diogelu Data 2018.

Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom ddechrau adolygu ein dull o ymateb i geisiadau am wybodaeth er mwyn sicrhau ein bod mor agored a gonest â phosibl wrth ryddhau gwybodaeth heb amharu ar hawliau pobl. Rydym wedi newid y ffordd rydym yn ymdrin â cheisiadau a wneir gan atgyfeirwyr ac unigolion eraill yr effeithiwyd arnynt am ragor o wybodaeth am ein hymchwiliadau addasrwydd i ymarfer. Mewn rhai achosion, ni ellir datgelu'r wybodaeth y maent yn gofyn amdani o dan Ddeddf Rhyddid

Gwybodaeth 2000 ac nid yw'r wybodaeth honno i fewn cwmpas cais am fynediad at ddata gan y testun. Byddwn nawr yn ystyried p'un a all unrhyw wybodaeth, y tu hwnt i'r manylion y byddent yn eu cael fel arfer yn ystod ymchwiliad, gael ei rhannu â nhw, yn gyfrinachol, gan ddefnyddio ein pwerau rhannu data ehangach o dan ddeddfwriaeth diogelu data. Mae'r dull newydd hwn o weithredu yn adlewyrchu ein dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar unigolion a'n hymrwymiad i fod yn dryloyw ac yn agored.

Mae tri math o gais am wybodaeth: Rhyddid Gwybodaeth, Mynediad at Ddata gan y Testun, a Datgelu Data Trydydd Parti.

| | Rhyddid Gwybodaeth | |
|---|---|---|
| Ceisiadau | 2018–19 | 2017–18 |
| A gafwyd | 414 | 477 |
| Yr ymatebwyd iddynt | 374 | 454 |
| Yr ymdriniwyd â nhw mewn ffordd arall | 39 | 23 |
| Ar agor | 1 | Dd/G |

| | Mynediad at Ddata gan y Testun | Datgelu Data Trydydd Parti | Cyfunol* |
|---|---|---|---|
| Ceisiadau | 2018–19 | 2018–19 | 2017–18 |
| A gafwyd | 192 | 968 | 324 |
| Yr ymatebwyd iddynt | 163 | 940 | 271 |
| Yr ymdriniwyd â nhw mewn ffordd arall | 26 | 27 | 53 |
| Ar agor | 3 | 1 | Dd/G |

** Yn 2017–2018 roedd ceisiadau am Fynediad at Ddata gan y Testun a cheisiadau i Ddatgelu Data Trydydd Parti yn cael eu cyfrif fel un categori.*

Gwnaethom adolygu ein dull o ymdrin â cheisiadau a wneir gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) a Disclosure Scotland (DS). Ers mis Ebrill 2018, rydym wedi prosesu a chofnodi'r ceisiadau hyn yn ganolog fel ceisiadau i Ddatgelu Data Trydydd Parti Mae hyn wedi arwain at gynnydd yn nifer y ceisiadau i Ddatgelu Data Trydydd Parti a gofnodwyd, gyda cheisiadau DBS a DS yn cyfrif am 595 o'r cyfanswm cyffredinol.

## Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth 2018–2019

**Cafwyd 414**

**Ymatebwyd i 374**

**Ymdriniwyd â 39 mewn ffordd arall**

**1 ar agor**

Rydym hefyd wedi gweld cynnydd yn nifer y ceisiadau am Fynediad at Ddata gan y Testun. Credwn y gall hyn fod yn sgil cyflwyno'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR), sy'n golygu bod mwy o bobl yn ymwybodol o'u hawliau i wneud cais am ddata amdanynt eu hunain.

Os bydd rhywun yn anfodlon ar ein hymateb i gais rhyddid gwybodaeth neu gais Diogelu Data/GDPR, gall ofyn i ni ei adolygu. Cynhelir yr adolygiadau mewnol hyn gan aelod o staff nad oedd yn rhan o'r penderfyniad gwreiddiol. O'r 19 o adolygiadau mewnol a gwblhawyd (2017–2018: 14), cadarnhawyd y penderfyniad gwreiddiol mewn 95 y cant o achosion, tynnwyd un yn ôl, ac mae'r ddau arall yn dal i fod ar agor.

Gwnaeth un unigolyn a oedd yn dal i fod yn anfodlon ar ein hymateb i'w gais rhyddid gwybodaeth yn dilyn adolygiad mewnol gwyno i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (2017–2018: pedair cwyn). Gofynnodd y Comisiynydd Gwybodaeth i ni ailystyried ein hymateb. Gwnaethom hynny ac yna datgelwyd y wybodaeth y gofynnwyd amdani.

Yn ystod y flwyddyn, cafwyd dwy apêl gan aelodau o'r cyhoedd yn erbyn penderfyniadau'r Comisiynydd Gwybodaeth mewn perthynas â cheisiadau am wybodaeth a wnaed i ni o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ynglŷn ag achosion addasrwydd i ymarfer nad oeddent wedi mynd heibio'r cam 'achos i'w ateb'. Yn y naill achos a'r llall, roedd y Comisiynydd Gwybodaeth hefyd o'r farn na ddylai'r wybodaeth fod wedi cael ei datgelu o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Yn y ddau achos, cadarnhaodd y Tribiwnlys Haen Gyntaf ein penderfyniad i wrthod datgelu'r wybodaeth y gofynnwyd amdani o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.

Bydd creu ein tîm Ymholiadau a Chwynion newydd yn helpu i sicrhau y bydd ein perfformiad, gan gynnwys ansawdd ein hymatebion, yn gwella yn ystod 2019–2020.

# Ein pobl a'n sefydliad

Nod ein Strategaeth Pobl yw gwneud y sefydliad yn gyflogwr dibynadwy sydd â'r gallu i reoleiddio'n effeithiol. Mae gwrando ar ein cydweithwyr, eu hysbrydoli a'u cymell yn hanfodol er mwyn i ni gyflawni ein gweledigaeth strategol.

## Datblygu ein sefydliad a'n pobl

Yn dilyn adolygiad yr Awdurdod Safonau Proffesiynol, Lessons Learned Review, aethom ati gyda'n cydweithwyr i ystyried y ffordd rydym yn dilyn gwerthoedd y sefydliad. Gwnaethom ystyried yr hyn y gallwn ei ddysgu o'r gorffennol a'r ffordd y gallwn ddatblygu ein hymddygiadau er mwyn ymgorffori'r gwersi hynny at y dyfodol. Rydym yn bwriadu gwneud rhagor o waith ar ein gwerthoedd a'n hymddygiadau fel rhan o'r gwaith o ddatblygu ein strategaeth ar gyfer 2020–2025.

Mae ein Fforwm Cyflogeion, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o bob un o'n swyddogaethau, yn ffordd bwysig o gynnwys ein cydweithwyr yn ein gwaith a cheisio eu barn. Er mwyn sicrhau y gall cydweithwyr wneud eu gwaith gorau, rydym wedi dechrau adolygu ein polisïau cyflogaeth er mwyn eu gwneud yn hawdd eu dilyn a'u deall. Bydd y gwaith hwn yn parhau tan fis Rhagfyr 2019.

Gwnaethom ddefnyddio methodoleg arolygu staff newydd o'r enw Peakon yn 2018, sy'n ein galluogi i ofyn mwy o gwestiynau ac ymgysylltu â chydweithwyr drwy gydol y flwyddyn mewn arolygon pwls. Roedd modd i ni gymharu'n uniongyrchol â 2017 o hyd, a ddangosodd gynnydd yn ein sgôr ymgysylltu o 64 y cant (mis Rhagfyr 2017) i 67 y cant (mis Rhagfyr 2018). O hyn ymlaen, byddwn yn defnyddio ein sgôr ymgysylltu Peakon newydd o 5.8 (allan o uchafswm o 10) fel ein llinell sylfaen.

Rydym wedi buddsoddi mewn rhaglen datblygu arweinwyr ar gyfer rheolwyr er mwyn eu helpu i gyfathrebu a rheoli perfformiad eu timau yn well. Lansiwyd proses arfarnu newydd yn 2018 a byddwn yn dechrau gweithio i ddatblygu llwybrau gyrfa yn 2019–2020.

Mae gwaith hefyd yn mynd rhagddo i ddiwygio ein trefniadau cyflog a graddio, sydd wedi bod ar waith ers 2014. Byddwn yn dechrau ymgynghori â chyflogeion ynghylch ein cynigion dros y flwyddyn sydd i ddod.

Hyd yma, effaith fach iawn y mae ein hymdrechion wedi ei chael ar leihau ein trosiant cyflogeion, sy'n dal i fod yn uchel ar 21.6 y cant (2017–2018: 21.9 y cant). Bydd hyn yn parhau i fod yn ffocws yn 2019–2020. Fodd bynnag, mae ein hymdrechion i wella'r broses sefydlu i gydweithwyr newydd wedi cael effaith gadarnhaol ac rydym yn falch bod y ganran o newydd-ddyfodiaid sy'n gadael o fewn chwe mis wedi lleihau i 19.6 y cant (2017–2018: 27.8 y cant).

## Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

Rydym am i'r bobl sydd ar ein cofrestr a'n cydweithwyr ffynnu mewn diwylliant sy'n gwerthfawrogi cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Mae ein fframwaith cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn ceisio ymgorffori gweithgareddau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ym mhrosesau busnes a rheoli perfformiad y sefydliad. Caiff cynnydd ei fonitro yn erbyn ein cynllun gweithredu cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.

Nodir enghreifftiau o'n cynnydd yn ystod 2018-2019 isod.

### Amrywiaeth

Mae ymgysylltu â'n rhanddeiliaid amrywiol er mwyn deall eu hanghenion a'u safbwyntiau yn hanfodol er mwyn llywio ein gwaith. Rydym wedi parhau i ymgysylltu'n fwy â grwpiau amrywiol. Yn ystod 2018–2019, gwnaethom ymgysylltu â'r canlynol: Grŵp Cynghori Strategol Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig y Prif Swyddog Nyrsio (Lloegr), Cymdeithas Nyrsys Nigeraidd, Mencap, y Sefydliad Ymddygiad Heriol ac Ymddiriedolaeth y Menywod Ifanc.

Rydym yn falch o waith ein rhwydweithiau mewnol. Mae ein rhwydweithiau LGBT+ a'n rhwydweithiau diwylliannol wedi bod ar waith ers dechrau 2018. Rydym bellach wedi lansio rhwydwaith i gydweithwyr anabl: rhwydwaith Workaround. Yn 2019, bydd gwaith ein rhwydwaith Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl yn cynyddu ym mhob rhan o'r sefydliad. Byddwn yn ymuno â Mind i ymateb i'r arolwg staff cyntaf erioed ar iechyd meddwl yn y gweithle ac yn ymrwymo i addewid Amser i Newid.

### Cyhoeddiadau

Gwnaethom gyhoeddi a lansio ein hadroddiad blynyddol ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ar gyfer 2017–2018 ym mis Hydref 2018. Roedd yn disgrifio ein cynnydd yn erbyn ein nodau strategol o ran cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ac yn cyflwyno data ar nyrsys a bydwragedd yn ôl saith o'r naw nodwedd warchodedig yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Gwnaethom hefyd gyhoeddi dau adroddiad ar gofrestr yr NMC yn ôl nodweddion gwarchodedig oedran a rhywedd. Roedd ein hadroddiad blynyddol ar Ailddilysu a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2018 yn cynnwys dadansoddiad o ganlyniadau ailddilysu fesul nodwedd warchodedig.

### Recriwtio

Gwnaethom gynnal ymgyrch recriwtio a oedd yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â thangynrychiolaeth pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig ymhlith ein panelwyr addasrwydd i ymarfer. Ar ddechrau'r ymgyrch recriwtio, roedd 8.2 y cant o'r panelwyr yn ystyried eu hunain yn bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig. Mewn cymhariaeth, roedd 17.3 y cant o'r nyrsys a'r bydwragedd ar ein cofrestr yn ystyried eu hunain yn bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig. Roedd yr ymgyrch recriwtio yn pwysleisio ein gwerthoedd – pobl,

tegwch a thryloywder – ac yn defnyddio cyfryngau digidol i gyrraedd cynulleidfa ehangach. O'r ymgeiswyr llwyddiannus a benodwyd yn dilyn yr ymgyrch hon, roedd 22.8 y cant yn ystyried eu hunain yn bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig. O ganlyniad i hynny, cynyddodd y gyfran o banelwyr addasrwydd i ymarfer sy'n ystyried eu hunain yn bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig i 10.9 y cant.

Rydym wedi adolygu ein dull gweithredu corfforaethol mewn perthynas ag arferion recriwtio cyflogeion ac wedi nodi cynllun gweithredu i leihau'r risg o wahaniaethu wrth recriwtio.

## Asesu

Gwnaethom barhau i werthuso a monitro ein gweithgareddau er mwyn deall yr effaith ar wahanol grwpiau sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig, er enghraifft drwy ein hasesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb mewn perthynas â'n safonau addysg newydd, ein cyfeiriad strategol o ran addasrwydd i ymarfer, yr adolygiad o'n prosesau cofrestru tramor a'n dull rheoleiddio ar gyfer y cymdeithion nyrsio newydd.

Rydym wedi gweithio gyda phartneriaid achrededig megis Stonewall, BITC, Mind a'r Fforwm Anabledd er mwyn llywio ein harfer a chynnal asesiadau sylfaenol ar gyfer yr holl nodweddion gwarchodedig. Gwnaethom gymharu ein hunain yn erbyn meini prawf arfer gorau er mwyn helpu i ddatblygu cynllun EDI tair blynedd y cytunir arno ym mis Gorffennaf 2019.

## Niferoedd y Cyngor a chyflogeion yn ôl rhyw

Ar 31 Mawrth 2019, roedd dadansoddiad aelodau'r Cyngor a'n cyflogeion yn ôl rhyw fel a ganlyn:

| | Aelodau'r Cyngor | Tîm Gweithredol | Cyflogeion eraill |
|---|---|---|---|
| Benyw | 7 | 4 | 554 |
| Gwryw | 5 | 4 | 296 |

## Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)

Gwnaethom ddechrau rhaglen fuddsoddi sylweddol yn 2018 er mwyn moderneiddio ein systemau TG sydd wedi dyddio. Ar ôl cwblhau'r rhaglen, dylai ein cydweithwyr, gweithwyr proffesiynol, y cyhoedd a phartneriaid gael gwell profiad. Gwneir cynnydd da, ac mae'r gofrestr newydd ar gyfer cymdeithion nyrsio a agorwyd yn llwyddiannus ym mis Ionawr 2019 yn enghraifft o hyn. Rydym yn cydnabod y risgiau sy'n gysylltiedig â'n seilwaith TG a bydd ffocws sylweddol ar y gwaith hwn o hyd, fel y trafodwyd yn y Datganiad Llywodraethu.

Rydym hefyd yn ystyried sut y gallwn alluogi i'n cydweithwyr weithio mewn ffordd fwy ystwyth, hyblyg ac effeithiol. Mae ein rhaglen Gweithle Digidol yn moderneiddio ein teleffoni, ein Wi-Fi a'n systemau cyfathrebu mewnol.

## Adeiladau

Mae'r lesoedd ar ein lleoliad ar gyfer gwrandawiadau addasrwydd i ymarfer yn 61 Aldwych a'n swyddfeydd addasrwydd i ymarfer yn 1 Kemble Street yn dirwyn i ben, y naill ym mis Medi a'r llall ym mis Rhagfyr 2019. Rydym wedi llofnodi les deng mlynedd ar swyddfeydd newydd yn 1 Westfield Avenue, Stratford, hanner milltir o'n lleoliad presennol ar gyfer gwrandawiadau yn 2 Stratford Place. Bydd pob un o'n timau addasrwydd i ymarfer yn Llundain yn symud i Stratford ddiwedd mis Awst neu fis Medi 2019 pan fydd y gwaith paratoi wedi'i gwblhau. Bydd symud yn arbed dros £1 filiwn y flwyddyn ar rent, ardrethi a thaliadau gwasanaeth, ac yn cynnig amgylchedd gwaith newydd a chyffrous gan helpu i sicrhau bod yr NMC yn lle ardderchog i weithio ynddo. Rydym wedi ymgysylltu â chydweithwyr wrth ddylunio'r swyddfeydd newydd, ac wedi rhoi cymorth i'r rheini y ceir effaith andwyol ar eu taith i'r gwaith. Byddwn yn parhau i gynnal gwrandawiadau addasrwydd i ymarfer yn Llundain, Caerdydd, Caeredin a Belfast.

## Cyllid a chaffael

Rydym yn ffodus ein bod mewn sefyllfa ariannol gadarn a breintiedig a bod gennym ffynhonnell gadarn iawn o incwm gan nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio y mae'n ofynnol iddynt yn ôl y gyfraith dalu eu ffioedd cofrestru er mwyn ymarfer eu proffesiynau. Mae gennym gronfeydd wrth gefn cadarn hefyd, sydd wedi cronni drwy reolaeth ariannol ofalus ers i ni gynyddu ein ffi ddiwethaf yn 2015.

Mae gennym gyfrifoldeb a chyfle i ddefnyddio'r cronfeydd hyn mewn ffordd ddarbodus. Ym mis Mawrth 2019, cymeradwyodd y Cyngor strategaeth ariannol newydd a pholisi buddsoddi newydd.

Mae'r Strategaeth Ariannol yn anelu at ddefnyddio ein sefyllfa ariannol gadarn mewn ffordd fwy gweithredol i fuddsoddi er mwyn moderneiddio ein systemau, gwella gwasanaethau ac effeithlonrwydd; gwneud buddsoddiadau ariannol a fydd yn ein hamddiffyn rhag chwyddiant; rheoli risgiau ariannol.

Mae hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd cynllunio tymor canolig a chynllunio hirdymor, a dull gweithredu galluogol a chydweithredol mewn perthynas â defnyddio adnoddau, ochr yn ochr â rheolaethau ariannol priodol.

Mae ein strategaeth ariannol yn anelu at sicrhau cynaliadwyedd a gwerth am arian. Bydd hyn o fudd i nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio drwy sicrhau y caiff y ffi gofrestru ei chadw ar £120 gyhyd â phosibl.

Gwnaethom hefyd ddatblygu polisi caffael newydd yn ystod y flwyddyn. Wedi'i ategu gan brosesau sylfaenol, bydd yn helpu i sicrhau gwerth am arian drwy helpu deiliaid cyllidebau i brynu'r cynhyrchion a'r gwasanaethau priodol, a thrwy roi prosesau tendro cystadleuol ar waith er mwyn sicrhau prisiau da.

Mae'r polisi caffael hefyd yn anelu at sicrhau bod ein penderfyniadau prynu a'n cysylltiadau â chyflenwyr yn adlewyrchu ein gwerthoedd. Bydd hyn yn sicrhau ein bod yn cael cyn lleied â phosibl o effaith ar yr amgylchedd, a bod ein cyflenwyr yn trin eu cyflogeion yn deg. Lle y bo'n bosibl, rydym yn ceisio defnyddio cytundebau fframwaith y sector cyhoeddus neu systemau prynu deinamig, a fydd yn gyffredinol yn cynnig prisiau cystadleuol, telerau ac amodau ffafriol, cyflenwyr â'r gallu i ddarparu gwasanaethau cyson o ansawdd da, a phroses effeithlon a chydymffurfiol.

Ein polisi yw talu ein cyflenwyr cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl i ddeiliaid cyllidebau gadarnhau eu bod wedi derbyn y nwyddau neu'r gwasanaethau yn foddhaol. Yn ystod y flwyddyn, talwyd 78 y cant o anfonebau gennym o fewn 30 diwrnod (2017-2018: 73 y cant o fewn 30 diwrnod). Ni thalwyd unrhyw log o dan Ddeddf Talu Dyledion Masnachol yn Hwyr (Llog) 1998 (2017-2018: dim).

# Cynllun Strategol 2019–2020

Mae *ein Strategaeth 2015-2020: Rheoleiddio deinamig ar gyfer byd sy'n newid* yn ein herio i sicrhau bod ein dull rheoleiddio yn un arloesol a blaengar a all addasu i newidiadau ym maes gofal iechyd a'r galwadau ar fydwragedd, nyrsys a chymdeithion nyrsio. Mae'n nodi pedair blaenoriaeth strategol er mwyn helpu i lywio ein gwaith i gyflawni ein huchelgais.

Mae ein cynllun corfforaethol yn canolbwyntio ar flwyddyn olaf ein strategaeth pum mlynedd. Mae'n egluro ein blaenoriaethau a'n hymrwymiadau ar gyfer 2019-2020.

## Trosolwg o'n blaenoriaethau ar gyfer 2019–2020

Mae ein blaenoriaethau ar gyfer 2019-2020 yn canolbwyntio ar ddatblygu rhaglenni gwaith mawr, gan barhau i gyflawni ein swyddogaethau rheoleiddio craidd ar yr un pryd. Ein blaenoriaethau yw:

### 1. Newid ein dull gweithredu

#### Rhoi dull gweithredu newydd ar waith mewn perthynas ag addasrwydd i ymarfer

1 Erbyn diwedd chwarter 1, byddwn yn gwerthuso canlyniadau'r cynlluniau peilot a ddechreuwyd gennym yn 2018-2019 ac yn gwneud newidiadau gweithredol er mwyn rhoi'r cyfeiriad strategol newydd ar waith.

2 Er mwyn gwella lefel y cymorth a roddwn i nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio sy'n ymgymryd â'n proses addasrwydd i ymarfer, byddwn yn:

- darparu gwell gwybodaeth ac yn eu cyfeirio at ffynonellau cymorth erbyn diwedd chwarter 2
- lansio llinell cymorth emosiynol erbyn diwedd chwarter 3
- cyflwyno gwasanaeth cyngor cyfreithiol pro-bono ar gyfer cofrestreion heb gynrychiolaeth, mewn partneriaeth ag ysgol y gyfraith, erbyn diwedd chwarter 2.

#### Rhoi'r argymhellion o 'Lessons Learned' ar waith

Byddwn yn defnyddio dull gweithredu tryloyw sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn trawsnewid ein ffordd o ymdrin ag unrhyw ymholiadau a chwynion erbyn chwarter 4.

### Adolygu'r broses gofrestru dramor

Byddwn yn awtomeiddio'r broses gyfan ar gyfer gwneud cais erbyn mis Awst 2019, yn parhau i wella ein cymorth a'n canllawiau i ymgeiswyr ac yn parhau i ddatblygu a gwella'r Prawf Cymhwysedd.

## 2. Mentrau rheoleiddio craidd

### Rhoi ein rhaglen addysg ar waith

**1** Datblygu ein safonau

- **Nyrs y dyfodol:** bydd y broses o roi ein fframwaith addysg newydd a'n safonau hyfedredd ar gyfer nyrsys cofrestredig ar waith yn dechrau o fis Hydref 2019.
- **Bydwraig y dyfodol:** byddwn yn cwblhau'r ymgynghoriad ar ein safonau drafft ar gyfer bydwragedd cofrestredig, yn cymeradwyo'r safonau terfynol yn ystod hydref 2019 ac yn eu lansio ym mis Ionawr 2020.
- **Dychwelyd i ymarfer:** byddwn yn cyhoeddi safonau newydd ar gyfer dychwelyd i ymarfer i nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio ym mis Mai 2019.
- **Safonau ôl-gofrestru:** erbyn diwedd chwarter 1, byddwn wedi cytuno ar amserlen a rhaglen waith ar gyfer cwblhau ein hadolygiad o'r safonau ôl-gofrestru.

**2** Byddwn yn sicrhau ansawdd pob sefydliad a rhaglen addysg yn erbyn y safonau newydd gan ddefnyddio ein model sicrhau ansawdd newydd.

### Cynnwys y broses o reoleiddio cymdeithion nyrsio yn ein swyddogaethau craidd

**1** Byddwn yn cymeradwyo rhaglenni cyn-cofrestru i gymdeithion nyrsio, gan ddefnyddio ein fframwaith addysg newydd.

**2** Byddwn yn monitro ac yn adolygu ein prosesau rheoleiddio er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i weithio'n effeithiol i gymdeithion nyrsio drwy gydol y flwyddyn ac yn defnyddio'r gwerthusiad sy'n mynd rhagddo gan y Sefydliad Ymchwil Iechyd Cenedlaethol o'r trefniadau ar gyfer cyflwyno'r rôl er mwyn meithrin gwell dealltwriaeth.

## 3. Gwella ein gallu a'n seilwaith

### Moderneiddio ein technoleg

1 Byddwn yn trawsnewid ein systemau corfforaethol er mwyn sicrhau gwell effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd, a sicrhau eu bod yn addas at y diben nawr ac yn y dyfodol. Erbyn diwedd y flwyddyn, byddwn yn:

- adnewyddu ein systemau ar gyfer cofrestru, ailddilysu, rheoli achosion a sicrhau ansawdd darparwyr addysg, ac yn manteisio ar adnoddau newydd gan Microsoft
- lansio datrysiad newydd yn lle ein system rheoli dogfennau.

2 Byddwn yn gwella ein seilwaith, ein systemau a'n hadnoddau gwybodaeth fusnes sy'n helpu'r Uned Gwybodaeth Reoleiddio i nodi meysydd posibl o risg rheoleiddio ac i ymdrin â'r risgiau hynny.

### Creu gweithle digidol

1 Mae Cam 1 o'r ymarfer diweddaru teleffoni eisoes wedi'i gwblhau. Caiff Cam 2, sy'n cynnwys uwchraddio swyddogaethau'r ganolfan alwadau, ei gwblhau erbyn diwedd chwarter 4.

2 Bydd y rhan fwyaf o gyflogeion yn cael gliniaduron, a chaiff system Wi-Fi gorfforaethol newydd ei gosod ar bob un o safleoedd yr NMC erbyn diwedd chwarter 2.

3 Byddwn yn gweithredu llwyfan cydweithredu a chyfathrebu newydd i ategu ein mewnrwyd erbyn diwedd chwarter 1.

### Rhoi ein Strategaeth Pobl ar waith

1 Ymgynghori ar system cyflog a graddio newydd a'i roi ar waith erbyn diwedd chwarter 2. Gwaith tymor hwy ar greu cynlluniau cyflog ar gyfer y dyfodol i'w gwblhau erbyn diwedd chwarter 4.

2 Cynllun gweithredu cydraddoldeb a chynhwysiant i'w gyflwyno yn ystod chwarter 1.

3 Cytuno ar fframwaith gwerthoedd ac ymddygiad newydd erbyn diwedd chwarter 4.

### Symud ein timau addasrwydd i ymarfer i adeilad newydd

Symud ein timau addasrwydd i ymarfer o leoliadau yn 23 Portland Place, 1 Kemble Street a 61 Aldwych i leoliad unigol yn Stratford erbyn diwedd chwarter 2, a hynny heb darfu ar weithrediadau.

### Rhoi trefniadau cyfathrebu ac ymgysylltu strategol rhagweithiol ar waith

1. Erbyn diwedd chwarter 1, byddwn yn cydgynhyrchu'r themâu drafft ar gyfer strategaeth gorfforaethol 2020-2025 gyda rhanddeiliaid a chynulleidfaoedd allweddol.
2. Erbyn diwedd chwarter 2, byddwn yn defnyddio'r model gweithredu newydd ar gyfer cyfathrebu ac ymgysylltu er mwyn helpu i gyflwyno ein mentrau polisi cyhoeddus yn llwyddiannus a gwella ein hymdrechion i ymgysylltu â gweinyddiaethau seneddol a datganoledig drwy sefydlu a chynyddu ein rhwydwaith.
3. Erbyn diwedd chwarter 4, byddwn yn lansio'r strategaeth gorfforaethol, gan ddenu cefnogaeth helaeth gan drydydd partïon a lefel uchel o wybodaeth ymhlith cyflogeion.

## 4. Datblygu ein strategaeth newydd ar gyfer 2020–2025

### Ein hymrwymiad ar gyfer 2019–2020

Gan gydweithio â'n rhanddeiliaid, byddwn yn rhoi strategaeth newydd ar waith sy'n ysbrydoli ein cyflogeion, yn ymgysylltu â'n rhanddeiliaid ac yn adeiladu ar ein cynnydd drwy hyrwyddo gofal gwell, mwy diogel. Caiff y strategaeth ei chymeradwyo gan y Cyngor ym mis Mawrth 2020.

# Adolygiad ariannol

2018–2019

**£92m**
**incwm**
**cynnydd o 5 y cant**

**£81.6m**
**gwariant**
**gostyngiad o 7 y cant**

## Incwm a gwariant

Fel y nodir yn y datganiad o weithgareddau ariannol (SoFA), cyfanswm ein hincwm ar gyfer 2018-2019 oedd £92 miliwn (2017-2018: £88 miliwn) a chyfanswm y gwariant oedd £81.6 miliwn (2017-2018: £87.9 miliwn). Arweiniodd hyn at gronfeydd incwm net neu warged o £10.4 miliwn (2017–2018: £79,000). Ar ôl ailbrisio ein cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig, cynyddodd cyfanswm ein cronfeydd dros y flwyddyn £7.1 miliwn (2017–2018: £12,000).

Roeddem wedi cynllunio ar gyfer diffyg bach yn 2018-2019. Roedd y gwarged mawr yn deillio o'r ffaith bod ein hincwm yn fwy na'r swm a nodwyd yn y gyllideb a bod ein gwariant yn is na'r swm a nodwyd yn y gyllideb ar gyfer rhai rhaglenni allweddol.

Cynyddodd cyfanswm yr incwm £4 miliwn (5 y cant) o gymharu â 2017-2018, ac roedd £5.6 miliwn (6 y cant) yn uwch na'r lefel a gyllidebwyd gennym. Y ffactor unigol mwyaf a gyfrannodd at y cynnydd hwn oedd yr ad-daliad untro o £2.1 miliwn gan Gyllid a Thollau EM am dreth incwm a chyfraniadau Yswiriant Gwladol a dalwyd gennym ar ffioedd panelwyr addasrwydd i ymarfer cyn 2012. Yn flaenorol, roeddem wedi ymdrin â phanelwyr fel deiliaid swydd, a gaiff eu trethu yn yr un ffordd â chyflogeion. Yn 2012, cytunodd Cyllid a Thollau EM fod panelwyr yn hunangyflogedig.

Roedd ein hincwm o ffioedd cofrestreion yn £85.2 miliwn, sef cynnydd o £1 filiwn o gymharu â 2017–2018, a £0.9 miliwn yn fwy na'r swm a gyllidebwyd gennym. Roeddem wedi cyllidebu ar y sail y byddai nifer y bobl ar y gofrestr yn lleihau ychydig, fel y gwnaeth yn 2016–2017, ond mewn gwirionedd, cynyddodd cyfanswm nifer y nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio yn ystod 2018–2019 1 y cant, i 698,237 ar 31 Mawrth 2019.

Mae'r incwm hefyd yn cynnwys £2.3 miliwn (2017–2018: £2.3 miliwn) gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar gyfer y gwaith i ychwanegu cymdeithion nyrsio at y gofrestr. Agorodd y gofrestr newydd ar 28 Ionawr 2019, yn ôl y bwriad.

Gostyngodd ein gwariant £6.3 miliwn (7 y cant) o gymharu â 2017-2018, ac roedd £9 miliwn (10 y cant) islaw'r gyllideb.

Mae Nodiadau 4 a 5 yn nodi'r costau a ddyrannwyd yn llawn i bob gweithgaredd elusennol yn unol â gofyniad SORP FRS 102. Mae hyn yn gwahanu costau uniongyrchol pob gweithgaredd ochr yn ochr â'r costau cymorth cysylltiedig a ddyrannwyd gan ddefnyddio lefelau defnydd y pen neu orbenion. Mae'r sylwadau canlynol yn seiliedig ar y golofn costau uniongyrchol, cyn dyrannu costau cymorth.

Caiff llai nag 1 y cant o nyrsys a bydwragedd eu hatgyfeirio at yr NMC bob blwyddyn, a dim ond 10 y cant o'r atgyfeiriadau hynny sy'n arwain at wrandawiad, ond costau addasrwydd i ymarfer yw'r rhan fwyaf o'n cyllideb o hyd.

Gostyngodd lefelau gwariant yn 2018-2019: cafwyd costau addasrwydd i ymarfer uniongyrchol o £39.1 miliwn, gostyngiad o £43.9 miliwn yn 2017–2018, sef gostyngiad o 11 y cant. Mae hyn yn bennaf o ganlyniad i nifer is o wrandawiadau a chostau is ym maes dyfarnu a pharatoi achosion. Caiff ei wrthbwyso'n rhannol gan gynnydd mewn ymchwiliadau allanol a chostau rhaglen sy'n gysylltiedig â'n dull gweithredu strategol newydd mewn perthynas ag addasrwydd i ymarfer.

Cost uniongyrchol cynnal y gofrestr oedd £8.1 miliwn yn 2018–2019 (2017–2018: £7.9 miliwn). Llwyddwyd i gynnal lefelau costau ar y cyfan wrth barhau â'r rhaglen i gynnwys cymdeithion nyrsio ar y gofrestr (a ariannwyd gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol), a'n rhaglen gofrestru dramor.

Cafwyd costau cymorth (Cyfleusterau, Cyllid, Adnoddau Dynol, TGCh, Llywodraethu, Cyfreithiol, dibrisiant a chost pensiwn buddiannau diffiniedig FRS 102) o £27.7 miliwn (2017–2018: £30.3 miliwn).  Mae'r gostyngiad yn bennaf o ganlyniad i'r ffaith bod costau'r rhaglen TGCh yn is eleni.

Roedd ein cynllun corfforaethol ar gyfer 2018-2019 yn cynnwys pum rhaglen a phrosiect newid allweddol er mwyn rhoi ein strategaeth ar waith ar gyfer 2015-2020: y rhaglen addysg, y rhaglen cymdeithion nyrsio, ein dull gweithredu strategol newydd mewn perthynas ag addasrwydd i ymarfer, y rhaglen gofrestru dramor a'r Strategaeth Pobl. Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom ychwanegu tri arall: y rhaglen moderneiddio gwasanaethau technoleg, y prosiect adeiladau a'r rhaglen 'Lessons Learned'.

Costau refeniw cyfun y rhaglenni hyn oedd £5.9 miliwn, a chyfalafwyd £3.6 miliwn arall, felly cyfanswm costau'r rhaglenni oedd £9.5 miliwn. Yn 2017–2018, gwnaethom wario £8.1 miliwn o gostau refeniw ar raglenni a phrosiectau. Mae'r rhaglenni yn llawer anos cyllidebu ar eu cyfer na gwariant 'busnes arferol', a chafwyd cyfanswm tanwariant o £3.1 miliwn ar ein cyllideb refeniw ar gyfer rhaglenni a phrosiectau. Llithriant yn erbyn y terfynau amser gwreiddiol a fwriadwyd yw'r rhan fwyaf o'r tanwariant, felly eir i'r costau hyn yn 2019-2020. Mae'r cyfanswm o £9.5 miliwn yn cynnwys £2.3 miliwn ar y rhaglen i agor y gofrestr i gymdeithion nyrsio, a ariannwyd gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Ar ddiwedd pob blwyddyn, mae actiwariaid ein cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig yn diweddaru eu hamcangyfrif o werth ein rhwymedigaeth i dalu costau pensiwn aelodau'r cynllun. Maent yn gwneud hyn drwy adolygu'r elw disgwyliedig ar fuddsoddiadau a gwerth rhwymedigaethau yn y dyfodol gan ddefnyddio nifer o dybiaethau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfraddau marwolaeth disgwyliedig, chwyddiant ac arenillion ar fondiau corfforaethol dros nifer o flynyddoedd yn y dyfodol. Arweiniodd eu cyfrifiad ar 31 Mawrth 2019 at golled o £3.3 miliwn, a nodir yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol fel 'Colledion actiwaraidd ar y cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig' (2017-2018: £0.1 miliwn). Gellir priodoli'r cynnydd yng nghost ddisgwyliedig rhwymedigaethau yn y dyfodol yn bennaf i'r cyfraddau chwyddiant a ragwelir, sy'n lleihau'r elw disgwyliedig ar asedau'r cynllun ac yn cynyddu cost taliadau disgwyliedig i aelodau'r cynllun yn y dyfodol. Cynhelir ailbrisiad llawn o'r cynllun bob tair blynedd, a disgwylir y bydd yr ailbrisiad nesaf, ar 31 Mawrth 2019, wedi'i gwblhau erbyn mis Mawrth 2020.

## Cronfeydd wrth gefn

Ein polisi ar gyfer cronfeydd wrth gefn yw sicrhau bod ein cronfeydd rhydd wrth gefn yn parhau o fewn ystod targed. Cronfeydd rhydd wrth gefn yw'r cronfeydd hynny sydd ar gael i'w gwario'n rhydd, felly nid ydynt yn cynnwys unrhyw gronfeydd cyfyngedig, asedau sefydlog diriaethol a symiau a ddynodwyd ar gyfer gwariant hanfodol yn y dyfodol. Gwnaethom hefyd bennu isafswm lefel ar gyfer y balans arian parod a buddsoddiadau cyfunol a ragwelwyd ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. Mae'r Cyngor yn adolygu ystod targed y cronfeydd rhydd wrth gefn a'r isafswm balans arian parod a buddsoddiadau o leiaf unwaith y flwyddyn.

Pennir isafswm lefel targed y cronfeydd rhydd wrth gefn er mwyn sicrhau ein cynaliadwyedd, gan ystyried diogelwch ein ffrwd incwm, ein balansau arian parod a buddsoddiadau, ac asesiad o effaith ariannol posibl y risgiau y mae'r NMC yn eu hwynebu. Pennir uchafswm lefel targed y cronfeydd rhydd wrth gefn er mwyn sicrhau y caiff ein hadnoddau eu cymhwyso'n effeithiol, gan bwyso a mesur buddiannau'r bobl ar ein cofrestr sy'n ein hariannu drwy'r ffioedd a delir ganddynt, a'r cyhoedd y mae ein gwaith o fudd iddynt.

Mae'n ofynnol i nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio dalu ein ffioedd cofrestru er mwyn ymarfer. Gallant wneud hynny mewn taliadau ymlaen llaw naill ai bob chwarter neu bob blwyddyn. Felly, mae gennym ffrwd incwm sicr iawn ac mae gennym falansau arian parod sylweddol, sy'n fwy na'n cronfeydd rhydd wrth gefn. O ganlyniad, mae ein hangen i ddefnyddio cronfeydd rhydd wrth gefn yn llawer is na llawer o elusennau neu gyrff cyhoeddus eraill.

Mae'r graddau y mae ein balansau arian parod a buddsoddiadau yn fwy na balans ein cronfeydd rhydd wrth gefn yn dibynnu ar gyfran y cofrestreion sy'n talu drwy ddebyd uniongyrchol chwarterol a lefel y diffyg pensiwn. Mae pennu isafswm lefel ar gyfer yr arian parod a'r buddsoddiadau cyfunol a ragwelir yn cynnig rhwyd ddiogelwch ychwanegol er mwyn sicrhau y gallwn gynnal hylifedd heb orfod manteisio ar gyfleusterau benthyca.

Ym mis Mawrth 2019, adolygodd y Cyngor y sefyllfa ddiweddaraf o ran y polisi cronfeydd wrth gefn a chytunodd y dylid pennu ystod targed y cronfeydd rhydd wrth gefn ar lefel o sero i £25 miliwn. Mae hyn yn wahanol i'r ystod targed a bennwyd ar gyfer 2018-2019 a blynyddoedd ariannol cynharach, lle pennwyd terfyn isaf yr ystod ar £10 miliwn. Mae'r newid yn seiliedig ar ailwerthusiad o'r budd ariannol sy'n gysylltiedig â'n ffrwd incwm a'n balansau arian parod. Pennod y Cyngor hefyd isafswm balans arian parod a buddsoddiadau cyfunol a ragwelir o £20 miliwn.

Cyfanswm y cronfeydd wrth gefn ar 31 Mawrth 2019 oedd £48.3 miliwn (2018: £41.2 miliwn), a chyfanswm y cronfeydd rhydd wrth gefn oedd £28.6 miliwn (2018: £22.3 miliwn). Er bod y cronfeydd rhydd wrth gefn bellach uwchlaw lefel uchaf ein hystod targed, mae ein cyllideb ar gyfer 2019-2020 yn awgrymu y bydd y cronfeydd rhydd wrth gefn yn gostwng i £24.8 miliwn ar 31 Mawrth 2020.

## Polisi buddsoddi

Fel y trafodwyd yn flaenorol, mae nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio yn talu eu ffi gofrestru ymlaen llaw, naill ai bob blwyddyn neu bob chwarter. Ar y cyd â'n cronfeydd rhydd wrth gefn, mae hyn yn golygu bod gennym gronfeydd arian parod sylweddol wrth gefn. Yn ystod 2018-2019, cadwyd cronfeydd dros ben mewn cyfrifon adneuo â llog gyda phump o fanciau stryd fawr y DU. Yn 2018–2019, enillwyd llog o £0.6 miliwn (2017–2018: £0.3 miliwn).

Cymeradwyodd y Cyngor bolisi buddsoddi newydd yn 2019. O dan y polisi newydd, yn ystod 2019-2020, byddwn yn dechrau buddsoddi'r arian parod nad oes ei angen ar gyfer cyfalaf gweithio mewn amrywiaeth o ecwitïau, cronfeydd a bondiau. Caiff ein buddsoddiadau eu rheoli'n broffesiynol, a phennir paramedrau risg a pharamedrau moesegol priodol. Drwy fuddsoddi mewn ecwitïau a chronfeydd, byddwn bellach yn wynebu risg o ran colledion cyfalaf, a byddwn yn gweld ansefydlogrwydd byrdymor o ran gwerth ein hasedau, fel y bydd y rhan fwyaf o sefydliadau â buddsoddiadau wedi'i brofi yn ystod 2018-2019. Ond yn yr hirdymor, profwyd mai buddsoddiadau yn seiliedig ar y farchnad stoc yw'r math o fuddsoddiadau sy'n perfformio orau. Ein nod wrth fuddsoddi yw cyflawni elw uwchlaw chwyddiant yn yr hirdymor, gwarchod gwerth real yr arian a delir gan nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio, a helpu i gadw'r ffi gofrestru'n isel.

**Philip Graf**
Cadeirydd
**4 Gorffennaf 2019**

**Andrea Sutcliffe**
Prif Weithredwr a Chofrestrydd
**4 Gorffennaf 2019**

# Adroddiad cydnabyddiaeth

Archwilir yr agweddau ariannol ar yr adroddiad hwn gan yr archwilwyr allanol, Haysmacintyre a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol.

## Lwfansau a threuliau aelodau'r Cyngor

Y Cyngor yw corff llywodraethu'r NMC ac ef sydd â'r awdurdod terfynol i wneud penderfyniadau fel y'i disgrifir yn y datganiad llywodraethu blynyddol. Aelodau'r Cyngor yw ymddiriedolwyr yr NMC.

O dan Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001, mae'r Cyngor yn gyfrifol am bennu'r lwfansau i'w talu i aelodau'r Cyngor. Mae aelodau'r Cyngor yn cael lwfans blynyddol yn seiliedig ar y gofyniad bod aelodau yn treulio tri diwrnod y mis ar gyfartaledd ar fusnes yr NMC. Yn ymarferol, mae aelodau'r Cyngor yn treulio llawer mwy o amser na hynny.

Er mwyn sicrhau nad oes unrhyw achos o wrthdaro buddiannau, mae'r Cyngor wedi rhoi trefniadau ar waith i Banel Annibynnol o arbenigwyr allanol asesu'r lefel lwfans briodol. Mae'r Cyngor wedi cytuno y bydd naill ai'n derbyn neu'n lleihau'r lefel lwfansau a argymhellir gan y Panel ond na fydd yn ei chynyddu. Cynyddwyd lwfansau aelodau'r Cyngor ddiwethaf o £13,250 i £14,724 fel yr argymhellwyd gan y Panel Annibynnol ar 1 Ebrill 2017. Ni fu unrhyw gynnydd yn 2018–2019.

Cyn recriwtio a dethol Cadeirydd newydd i ymgymryd â'r swydd o 1 Mai 2018, cytunodd y Cyngor ar ddisgrifiad rôl newydd ar gyfer y Cadeirydd gydag ymrwymiad amser uwch o dri diwrnod yr wythnos. Gofynnwyd i'r Panel Annibynnol adolygu'r sefyllfa a chynnig lefel lwfansau briodol. Argymhellodd y Panel lwfans blynyddol o £78,000, a chytunodd y Cyngor ar y lwfans hwnnw. Cyn ymgymryd â'i swydd ar 1 Mai, ymgymerodd y Cadeirydd newydd â chryn weithgarwch sefydlu a pharatoi, a ddaeth i gyfanswm o 20 diwrnod, a thalwyd lwfans a oedd yn cyfateb i lwfans dyddiol a ddaeth i gyfanswm o £10,000 gyda chymeradwryaeth Is-gadeiryddion y Cyngor a Chadeirydd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth.

Talwyd cyfanswm o £243,810 mewn lwfansau i aelodau'r Cyngor yn 2018-2019 (2017-2018: £222,560). Ceir manylion llawn y symiau a dalwyd yn nhabl 1. Ni wnaed unrhyw daliadau cytundebol ychwanegol i unrhyw aelod o'r Cyngor yn 2018-2019.

Telir lwfansau i aelodau'r Cyngor a'i bwyllgorau drwy'r gyflogres lle y didynnir symiau ar gyfer treth incwm ac Yswiriant Gwladol. Ad-delir treuliau yr eir iddynt yn uniongyrchol wrth gyflawni dyletswyddau yn unol â pholisi teithio a chynhaliaeth yr NMC i aelodau'r Cyngor.

Mae treuliau yn cynnwys teithio, llety, prydau bwyd a chynhaliaeth a bydd aelodau'n cronni'r treuliau hyn wrth gyflawni eu dyletswyddau. Mae holl dreuliau'r aelodau wedi'u cynnwys yn nhabl 1. Mae'r treuliau a gaiff aelodau yn amrywio'n fawr oherwydd y costau teithio a llety sy'n gysylltiedig â mynd i gyfarfodydd o gartrefi aelodau ledled y DU, gan gynnwys teithio o Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon lle mae angen aros dros nos.

Lle y cynhelir cyfarfodydd yn Llundain, ystyrir bod treuliau yn fuddiant mewn da trethadwy. Mae'r NMC yn talu'r dreth incwm a'r Yswiriant Gwladol sy'n codi drwy gytundeb setliad TWE â CThEM.

Mae aelodau partner, sef aelodau pwyllgorau nad ydynt yn aelodau o'r Cyngor, yn cael lwfans dyddiol o £286 am yr amser a gaiff ei dreulio ar fusnes yr NMC ac ad-delir treuliau teithio rhesymol iddynt.

## Dulliau a ddefnyddir i asesu perfformiad aelodau

Mae gan y Cyngor bolisi a phroses y cytunwyd arnynt ar waith ar gyfer adolygu a gwella effeithiolrwydd y Cyngor ei hun a'i aelodau. Yr Is-gadeiryddion sy'n adolygu perfformiad Cadeirydd y Cyngor, a hynny drwy adolygiad strwythuredig sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Mae'n cynnwys hunanasesiad gan y Cadeirydd ac asesiad cymheiriaid gan aelodau'r Cyngor. Defnyddir y canlyniadau i gytuno ar amcanion a phennu anghenion datblygu ar gyfer y flwyddyn i ddod. Mae proses debyg ar waith ar gyfer aelodau unigol o'r Cyngor a arweinir gan y Cadeirydd. Cynhaliwyd adolygiadau blynyddol yn 2018–2019.

## Tabl 1: Lwfansau a threuliau aelodau'r Cyngor

| | 2018–19 | | | 2017–18 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Lwfans £'000 | Cyfanswm treuliau £'000 | Cyfanswm cydnabyddiaeth £'000 | Lwfans £'000 | Cyfanswm treuliau £'000 | Cyfanswm cydnabyddiaeth £'000 |
| Philip Graf CBE – Cadeirydd (o 1 Mai 2018)[1] | 81.5 | 2.7 | 84.2 | 0 | 0 | 0 |
| Yr Athro y Fonesig Janet Finch – Cadeirydd (hyd at 30 Ebrill 2018) | 5.3 | 4.4 | 9.7 | 63.1 | 14.4 | 77.5 |
| Dr Anne Wright CBE | 14.7 | 0.3 | 15.0 | 14.7 | 0.1 | 14.8 |
| Claire Johnston (o 1 Medi 2018) | 8.6 | 0.3 | 8.9 | 0 | 0 | 0 |
| Derek Pretty | 14.7 | 4.0 | 18.7 | 14.7 | 4.9 | 19.6 |
| Syr Hugh Bayley (o 1 Mai 2017) | 14.7 | 2.0 | 16.7 | 13.5 | 1.5 | 15.0 |
| Yr Athro Karen Cox | 14.7 | 1.5 | 16.2 | 14.7 | 2.5 | 17.2 |
| Lorna Tinsley | 14.7 | 3.8 | 18.5 | 14.7 | 3.8 | 18.5 |
| Marta Phillips OBE (o 1 Mai 2017) | 14.7 | 0.2 | 14.9 | 13.5 | 1.2 | 14.7 |
| Maura Devlin MBE | 14.7 | 9.5 | 24.2 | 14.7 | 12.5 | 27.2 |
| Maureen Morgan OBE (hyd at 30 Ebrill 2018) | 1.2 | 0.6 | 1.8 | 14.7 | 3.1 | 17.8 |
| Robert Parry | 14.7 | 5.6 | 20.3 | 14.7 | 5.5 | 20.2 |
| Ruth Walker | 14.7 | 4.6 | 19.3 | 14.7 | 3.4 | 18.1 |
| Stephen Thornton CBE | 14.7 | 2.4 | 17.1 | 14.7 | 2.6 | 17.3 |

[1] *Mae'r lwfans ar gyfer y Cadeirydd newydd yn cynnwys £10,000 am weithgareddau sefydlu yr ymgymerwyd â nhw cyn dechrau yn y swydd ar 1 Mai 2018.*

# Cydnabyddiaeth ac asesu perfformiad yr uwch dîm rheoli

Mae'r uwch dîm rheoli (y cyfeirir atynt fel y Tîm Gweithredol) yn cynnwys y Prif Weithredwr a Chofrestrydd (Prif Weithredwr) a'r Cyfarwyddwyr Gweithredol. Yn ystod 2018-2019 roedd pob cyfarwyddwr yn uniongyrchol atebol i'r Prif Weithredwr. Nid oes unrhyw Gyfarwyddwr Gweithredol yn aelod o'r Cyngor nac yn un o ymddiriedolwyr yr NMC. Caiff manylion cydnabyddiaeth yr holl unigolion hyn eu datgelu'n llawn yn nhablau 2 a 3.

Y Prif Weithredwr yw'r unig gyflogai a benodir yn uniongyrchol gan y Cyngor ac sy'n atebol iddo. Mae'r Cyngor wedi dirprwyo awdurdod i'r Prif Weithredwr i'r graddau a ddisgrifir yn y datganiad llywodraethu blynyddol.

## Asesiad o berfformiad y Tîm Gweithredol

Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth yn cynnal adolygiad blynyddol o berfformiad y Tîm Gweithredol. Mae'r Pwyllgor yn adolygu adroddiadau gan y Cadeirydd ar berfformiad y Prif Weithredwr. Mae hefyd yn adolygu adroddiadau gan y Prif Weithredwr ar berfformiad y cyfarwyddwyr.

## Cydnabyddiaeth y Tîm Gweithredol

Caiff cydnabyddiaeth y Tîm Gweithredol ei chymeradwyo bob blwyddyn gan y Pwyllgor Cydnabyddiaeth yn unol ag egwyddorion fframwaith cyflogau'r Tîm Gweithredol a gymeradwywyd yn 2016.

Adolygodd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth gydnabyddiaeth y Tîm Gweithredol ar gyfer 2018-2019 ym mis Chwefror 2018. Gwerthusodd yr adolygiad gyflogau'r Tîm Gweithredol yn erbyn cyflogau cyffelyb ym maes rheoleiddio gofal iechyd, yn ogystal â gwneud gwaith meincnodi ehangach yn erbyn cyflogau cyffelyb yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat. Ystyriodd yr adolygiad hefyd adolygiad annibynnol o holl swyddi gweithredol yr NMC a gynhaliwyd yn flaenorol gan arbenigwyr cyflog allanol. Ar gyfer 2018-2019, daeth y Pwyllgor Cydnabyddiaeth i'r casgliad y dylai'r Tîm Gweithredol dderbyn yr un dyfarniad cost byw fel y'i cytunwyd gan y Cyngor ar gyfer cyflogeion eraill (2 y cant). Cytunwyd hefyd y dylai un cyfarwyddwr barhau i dderbyn lwfans cyfrifoldeb ychwanegol er mwyn adlewyrchu'r ffaith bod cyfrifoldebau ychwanegol wedi'u cynnwys yn ei bortffolio.

Jackie Smith oedd Prif Weithredwr yr NMC o fis Hydref 2012. Ei chyflog yn 2018–2019 oedd £200,641 (2017–2018: £196,707). Fel y cytunwyd â'r Cyngor, ei diwrnod olaf yn ei swydd oedd 31 Gorffennaf 2018. Talwyd gweddill ei chyfnod rhybudd o chwe mis iddi rhwng 1 Awst a 10 Tachwedd 2018. Fe'i talwyd hefyd am naw diwrnod o wyliau a oedd wedi cronni ond nad oedd wedi'u cymryd. Fel aelod o gynllun

pensiwn buddiannau diffiniedig yr NMC (gweler isod), gwnaeth yr NMC yr un cyfraniadau cyflogwr i'r cynllun pensiwn, sef 39.3 y cant o'r cyflog, ag y gwnaeth ar gyfer pob cyflogai sy'n rhan o'r cynllun hwn. Ni chafodd unrhyw dâl diswyddo arall nac unrhyw fuddiannau pensiwn ychwanegol pan adawodd yr NMC.

Penodwyd Sue Killen yn Brif Weithredwr Interim ac ymgymerodd â'r rôl honno o 23 Gorffennaf 2018 hyd at 16 Ionawr 2019. Talwyd £102,000 iddi. Petai wedi bod yn gyflogai parhaol, llawn amser, byddai cyflog cyfwerth â blwyddyn lawn o £220,000 wedi cael ei dalu iddi. Ni chafodd unrhyw fuddiannau pensiwn nac unrhyw fuddiannau eraill.

Penodwyd Andrea Sutcliffe yn Brif Weithredwr ar 14 Ionawr 2019 ar sail barhaol ar gyflog blynyddol o £175,000. Y cyflog pro rata a dalwyd iddi yn ystod 2018-2019 oedd £37,634. Ymunodd â chynllun pensiwn cyfraniadau diffiniedig yr NMC ar 14 Ebrill 2019.

Nodir cydnabyddiaeth y Tîm Gweithredol yn nhabl 2. Talwyd cyfanswm o £1.267 miliwn i'r Tîm Gweithredol (gan gynnwys cyfarwyddwyr interim) yn 2018-2019 (2017-2018 £1.794 miliwn). Ceir dadansoddiad o'r cyfanswm hwn yn nhabl 2. Fel sy'n ofynnol gan lawlyfr adrodd ariannol Trysorlys EM, mae tabl 3 yn nodi manylion pellach am fuddiannau pensiwn aelodau cyfredol ac aelodau blaenorol y Tîm Gweithredol sy'n aelodau o'r cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig.

Nid oes unrhyw aelod o'r Tîm Gweithredol yn derbyn unrhyw fonysau perfformiad na buddiannau trethadwy mewn nwyddau.

Mae contract cyflogaeth Andrea Sutcliffe yn ei gwneud yn ofynnol i'r naill barti neu'r llall roi chwe mis o rybudd er mwyn terfynu'r contract. Mae'n ofynnol i gyfarwyddwyr roi tri mis o rybudd.

Dangosir treuliau'r Tîm Gweithredol hefyd yn nhabl 2. Nid yw'r treuliau hyn yn cynnwys unrhyw fuddiannau trethadwy mewn nwyddau.

Ar gyfer 2019-2020, daeth y Pwyllgor Cydnabyddiaeth i'r casgliad unwaith eto y dylai'r Tîm Gweithredol dderbyn yr un dyfarniad cost byw fel y cytunwyd gan y Cyngor ar gyfer cyflogeion eraill (2.5 y cant). Gofynnodd y Prif Weithredwr a Chofrestrydd i beidio â derbyn y cynnydd ar gyfer 2019-2020.

## Tabl 2: Cydnabyddiaeth y Tîm Gweithredol[1]

| | 2018–19 | | | | 2017–18 | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyflog (bandiau o £5,000) £'000 | Buddiannau pensiwn[2] (bandiau o £5,000) £'000 | Cyfanswm (bandiau o £5,000) £'000 | Treuliau £'000 | Cyflog (bandiau o £5,000) £'000 | Buddiannau pensiwn[2] (bandiau o £5,000) £'000 | Cyfanswm (bandiau o £5,000) £'000 | Treuliau £'000 |
| Andrea Sutcliffe<br>Prif Weithredwr a Chofrestrydd<br>O 14 Ionawr 2019 | 35-40<br>*FYE* 170-175* | 0 | 35-40 | 2.2 | 0 | 0 | 0 | 0.0 |
| Sue Killen<br>Prif Weithredwr a Chofrestrydd Interim o 23 Gorffennaf 2018<br>Hyd at 16 Ionawr 2019 | 100-105<br>*FYE 215-220* | 0 | 100-105 | 0.3 | 0 | 0 | 0 | 0.0 |
| Jackie Smith<br>Prif Weithredwr a Chofrestrydd<br>Hyd at 31 Gorffennaf 2018 | 125-130<br>*FYE 200-205* | 10-15 | 140-145 | 2.4 | 195-200 | 40-45 | 235-240 | 9.1 |
| Emma Broadbent<br>Cyfarwyddwr Cofrestru ac Ailddilysu | 125-130 | 10-15 | 140-145 | 1.9 | 120-125 | 10-15 | 135-140 | 1.7 |
| Sarah Daniels<br>Cyfarwyddwr Pobl a Datblygu Sefydliadol | 120-125 | 10-15 | 135-140 | 0.0 | 55-60<br>*FYE 115-120* | 5-10 | 60-65 | 0.1 |
| Andrew Gillies<br>Cyfarwyddwr Adnoddau Interim<br>O 26 Gorffennaf 2018 | 75-80<br>*FYE 110-115* | 5-10 | 85-90 | 0.0 | 0 | 0 | 0 | 0.0 |
| Matthew McClelland<br>Cyfarwyddwr Addasrwydd i Ymarfer | 130-135 | 30-35 | 165-170 | 3.1 | 105-110<br>*FYE 125-130* | 60-65 | 170-175 | 3.2 |
| Richard Sheldon<br>Cyfarwyddwr Technoleg ac Arloesedd Busnes Interim<br>O 3 Medi 2018 | 65-70<br>*FYE 110-115* | 5-10 | 70-75 | 1.3 | 0 | 0 | 0 | 0.0 |
| Gary Walker<br>Cyfarwyddwr Adnoddau Interim<br>O 2 Chwefror 2018 hyd at 31 Gorffennaf 2018 | 50-55<br>*FYE 160-165* | 0 | 50-55 | 0.0 | 20-25<br>*FYE 160-165* | 0 | 20-25 | 0.0 |

| | 2018–19 | | | | 2017–18 | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Cyflog (bandiau o £5,000) £'000** | **Buddiannau pensiwn[2] (bandiau o £5,000) £'000** | **Cyfanswm (bandiau o £5,000) £'000** | **Treuliau £'000** | **Cyflog (bandiau o £5,000) £'000** | **Buddiannau pensiwn[2] (bandiau o £5,000) £'000** | **Cyfanswm (bandiau o £5,000) £'000** | **Treuliau £'000** |
| Geraldine Walters<br>Cyfarwyddwr Addysg, Safonau a Pholisi | 155-160 | 10-15 | 165-170 | 4.5 | 150-155 | 10-15 | 160-165 | 2.9 |
| Edward Welsh<br>Cyfarwyddwr Materion Allanol<br>O 21 Mai 2018 | 120-125<br>*FYE 135-140* | 10-15 | 135-140 | 1.8 | 0 | 0 | 0 | 0.0 |
| Sarah Page<br>Cyfarwyddwr Addasrwydd i Ymarfer<br>Hyd at 31 Rhagfyr 2017 | 0 | 0 | 0 | 0.0 | 125-130<br>*FYE 140-145* | 40-45 | 165-170 | 0.4 |
| Alison Sansome<br>Prif Swyddog Gweithredu<br>Hyd at 7 Ebrill 2017 | 0 | 0 | 0 | 0.0 | 85-90<br>*FYE 140-145* | 110-115 | 200-205 | 0.0 |
| Adam Broome<br>Cyfarwyddwr Adnoddau<br>Hyd at 9 Chwefror 2018 | 0 | 0 | 0 | 0.0 | 135-140<br>*FYE 125-130* | 10-15 | 150-155 | 0.1 |
| Judith Toland<br>Cyfarwyddwr Trawsnewid<br>Hyd at 31 Hydref 2017 | 0 | 0 | 0 | 0.0 | 100-105<br>*FYE 130-135* | 5-10 | 110-115 | 0.8 |

*[1] Diweddarwyd y datgeliadau yn Nhabl 2 ers 2017 –2018 er mwyn cydymffurfio'n agosach â Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth 2019-20 paragraff 5.3.21. Cymhwyswyd y newidiadau at y flwyddyn gyfredol a blynyddoedd blaenorol.*

*[2] Mae Jackie Smith a Matthew McClelland yn aelodau o'r cynllun buddiannau diffiniedig, a nodir manylion am werth eu buddiannau pensiwn yn nhabl 3. Cyfrifwyd eu buddiannau pensiwn fel y'u nodir uchod fel y cynnydd gwirioneddol yn eu pensiwn yn ystod y flwyddyn wedi'i luosi ag 20 llai gwerth y cyfraniadau a wnaed gan y cyflogai. Mae'r cyfarwyddwyr eraill, ac eithrio Sue Killen a Gary Walker, yn aelodau o'r cynllun cyfraniadau diffiniedig, a gwerth eu buddiannau pensiwn yw'r cyfraniadau a wnaed gan yr NMC fel cyflogwr i'w cronfeydd pensiwn. Nid oedd Sue Killen a Gary Walker yn aelodau o'r naill gynllun pensiwn na'r llall.*

**Cyfwerth â'r flwyddyn lawn*

## Tabl 3: Gwybodaeth pensiwn buddiannau diffiniedig y Tîm Gweithredol

| | Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn yn 60 oed (bandiau o £2,500) £'000 | Cyfanswm y pensiwn a gronnwyd yn 60 oed ar 31 Mawrth 2019 (bandiau o £5,000) £'000 | Gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian parod ar 1 Ebrill 2018 £'000 | Gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian parod ar 31 Mawrth 2019 £'000 | Cynnydd gwirioneddol mewn gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian parod £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Matthew McClelland *Cyfarwyddwr Addasrwydd i Ymarfer* | 0-2.5 | 10-15 | 289 | 356 | 49 |
| Jackie Smith *Prif Weithredwr a Chofrestrydd hyd at 31 Gorffennaf 2018* | 0-2.5 | 20-25 | 684 | 759 | 22 |

# Cydnabyddiaeth ac asesu perfformiad cyflogeion eraill

Mae pob cyflogai yn ymgymryd â chyfnod prawf o chwe mis pan fydd yn dechrau mewn cyflogaeth a disgwylir iddo roi rhybudd o un i dri mis yn dibynnu ar ei radd.

Adolygir cydnabyddiaeth pob cyflogai bob blwyddyn gan ystyried amrywiaeth o wybodaeth gan gynnwys trosiant cyflogeion, gweithgarwch recriwtio a thueddiadau cadw staff, data meincnodi a fforddiadwyedd cyffredinol. Cymeradwyodd y Cyngor gynnydd cyfradd unffurf mewn cyflog o ddau y cant i bob cyflogai yn weithredol o 1 Ebrill 2018.

Gwnaethom ymrwymiad yn ein Strategaeth Pobl 2017-2020 i ddatblygu strategaeth wobrwyo newydd i gyflogeion. Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi bod yn gweithio ar gynigion i gyflwyno cynllun cyflog a graddio newydd, a byddwn yn ymgynghori ar y cynllun hwn â chyflogeion yn ystod haf 2019. Cymeradwyodd y Cyngor ddyfarniad cost byw o 2.5 y cant i bob cyflogai cymwys a delir o fis Ebrill 2019. Bydd cam nesaf y gwaith hwn yn adolygu'r amrywiaeth ehangach o fuddiannau sydd ar gael i gyflogeion ac yn ystyried sut i gysylltu datblygiadau gyrfa a chyfraniadau â gwobrau. Un o'r prif ystyriaethau wrth ddatblygu ein strategaeth wobrwyo fydd penderfynu sut i fynd ati i sicrhau bod cyfraddau cyflog yn parhau i fod yn deg, yn gyfredol ac yn gystadleuol, a beth a wnawn y tu hwnt i gyflog sylfaenol er mwyn adeiladu pecyn gwobrwyo cyffredinol sy'n ein helpu i ddisgrifio ein huchelgais i fod yn gyflogwr teg a chynhwysol.

Gweithredwyd ein proses adolygu perfformiad a datblygiad yn ôl yr arfer drwy gydol y flwyddyn. Nid yw'n gysylltiedig â chyflog.

## Trefniadau pensiwn

Cynllun pensiwn cyfraniadau diffiniedig yw ein prif gynllun pensiwn. Mae cyflogeion yn cyfrannu un y cant o'u cyflog ac mae'r NMC yn cyfrannu wyth y cant (2017-2018: saith y cant). Mae'r NMC yn cyfateb cyfraniadau ychwanegol gan gyflogeion hyd at uchafswm cyfraniad o 12 y cant gan y cyflogwr. Ar 31 Mawrth 2019, roedd 604 o gyflogeion (80 y cant) yn aelodau o'r cynllun cyfraniadau diffiniedig (31 Mawrth 2018: 477, 67 y cant).

Roedd cyflogeion a ymunodd â'r NMC cyn mis Tachwedd 2013 yn cael cynnig ymuno â chynllun pensiwn buddiannau diffiniedig. Caewyd y cynllun i gyflogeion a ymunodd ar ôl 1 Tachwedd 2013. Mae aelodau'r cynllun buddiannau diffiniedig yn cyfrannu chwech y cant o'u cyflog. Cyfraniad y cyflogwr yn ystod 2018-2019 oedd 39.3 y cant (2017-2018: 39.3 y cant), fel y nodwyd gan actwari'r cynllun. Ar 31 Mawrth 2019, roedd 105 o gyflogeion (14 y cant) yn aelodau o'r cynllun buddiannau diffiniedig (31 Mawrth 2018: 106, 17 y cant).

Ceir rhagor o wybodaeth am gydnabyddiaeth a phensiynau yn nodiadau 8 a 17 i'r cyfrifon.

## Gwahaniaethau cyflog yn yr NMC

Y cyflogai parhaol â'r cyflog uchaf yn yr NMC ar 31 Mawrth 2019 yw Andrea Sutcliffe ac rydym wedi defnyddio ei chyflog fel cymharydd wrth gyfrifo'r gwahaniaeth rhwng cydnabyddiaeth ganolrifol cyflogeion yr NMC. Roedd cydnabyddiaeth Andrea Sutcliffe 5.57 gwaith cydnabyddiaeth ganolrifol cyflogeion yr NMC, sef £31,424. Yn 2017– 2018, roedd cydnabyddiaeth Jackie Smith 6.26 gwaith cydnabyddiaeth ganolrifol cyflogeion yr NMC, sef £31,426. Mae'r gydnabyddiaeth yn y cyfrifiad hwn yn seiliedig ar gyflog blynyddol. Nid yw'n cynnwys gwyliau blynyddol â thâl, cyfraniadau pensiwn y cyflogwr na gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian parod pensiynau.

Yr ystod cydnabyddiaeth rhwng y cyflogai â'r cyflog uchaf a'r cyflogai â'r cyflog isaf ar 31 Mawrth 2019 oedd £156,000 (31 Mawrth 2018: £182,000).

## Y bwlch cyflog rhwng y rhywiau

Fel sy'n ofynnol, gwnaethom gyhoeddi ein hail adroddiad blynyddol ar gyflogau rhwng y rhywiau ym mis Mawrth 2019 gan adlewyrchu'r sefyllfa ar 5 Ebrill 2018.

Ein bwlch cyflog canolrifol ar gyfer 2018 oedd 4.77 y cant (2017: 3.73 y cant) a'r bwlch cyflog cymedr oedd 1.6 y cant (2017: 1.9 y cant)

Mae’r newid negyddol yn ein canolrif yn deillio o newid o ran demograffeg ein cyflogeion: roedd nifer gyfrannol uwch o fenywod yn y ddwy radd cyflog isaf nag yn 2017. O ganlyniad, cafwyd cynnydd bach yn y bwlch cyflog canolrifol. Mae’r ‘cyflogai canolrifol’ cymharol ar gyfer dynion a menywod yn 2018 yn yr un radd cyflog, ond mae ganddynt swyddi gwahanol yn y sefydliad.

Cafwyd effaith gadarnhaol ar y bwlch cyflog cymedr yn 2018 yn dilyn lleihad o 0.3 y cant yn y bwlch rhwng cyflog cyfartalog dynion a menywod rhwng 2017 a 2018. Yn 2018, cynyddodd cyfran y menywod yn ein pedair gradd â’r cyflogau uchaf 0.4 y cant, ond gostyngodd cyfran y dynion yn yr un grŵp un y cant.

Er gwaethaf y cynnydd bach hwn yn y bwlch cyflog canolrifol, mae’r canlyniadau hyn yn golygu bod ein bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn sylweddol is na’r tueddiadau a nodir yn genedlaethol: mae bwlch cyflog cymedr yr NMC rhwng y rhywiau yn llai na 90 y cant o gyflogwyr ac mae ein bwlch cyflog canolrifol rhwng y rhywiau yn llai na 70 y cant o gyflogwyr.

Rydym yn falch o’r canlyniad hwn ond yn parhau i weithio er mwyn lleihau ein bwlch wrth i ni adolygu ein Strategaeth Wobrwyo 2019-2021.

**Philip Graf**
Cadeirydd
**4 Gorffennaf 2019**

**Andrea Sutcliffe**
Prif Weithredwr a Chofrestrydd
**4 Gorffennaf 2019**

# Datganiad o gyfrifoldebau'r Cyngor a'r Prif Weithredwr a Chofrestrydd mewn perthynas â'r cyfrifon

Mae Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001 yn ei gwneud yn ofynnol i baratoi ac archwilio cyfrifon blynyddol. Mae'r Cyngor a'i Brif Weithredwr a Chofrestrydd (fel Swyddog Cyfrifyddu) yn gyfrifol am baratoi a chymeradwyo'r cyfrifon.

Mae'r cyfrifon wedi'u paratoi yn unol â'r penderfyniad a wnaed gan y Cyfrin Gyngor sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r cyfrifon gael eu paratoi yn unol â'r Datganiad o'r Arfer Cyfrifyddu ac Adrodd a argymhellir ar gyfer Elusennau (SoRP) a ddiwygiwyd yn 2015 a bod y cyfrifon hefyd yn cydymffurfio â'r gyfraith a'r Safonau Cyfrifyddu cymwys a gyhoeddwyd (Atodiad 1).

Mae'r gyfraith sy'n gymwys i elusennau a gofrestrir yng Nghymru a Lloegr a'r Alban yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor baratoi datganiadau ariannol ar gyfer pob blwyddyn ariannol sy'n rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r elusen a'i symudiad net mewn cronfeydd ar gyfer y cyfnod hwnnw. Wrth baratoi'r cyfrifon hyn, mae'n ofynnol i'r Cyngor wneud y canlynol:

- dilyn y penderfyniad ar gyfrifon cymwys a gyhoeddwyd gan y Cyfrin Gyngor
- dewis polisïau cyfrifyddu addas a'u rhoi ar waith yn gyson
- dilyn y dulliau gweithredu a'r egwyddorion a geir yn y Datganiad o'r Arfer a Argymhellir ar gyfer Elusennau
- llunio barn ac amcangyfrifon ar sail resymol
- paratoi'r cyfrifon ar sail busnes byw, onid yw'n amhriodol tybio y bydd y Cyngor yn parhau i weithredu
- datgan p'un a ddilynwyd safonau cyfrifyddu cymwys
- datgelu ac egluro unrhyw wyriadau perthnasol oddi wrthynt yn y datganiadau ariannol.

Mae'r Cyngor a'i Brif Weithredwr a Chofrestrydd yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu cywir sy'n datgelu gyda chywirdeb rhesymol, ar unrhyw adeg, sefyllfa ariannol y Cyngor ac sy'n eu galluogi i sicrhau bod y cyfrifon yn cydymffurfio â Deddf Elusennau 2011, Deddf Buddsoddiadau Elusennau ac Ymddiriedolwyr (Yr Alban) 2005, Rheoliadau Cyfrifon Elusennau (Yr Alban) 2006 a Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001. Maent hefyd yn gyfrifol am ddiogelu asedau'r Cyngor ac felly am gymryd camau rhesymol i atal a chanfod achosion o dwyll ac afreoleidd-dra arall.

Mae'r Cyfrin Gyngor wedi penodi'r Prif Weithredwr a Chofrestrydd yn Swyddog Cyfrifyddu'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth. Yn ei rhinwedd fel Swyddog Cyfrifyddu, mae'n gyfrifol am weithredu rhwymedigaethau'r Cyngor o dan adran 52 o'r Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth (fel y'i diwygiwyd). Wrth wneud hynny, gofynnir iddi ystyried yr egwyddorion a nodir ym Mhennod 3 sy'n ymwneud â chyfrifoldebau Swyddogion Cyfrifyddu a'r canllawiau ehangach a geir yn 'Managing Public Money' (Trysorlys EM, 2013, diwygiwyd yr atodiadau ym mis Mawrth 2018).

Hyd y gwyddom, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilwyr yr NMC yn ymwybodol ohoni. Rydym wedi cymryd yr holl gamau y dylem fod wedi'u cymryd i sicrhau ein bod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i gadarnhau bod archwilwyr yr NMC yn ymwybodol o'r wybodaeth honno. Mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn cadarnhau bod yr adroddiad blynyddol a chyfrifon yn eu cyfanrwydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy ac mae'n cymryd cyfrifoldeb personol am yr adroddiad blynyddol a chyfrifon a'r dyfarniadau sydd eu hangen er mwyn pennu eu bod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

## Prif le busnes

Mae'r NMC yn gweithio ledled Cymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban. Ei brif le busnes yw:

23 Portland Place
London
W1B 1PZ

## Cynghorwyr

### Archwilydd Allanol Annibynnol

Haysmacintyre LLP
Cyfrifwyr Siartredig
10 Queen Street Place
London
EC4R 1AG

### Bancwyr

HSBC Bank Plc
Space One, Floor 2
1 Beadon Road
London
W6 0EA

### Archwilydd Mewnol

RSM Risk Assurance Services LLP
25 Farringdon Street
London
EC4A 4AB

### Archwilydd Statudol

Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol y Swyddfa Archwilio Genedlaethol
157–197 Buckingham Palace Road
Victoria
London
SW1W 9SP

### Cyfreithwyr

Blake Morgan LLP
Harbour Court
Compass Road
North Harbour
Portsmouth
PO6 4ST

Capsticks Solicitors LLP
1 St Georges Road
London
SW19 4DR

Field Fisher Waterhouse LLP
Riverbank House
2 Swan Lane
London
EC4R 3TT

# Datganiad llywodraethu blynyddol

Rydym yn gorff statudol annibynnol. Nodir ein pwerau a'n cyfrifoldebau mewn deddfwriaeth.[1] Rydym hefyd yn elusen gofrestredig.[2] Ein hamcan elusennol yw amddiffyn a diogelu iechyd a lles y cyhoedd. Mae'r Cyngor yn ystyried canllawiau'r Comisiwn Elusennau a Swyddfa Rheoleiddiwr Elusennau'r Alban (OSCR) wrth wneud penderfyniadau a thrwy gydol yr adroddiad hwn, eglurwn sut mae ein gwaith yn dangos budd i'r cyhoedd.

## Y Cyngor

Y Cyngor yw ein corff llywodraethu ac aelodau'r Cyngor yw ymddiriedolwyr yr elusen. Mae aelodau'r Cyngor yn gyfrifol ar y cyd am sicrhau bod yr NMC yn solfent, yn cael ei redeg yn dda ac yn sicrhau budd i'r cyhoedd.

Cylch gwaith y Cyngor yw (a) pennu ein cyfeiriad strategol a'n hamcanion corfforaethol, yn unol â'n diben craidd; (b) sicrhau bod systemau effeithiol ar waith ar gyfer rheoli perfformiad a risg; (c) cynnal gonestrwydd wrth arfer ein swyddogaethau a defnyddio cronfeydd, a chynnal atebolrwydd cyhoeddus amdanynt. Mae ein Cynllun Dirprwyo yn nodi pa faterion y mae'n rhaid i'r Cyngor, a'r Cyngor yn unig, wneud penderfyniadau yn eu cylch.

Mae'r Cyngor yn cynnwys 12 o aelodau y mae'n rhaid i hanner yr aelodau hynny fod yn weithwyr proffesiynol ar ein cofrestr ac y mae eu hanner yn aelodau lleyg.[3] Nid yw aelodau lleyg erioed wedi bod yn nyrs gofrestredig, yn fydwraig nac yn gydymaith nyrsio. Fel rheoleiddiwr sy'n gweithio ledled y DU, mae aelodaeth y Cyngor yn cynnwys o leiaf un aelod sy'n byw neu'n gweithio yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Penodir y Cadeirydd ac aelodau'r Cyngor gan y Cyfrin Gyngor, yn dilyn proses recriwtio agored a chystadleuol. Caiff y Cyfrin Gyngor sicrwydd gan yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol (PSA) ynghylch cadernid ein proses ar gyfer penodi neu ailbenodi aelodau.

Dechreuodd Philip Graf yn ei swydd fel Cadeirydd y Cyngor o 1 Mai 2018 pan ddaeth cyfnod y Fonesig Janet Finch yn y swydd i ben ar 30 Ebrill 2018.

Dechreuodd Claire Johnston yn ei swydd fel aelod cofrestredig o'r Cyngor o 1 Medi 2018, yn lle Maureen Morgan, aelod cofrestredig y daeth ei hail dymor i ben ar 30 Ebrill 2018.

Ailbenodwyd yr Athro Karen Cox (aelod cofrestredig o'r Cyngor) am ail dymor o 1 Mai 2019. Ailbenodwyd Dr Anne Wright a Stephen Thornton (aelodau lleyg o'r Cyngor) am drydydd tymor o 1 Mai 2019 am gyfnod o flwyddyn.

1 OS 2002/253 Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001 (fel y'i diwygiwyd) (y Gorchymyn).
2 Cofrestredig yng Nghymru a Lloegr (rhif 1091434) ac yn yr Alban (rhif SC038362).
3 OS 2012/2745 Gorchymyn y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (Cyfansoddiad) (Diwygio) 2012.

Nodir aelodaeth a ffigurau presenoldeb y Cyngor yn ystod 2018-2019 isod.

## Aelodaeth a ffigurau presenoldeb y Cyngor rhwng 1 Ebrill 2018 a 31 Mawrth 2019

| Aelod | Nifer y sesiynau a fynychwyd* | Nifer y sesiynau a gynhaliwyd* | % y sesiynau a fynychwyd |
|---|---|---|---|
| Yr Athro y Fonesig Janet Finch (Cadeirydd hyd at 30 Ebrill 2018) | 0 | 0 | Dd/G |
| Philip Graf CBE (Cadeirydd o 1 Mai 2018) | 12 | 12 | 100% |
| Syr Hugh Bayley | 12 | 12 | 100% |
| Yr Athro Karen Cox | 7 | 12 | 58% |
| Maura Devlin MBE | 10 | 12 | 83% |
| Claire Johnston (penodwyd 1 Medi 2018) | 8 | 8 | 100% |
| Maureen Morgan OBE (hyd at 30 Ebrill 2018) | 0 | 0 | Dd/G |
| Robert Parry | 12 | 12 | 100% |
| Stephen Thornton CBE | 12 | 12 | 100% |
| Lorna Tinsley | 10 | 12 | 83% |
| Dr Anne Wright CBE | 10 | 12 | 83% |
| Ruth Walker | 11 | 12 | 92% |
| Derek Pretty | 10 | 12 | 83% |
| Marta Phillips OBE | 10 | 12 | 83% |

** Yn cynnwys sesiynau cyhoeddus a chyfrinachol*

Mae cyfarfodydd y Cyngor yn cynnwys sesiwn gyhoeddus a sesiwn gyfrinachol. Yn ogystal â chyfarfodydd ffurfiol, mae aelodau'r Cyngor hefyd yn mynychu seminarau misol, yn cynnal telagynadleddau, ac yn cymryd rhan mewn amrywiaeth eang o weithgareddau eraill. Effeithiwyd ar ffigurau presenoldeb ambell i sesiwn ar ôl i ni newid trefn cyfarfodydd y Cyngor. O ganlyniad i'r newid hwn, ni fu modd i bob aelod fynychu sesiynau cyhoeddus a sesiynau cyfrinachol. Symudwyd dau gyfarfod ar fyr rybudd hefyd, a gafodd effaith ar ffigurau presenoldeb.

.

## Effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu

Rydym yn ymrwymedig i safonau llywodraethu uchel. Mae ein harfer yn cydymffurfio â Chod Arfer Da Llywodraethu Corfforaethol Swyddfa'r Cabinet i adrannau llywodraeth ganolog i'r graddau y bo'n gymwys. Rydym hefyd yn ceisio bodloni'r egwyddorion a'r arfer a argymhellir a geir yn y Cod Llywodraethu Elusennau ac Egwyddorion Moesegol Elusennau NCVO. Mae'r Cyngor yn cynnal ei fusnes yn unol â'r saith egwyddor bywyd cyhoeddus, sef: anhunanoldeb, uniondeb, gwrthrychedd, atebolrwydd, bod yn agored, gonestrwydd ac arweinyddiaeth.

Mae aelodau'r Cyngor yn ymgymryd â phroses sefydlu lawn adeg eu penodi ac yn cael arfarniad unigol bob blwyddyn. Mae'r arfarniadau hyn yn llywio gweithgareddau datblygu unigol a chyfunol, ac yn llywio ystyriaethau sy'n rhan o'r broses ailbenodi.

Yn ystod y flwyddyn, parhaodd aelodau'r Cyngor i ymgymryd ag amrywiaeth o weithgareddau datblygu. Yn eu plith, roedd ymweliadau allanol i glywed am brofiadau myfyrwyr, addysgwyr, cofrestreion a chyflogwyr.

Mae'r Cyngor yn cynnal adolygiadau rheolaidd o'i effeithiolrwydd. Cynhaliwyd yr adolygiad diweddaraf ddechrau 2018. Mae'r camau gweithredu sy'n deillio o'r adolygiad yn canolbwyntio ar wella tryloywder ac ymgorffori ein gwerthoedd ym mhob rhan o'n sefydliad, gan gynnwys y ffordd y mae'r Cyngor yn cael sicrwydd o ran ymgysylltu â chleifion a'r cyhoedd ac atgyfnerthu ein dull o sicrhau gwelliannau parhaus a rhoi dysgu sefydliadol ar waith.

Cynhelir adolygiad annibynnol allanol o effeithiolrwydd yn ystod 2019-2020 er mwyn sicrhau bod ein trefniadau yn adlewyrchu arfer da a'u bod yn hyblyg ac yn addas ar gyfer y dyfodol.

## Pwyllgorau'r Cyngor

Mae gan y Cyngor Bwyllgor Archwilio a Phwyllgor Cydnabyddiaeth o hyd. Ym mis Medi 2018, sefydlodd y Cyngor Bwyllgor Buddsoddi.

Caiff y broses o benodi aelodau'r Cyngor i'r Pwyllgorau Archwilio, Cydnabyddiaeth a Buddsoddi ei llywodraethu gan reolau sefydlog y Cyngor a'i gynllun dirprwyo, ynghyd â chyfres o egwyddorion a fabwysiadwyd gan y Cyngor yn 2015. Caiff aelodaeth pwyllgorau'r Cyngor ei hadolygu bob blwyddyn.

Ar y tudalennau canlynol, nodir cylch gwaith, aelodaeth a chofnod presenoldeb pob Pwyllgor.

## Pwyllgor Archwilio

Cylch gwaith y Pwyllgor Archwilio yw helpu'r Cyngor a'i reolwyr drwy adolygu cyflawnder a dibynadwyedd sicrwydd o ran llywodraethu, rheoli risg, rheoli'r amgylchedd ac uniondeb datganiadau ariannol a'r adroddiad blynyddol. Nodir isod aelodaeth y Pwyllgor a'i ffigurau presenoldeb ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2018 a 31 Mawrth 2019.

| Aelod | Nifer y sesiynau a fynychwyd | Nifer y sesiynau a gynhaliwyd | % y sesiynau a fynychwyd |
|---|---|---|---|
| Marta Phillips OBE (Cadeirydd) | 4 | 4 | 100% |
| Maureen Morgan OBE (hyd at 30 Ebrill 2018) | 1 | 1 | 100% |
| Robert Parry | 4 | 4 | 100% |
| Derek Pretty | 4 | 4 | 100% |

## Y Pwyllgor Cydnabyddiaeth

Cylch gwaith y Pwyllgor Cydnabyddiaeth yw sicrhau bod systemau priodol ar waith ar gyfer cydnabyddiaeth a chynllunio ar gyfer olyniaeth. Nodir isod aelodaeth y Pwyllgor a'i ffigurau presenoldeb ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2018 a 31 Mawrth 2019.

| Member | Nifer y sesiynau a fynychwyd | Nifer y sesiynau a gynhaliwyd | % y sesiynau a fynychwyd |
|---|---|---|---|
| Yr Athro Karen Cox (Cadeirydd) | 3 | 3 | 100% |
| Syr Hugh Bayley | 3 | 3 | 100% |
| Maura Devlin MBE | 2 | 3 | 67% |

Cynhaliodd y Pwyllgor hefyd nifer o drafodaethau drwy delegynadledda a gwnaeth benderfyniadau drwy ohebiaeth. Cymerodd holl aelodau'r Pwyllgor hefyd ran yn y broses o ddethol a phenodi'r Prif Weithredwr a Chofrestrydd newydd.

## Pwyllgor Buddsoddi

Cylch gwaith y Pwyllgor Buddsoddi yw goruchwylio'r broses o roi strategaeth fuddsoddi'r Cyngor ar waith a monitro portffolio buddsoddi'r Cyngor.

Nodir isod aelodaeth y Pwyllgor a'i ffigurau presenoldeb o'r cyfarfod cyntaf ym mis Hydref 2018 hyd at 31 Mawrth 2019.

| Aelod | Nifer y sesiynau a fynychwyd* | Nifer y sesiynau a gynhaliwyd* | % y sesiynau a fynychwyd |
|---|---|---|---|
| Derek Pretty (Cadeirydd) | 2 | 2 | 100% |
| Stephen Thornton CBE | 2 | 2 | 100% |
| Claire Johnston | 1 | 2 | 50% |

** Yn cynnwys un cyfarfod drwy telagynadledda*

Penodwyd dau aelod annibynnol newydd i'r Pwyllgor i ddechrau yn eu swydd o 15 Ebrill 2019 – Thomasina Findlay a Nick McLeod-Clarke.

## Bwrdd Penodiadau

Mae'r Bwrdd Penodiadau yn cynnwys aelodau (partner) nad ydynt yn aelodau o'r Cyngor, a gaiff eu penodi yn dilyn prosesau recriwtio cystadleuol agored. Cafodd Cadeirydd newydd y Pwyllgor, Jane Slatter, ei phenodi a dechreuodd yn ei swydd o 6 Awst 2018. Penodwyd aelod newydd, Robert Allan, a dechreuodd yn ei swydd o 1 Hydref 2018. Cylch gwaith y Bwrdd Penodiadau yw helpu'r Cyngor i arfer unrhyw swyddogaeth sy'n ymwneud â phenodi Aelodau Panel ac Aseswyr Cyfreithiol.

Nodir isod aelodaeth y Pwyllgor a'i ffigurau presenoldeb ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2018 a 31 Mawrth 2019.

| Aelod | Nifer y sesiynau a fynychwyd* | Nifer y sesiynau a gynhaliwyd* | % y sesiynau a fynychwyd |
|---|---|---|---|
| Belinda Phipps (Cadeirydd hyd at 3 Awst 2018) | 1 | 1 | 100% |
| Jane Slatter (Cadeirydd – penodwyd 6 Awst 2018) | 3 | 3 | 100% |
| Robert Allan (penodwyd 1 Hydref 2018) | 2 | 2 | 100% |
| Angie Loveless | 4 | 4 | 100% |
| Frederick Psyk | 4 | 4 | 100% |
| Clare Salters | 4 | 4 | 100% |
| Fiona Whiting (hyd at 3 Awst 2018) | 1 | 1 | 100% |

** Yn cynnwys un cyfarfod drwy telagynadledda*

## Rôl y Tîm Gweithredol

Penodir y Prif Weithredwr a Chofrestrydd gan y Cyngor ac mae'n atebol iddo. Cylch gwaith y Prif Weithredwr a Chofrestrydd yw cyfeirio ein materion a rheoli ein hadnoddau o fewn y fframwaith strategol a sefydlwyd gan y Cyngor.

Penodwyd Prif Weithredwr a Chofrestrydd newydd, Andrea Sutcliffe, yn dilyn cystadleuaeth agored a dechreuodd yn ei swydd ym mis Ionawr 2019. Gadawodd y Prif Weithredwr a Chofrestrydd blaenorol, Jackie Smith, a fu'n ymgymryd â'r swydd ers chwe blynedd, ym mis Gorffennaf 2018. Penododd y Cyngor Brif Weithredwr a Chofrestrydd interim, Sue Killen, a gyfeiriodd faterion o ddiwedd mis Gorffennaf 2018 hyd at fis Ionawr 2019.

Fel y Swyddog Cyfrifyddu, mae'r Prif Weithredwr a Chofrestrydd yn gyfrifol yn bersonol am faterion sy'n ymwneud â phriodoldeb a rheoleidd-dra ariannol; cadw cyfrif priodol o faterion ariannol; osgoi gwastraff ac afradlondeb; defnyddio adnoddau yn effeithiol.

Y Bwrdd Gweithredol yw'r prif gorff sy'n gwneud penderfyniadau llywodraethu yn fewnol. Mae'r Bwrdd yn cynnwys y Prif Weithredwr a Chofrestrydd a'r holl gyfarwyddwyr. Mae'r Cwnsler Cyffredinol hefyd yn mynychu. Ei gylch gwaith yw gweithio gyda'r Prif Weithredwr a Chofrestrydd a rhoi sicrwydd i'r Cyngor drwy wneud y canlynol: datblygu a gweithredu strategaethau, polisïau, cynlluniau busnes, a chyllidebau; sicrhau y caiff adnoddau, cyllid a phobl eu defnyddio'n effeithiol ac yn effeithlon; nodi a rheoli risg.

# Goruchwyliaeth yr Awdurdod Safonau Proffesiynol (PSA)

Mae'r Awdurdod Safonau Proffesiynol yn goruchwylio ein gwaith, yn ogystal â gwaith rheoleiddwyr gweithwyr iechyd a gofal proffesiynol eraill, ac yn cyflwyno adroddiadau i'r Senedd.

Ym mis Mai 2018, cyhoeddodd yr Awdurdod *Lessons Learned Review* a ystyriodd y ffordd y gwnaethom ymdrin â phryderon am addasrwydd bydwragedd yn Ysbyty Cyffredinol Furness i ymarfer. Nododd yr adroddiad feysydd sylweddol y mae angen i ni eu gwella, gan gynnwys: sut rydym yn trin pobl sy'n dod i gysylltiad â ni ac sy'n ymgysylltu â'n prosesau; ein dull o sicrhau tryloywder; sicrhau ein bod yn agored gyda phobl pan fydd pethau'n mynd o chwith. Gwnaethom dderbyn holl argymhellion yr adroddiad, gan roi rhaglen waith eang ar waith i ymdrin â nhw. Disgrifir ein gwaith yn adran adolygu perfformiad yr adroddiad hwn.

Gohiriwyd adolygiad blynyddol yr Awdurdod o'n perfformiad ar gyfer 2016-2017, hyd nes i *Lessons Learned Review* gael ei gwblhau. Cyhoeddodd yr Awdurdod ei adroddiad ym mis Mehefin 2018, a gadarnhaodd ein bod wedi cyrraedd 23 o'r 24 o Safonau Rheoleiddio Da.

Ym mis Ebrill 2019, cyhoeddodd yr Awdurdod ei adolygiad blynyddol o'n perfformiad ar gyfer 2017-2018. Cadarnhaodd ein bod wedi cyrraedd 22 o'r 24 o Safonau Rheoleiddio Da. Ni wnaethom gyrraedd dwy o'r deg safon addasrwydd i ymarfer. Rydym yn cymryd canfyddiadau'r Awdurdod o ddifrif a cheir esboniad o'n cynnydd yn y meysydd hyn yn adran adolygu perfformiad yr adroddiad hwn.

Bydd yr Awdurdod yn cynnal cynllun peilot o bum Safon Rheoleiddio Da cyffredinol newydd rhwng mis Ebrill a mis Medi 2019 er mwyn profi addasrwydd y fframwaith tystiolaeth sydd ei angen er mwyn eu cyrraedd. Mae'n bleser gennym gymryd rhan yn y cynllun peilot hwn ar gyfer y safon sy'n ymwneud â Chydraddoldeb ac Amrywiaeth. Bydd y safonau newydd yn gymwys o 2020.

# Strategaeth yr NMC ar gyfer 2015–2020

Nododd ein strategaeth pum mlynedd – Rheoleiddio deinamig ar gyfer byd sy'n newid 2015–2020 – ein huchelgais i fod yn rheoleiddiwr deallus, blaengar a deinamig. Rydym yn parhau i roi'r strategaeth ar waith drwy gynlluniau a chyllidebau corfforaethol blynyddol, a ategir gan gynlluniau busnes y cyfarwyddiaethau.

Yn ystod 2019–2020, byddwn yn ymgysylltu â'r cyhoedd, cofrestreion a'n partneriaid, yn ogystal â chydweithwyr ym mhob rhan o'r sefydliad, er mwyn cydgynhyrchu ein strategaeth a'n blaenoriaethau ar gyfer 2020–2025.

## Monitro perfformiad ac ansawdd data

Mae'r Cyngor yn monitro cynnydd yn erbyn ein cynllun corfforaethol a'n cyllideb yn rheolaidd drwy ddangosyddion perfformiad allweddol, adroddiadau ariannol a diweddariadau risg ym mhob cyfarfod cyhoeddus. Ar y cyd â'r Tîm Gweithredol, mae'r Cyngor yn penderfynu pa wybodaeth a data am berfformiad y mae'n awyddus i'w hadolygu er mwyn gallu gwneud penderfyniadau effeithiol am ein perfformiad a'n hamlygiad i risg. Caiff ein trefniadau ar gyfer adrodd ar berfformiad eu hadolygu'n gyson ac rydym wedi gwneud nifer o welliannau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf o ran y data rydym yn eu monitro a sut rydym yn cyflwyno adroddiadau ar y data hynny.

Rydym yn cydnabod bod trefniadau effeithiol ar gyfer rheoleiddio a gwneud penderfyniadau yn dibynnu ar wybodaeth berthnasol, gywir ac amserol. Rydym yn parhau i fuddsoddi yn ein galluoedd rheoli data, dadansoddi data a llywodraethu data.

## Rheoli risg a rheolaeth fewnol

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am sefydlu a chynnal system rheoli risg a rheolaeth fewnol gadarn. Mae'r system o reolaeth fewnol wedi'i chynllunio i reoli risg yn hytrach na'i dileu, ac i roi sicrwydd rhesymol, ond nid sicrwydd llwyr, o effeithiolrwydd. Mae'r Pwyllgor Archwilio yn rhoi sicrwydd i'r Cyngor ynglŷn â gweithredu'r system rheolaeth fewnol a rheoli risg.

Trafododd y Cyngor y prif risgiau y mae'r NMC yn eu hwynebu ym mhob un o'i gyfarfodydd yn ystod y flwyddyn. Ym mis Ionawr 2019, penderfynodd y Cyngor y câi'r gofrestr risg lawn ei thrafod mewn sesiwn gyhoeddus er mwyn gwella eglurder a thryloywder. Mae'n bosibl y caiff materion cyfrinachol sy'n ymwneud â risgiau unigol penodol eu trafod fel rhan o sesiynau caeedig o hyd lle y bo angen.

Mae'r Prif Weithredwr a Chofrestrydd yn gyfrifol am sicrhau effeithiolrwydd y system rheoli risg a rheolaeth fewnol effeithiol ac, ar y cyd â'r cyfarwyddwyr, am sicrhau bod y system hon yn cael ei rhoi ar waith. Drwy'r cyfarwyddwyr, mae'n gyfrifol am nodi a gwerthuso risgiau, rhoi mesurau lliniaru priodol ar waith a monitro cynnydd a chyflwyno adroddiadau arno. Mae'r Tîm Gweithredol wedi adolygu ein proffil risg yn rheolaidd.

Adolygwn effeithiolrwydd ein prosesau a'n gweithdrefnau rheoli risg bob blwyddyn. Cynhelir adolygiadau sicrwydd cynhwysfawr gan y Bwrdd Gweithredol a'r Pwyllgor Archwilio, fel y bo'n briodol.

Daeth archwiliad mewnol o'n trefniadau rheoli risg yn 2018 i'r casgliad y gallwn fod yn rhesymol sicr bod y rheolaethau sydd ar waith wedi'u cynllunio'n addas ac yn cael eu rhoi ar waith yn gyson. Nododd yr adroddiad gyfleoedd ar gyfer gwelliannau, a gaiff eu rhoi ar waith yn 2019-2020. Ymhlith y rhain roedd:

- diweddaru ein polisi a'n fframwaith rheoli risg
- adolygu rolau a chyfrifoldebau er mwyn rheoli risgiau ac ymdrin â nhw
- pennu'r lefel o risg gorfforaethol rydym am ei chymryd
- cysoni ein prosesau sicrhau ansawdd a rheoli risg mewnol.

## Sicrwydd

Mae ein system o reolaeth fewnol yn cynnwys:

- prosesau recriwtio a hyfforddi a gynlluniwyd i sicrhau bod ein cydweithwyr yn meddu ar y sgiliau, y gwerthoedd a'r profiad priodol ar gyfer eu rolau
- cynlluniau sy'n llifo o'r amcanion a amlinellwyd yn ein strategaeth a'n cynlluniau corfforaethol blynyddol drwy gynlluniau'r cyfarwyddiaethau a'r timau i amcanion cydweithwyr unigol. Caiff cynnydd yn erbyn y cynlluniau hynny ei reoli ar lefel unigol drwy gyfarfodydd ac arfarniadau un-i-un, ac ar lefel cyfarwyddiaethau a chorfforaethol drwy wybodaeth reoli a gaiff ei chyflwyno i'r Bwrdd Gweithredol a'r Cyngor
- cyllidebau a gaiff eu pennu er mwyn rhoi'r cynlluniau ar waith ar gyfer y flwyddyn i ddod, a chyllidebau dangosol tymor hwy, a gaiff eu monitro drwy gyfrifon rheoli misol
- polisïau, prosesau a chanllawiau i gydweithwyr a chyflenwyr sy'n nodi sut rydym yn gweithredu, gan gynnwys rheolaethau awdurdodi dros drafodion ariannol ac anariannol unigol.

Mae'r Bwrdd Gweithredol yn gyfrifol am y canlynol:

- cymeradwyo'r cynllun gwaith sicrhau ansawdd blynyddol ar gyfer ein tîm gwella ansawdd mewnol, gan adolygu canlyniadau adolygiadau sicrhau ansawdd, a chytuno ar argymhellion i wella trefniadau sicrhau ansawdd a goruchwylio'r argymhellion hynny
- sicrhau bod y cynllun gwaith archwilio mewnol blynyddol a'r cynllun gwaith sicrhau ansawdd blynyddol yn ategu ei gilydd ac yn canolbwyntio ar feysydd lle ceir gwendidau posibl o ran rheolaeth fewnol
- adolygu perfformiad ein portffolio newid strategol ochr yn ochr â'n cofrestr risg gorfforaethol ym mhob cyfarfod
- cynnal asesiad blynyddol o effeithiolrwydd trefniadau rheoli risg a rheolaeth fewnol, yn seiliedig ar hunanasesiadau a gwblheir gan bob cyfarwyddwr ar gyfer eu priod gyfarwyddiaethau.

Rhoddodd ein hasesiad blynyddol o effeithiolrwydd rheoli risg a rheolaeth fewnol ar gyfer 2018-2019 sicrwydd rhesymol fod ein hamgylchedd rheolaeth fewnol yn gweithredu'n ddigonol ar lefel gorfforaethol ac ar lefel cyfarwyddiaethau. Ceir rhai bylchau o fewn timau corfforaethol lle y sefydlwyd cyfarwyddiaethau newydd yn ystod y flwyddyn. Caiff y rhain eu hatgyfnerthu yn ystod 2019-2020.

# Datgeliadau er budd y cyhoedd (chwythu'r chwiban)

Rydym yn adolygu ein polisi Chwythu'r Chwiban yn rheolaidd, sy'n annog cydweithwyr ac eraill sy'n gweithio i ni, neu gyda ni, i roi gwybod os byddant yn gweld bod rhywbeth o'i le. Gwnaethom welliannau o ran eglurder ein polisi yn 2018 yn seiliedig ar awgrymiadau gan gydweithwyr. Gwnaethom hefyd ddiweddaru ein canllawiau er mwyn helpu'r rheini sy'n codi pryder neu sydd o bosibl yn rhan o ymchwiliad. Gwnaethom hefyd ddiweddaru ein canllawiau i reolwyr er mwyn eu helpu i ddeall yn well yr hyn y dylent ei wneud os bydd cydweithiwr yn dod atynt â phryder.

Rydym wedi parhau i godi ymwybyddiaeth o'r polisi drwy dynnu sylw ato mewn gohebiaeth fewnol ac yn ystod ein cynhadledd i gyflogeion yn 2018. Gwnaethom hefyd gynnig hyfforddiant wedi'i deilwra i reolwyr a'r tîm arwain corfforaethol.

Mae'r Pwyllgor Archwilio yn cael adroddiad ar chwythu'r chwiban yn ystod pob cyfarfod. Ni fu unrhyw achosion o chwythu'r chwiban i'w cofnodi yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2019 (2017-2018: dim).

## Dysgu o gwynion a digwyddiadau

Rydym am ddysgu o'n camgymeriadau a rhoi'r gwersi a ddysgir ar waith er mwyn gwella ein ffordd o weithio. Anelwn at ymdrin ag unrhyw gwynion am y gwasanaeth rydym wedi'i ddarparu mewn ffordd deg ac amserol, gan drin y rhai sy'n gwneud cwynion â pharch a gwrando ar eu pryderon.

### Cwynion

Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom fwrw ati i sefydlu swyddogaeth Ymholiadau a Chwynion newydd er mwyn gwella'r ffordd rydym yn ymdrin â chwynion. Rydym yn gwneud newidiadau i'n prosesau er mwyn sicrhau ein bod yn deall achosion sylfaenol materion yn well ac y gallwn eu datrys yn gynharach a chynnig gwell tryloywder. Rydym hefyd yn anelu at wella ein ffordd o gasglu'r gwersi a ddysgir o gwynion ac adborth arall gan gwsmeriaid ynghyd â rhannu'r gwersi a'r adborth hwnnw.

Yn 2018–2019, cawsom 759 (2017–2018: 938) o gwynion ffurfiol gan bobl y tu allan i'n sefydliad. Gwnaethom ymateb i 86 y cant o'r rhain o fewn 20 diwrnod gwaith (2017-2018: 80 y cant o fewn 20 diwrnod gwaith). Yn achos 94 o'r cwynion hyn, gofynnodd yr achwynydd am adolygiad o'r ffordd y gwnaethom ymdrin â'i gŵyn (2017-2018: 107) a gwnaethom ymateb i'r rhain mewn 13.5 diwrnod gwaith ar gyfartaledd (2017-2018: 15.5 diwrnod gwaith).

### Digwyddiadau

Yn fewnol, rydym yn rhoi gwybod am unrhyw ddigwyddiadau neu ddigwyddiadau y bu bron iddynt ddigwydd pan aeth pethau o chwith. Ymchwilir i'r rhain o dan ein proses adolygu digwyddiadau difrifol er mwyn nodi gwersi a rhoi mesurau ar waith i'w hatal rhag digwydd eto. Rhoddir gwybod i'r Pwyllgor Archwilio am y themâu a'r gwersi sy'n deillio o adolygiadau o ddigwyddiadau difrifol yn ystod pob cyfarfod.

Yn ystod 2018-2019, rhoddwyd gwybod am gyfanswm o 184 o ddigwyddiadau corfforaethol a digwyddiadau y bu bron iddynt ddigwydd, yn bennaf mewn perthynas â'n swyddogaethau Cofrestru ac Ailddilysu, ac Addasrwydd i Ymarfer. Dyma yw'r ddau faes o fewn y sefydliad lle gwelir y nifer fwyaf o drafodion a rhyngweithiadau â chofrestreion a rhanddeiliaid eraill.

O dan ein proses ar gyfer rhoi gwybod am ddigwyddiadau, rydym yn gwahaniaethu rhwng Digwyddiadau Andwyol a Digwyddiadau Difrifol ar sail difrifoldeb y digwyddiad. O blith y 184 o ddigwyddiadau corfforaethol y rhoddwyd gwybod amdanynt yn 2018-2019, dosbarthwyd 46 ohonynt fel Digwyddiadau Difrifol (2017-2018: 68), a dosbarthwyd y 138 a oedd yn weddill fel Digwyddiadau Andwyol. Yn sgil digwyddiadau difrifol,

cafodd ein prosesau eu hadolygu a'u hatgyfnerthu, yn enwedig mewn perthynas â diogelu gwybodaeth a chyfathrebu mewnol ac allanol, diweddarwyd canllawiau mewnol, a chynigiwyd hyfforddiant gloywi a hyfforddiant ychwanegol i staff. Nid oes unrhyw dystiolaeth bod unrhyw niwed gwirioneddol wedi codi o'r adolygiadau o ddigwyddiadau difrifol a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn.

## Llywodraethu gwybodaeth a diffygion o ran diogelwch

Ym mis Mai 2018, cyflwynwyd deddfwriaeth diogelu data newydd yn y DU: y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GPDR) a Deddf Diogelu Data 2018.

Gwnaethom sefydlu prosiect ffurfiol er mwyn paratoi ar gyfer y ddeddfwriaeth newydd. Fel rhan o'n gwaith paratoi, cynhaliwyd adolygiad o'n holl bolisïau, prosesau a dogfennaeth perthnasol.

Mae'r tabl isod yn darparu dadansoddiad o nifer y digwyddiadau diogelu gwybodaeth yn 2018-2019, ac mae ffigurau 2017-2018 wedi'u nodi er mwyn gallu eu cymharu. Rhoddir gwybod am y digwyddiadau hyn, cânt eu rheoli ac ymchwilir iddynt o dan y broses Adolygu Digwyddiadau Difrifol, a ddisgrifir uchod, a chaiff gwersi ac argymhellion ar gyfer gwella eu nodi o ganlyniad.

| Digwyddiadau diogelu gwybodaeth | 2018–2019 | 2017–2018 |
|---|---|---|
| Critigol | 0 | 0 |
| Mawr | 0 | 6 |
| Cymedrol | 27 | 36 |
| Bach | 74 | 73 |
| Dibwys | 20 | 9 |
| **Cyfanswm** | **121** | **124** |

Yn 2018–2019, gwnaethom roi gwybod i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth am bump achos o ddatgelu data personol. Nid yw'r Swyddfa wedi cymryd unrhyw gamau rheoleiddio yn ein herbyn mewn perthynas ag unrhyw un o'r achosion.

## Gwrth-dwyll, llwgrwobrwyo a llygredigaeth

Ni chafwyd unrhyw achosion o dwyll, llwgrwobrwyo na llygredigaeth go iawn nac amheuon o'r fath yn ystod 2018-2019 (2017-2018: dim). Mae hyfforddiant gwrth-dwyll a llwgrwobrwyo yn orfodol i bob cyflogai newydd a chynhelir hyfforddiant gloywi bob yn ail flwyddyn.

Mae polisi Rhoddion a Lletygarwch ar waith ar gyfer aelodau'r Cyngor, aelodau partner a chydweithwyr sy'n cefnogi arfer da yn y maes hwn. Caiff nodiadau atgoffa rheolaidd eu cyhoeddi am bwysigrwydd cydymffurfio â'r polisi. Cedwir cofrestr o'r holl roddion a lletygarwch a dderbynnir neu a wrthodir.

## Diogelu ac amddiffyn pobl

Rydym yn cymryd ein cyfrifoldebau o ran diogelu ac amddiffyn pawb a ddaw i gysylltiad â ni rhag niwed a sicrhau amgylchedd a diwylliant diogel i bawb sy'n gweithio gyda ni ac ar ein rhan o ddifrif.

Ym mis Tachwedd 2018, mabwysiadodd y Cyngor bolisi ar Ddiogelu ac Amddiffyn Pobl rhag niwed, gan ystyried canllawiau diweddaraf y Comisiwn Elusennau ac OSCR. Mae'r polisi yn canolbwyntio ar rôl ein cydweithwyr o ran pryderon allanol y byddant o bosibl yn dod yn ymwybodol ohonynt ac, yn fewnol, ar amddiffyn ein cydweithwyr rhag achosion o gam-drin neu aflonyddu.

Cadarnhawyd y Cyfarwyddwr Cofrestru ac Ailddilysu fel ein harweinydd diogelu. Caiff cynllun gweithredu ei roi ar waith er mwyn datblygu'r canllawiau, y prosesau a'r hyfforddiant gweithredol i staff ac eraill sy'n gweithio gyda ni. Bydd y Cyngor yn adolygu'r polisi bob blwyddyn ac yn monitro ei effaith.

## Caethwasiaeth fodern

Yn ein barn ni, nid oes unrhyw groeso i gaethwasiaeth fodern mewn cymdeithas ac rydym yn ymrwymedig i sicrhau na chaiff caethwasiaeth na masnachu mewn pobl eu goddef o gwbl.

Eleni, rydym wedi gwella ein harferion a'n prosesau busnes mewn sawl ffordd er mwyn helpu i sicrhau nad oes unrhyw droseddau sy'n gysylltiedig â chaethwasiaeth fodern o fewn ein cadwyn gyflenwi. Mae'r gwelliannau yn cynnwys: hyfforddiant caethwasiaeth fodern i'n tîm caffael; prosesau a gweithdrefnau caffael newydd sy'n ein hannog i ystyried caethwasiaeth fodern ar wahanol gamau; diweddaru telerau ac amodau ein contract safonol er mwyn cynnwys caethwasiaeth fodern.

Yn unol â gofynion Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015, gwnaethom ddiweddaru a chyhoeddi ein Datganiad Caethwasiaeth Fodern ym mis Mawrth 2019. Ni wnaethom nodi unrhyw faterion posibl yn ymwneud â chaethwasiaeth fodern yn ystod y flwyddyn.

# Materion a risgiau allweddol yr aethpwyd i'r afael â hwy yn ystod y flwyddyn

Rydym wedi cymryd camau i ymdrin â risgiau a gwendidau mewn rheolaethau mewn meysydd allweddol fel yr amlinellir isod.

## Arweinyddiaeth a'r gallu i gyflawni

Yn ystod hanner gyntaf y flwyddyn, cynyddodd newidiadau o ran ein huwch arweinwyr, gan gynnwys ymadawiad y Prif Weithredwr a Chofrestrydd ar y pryd ym mis Gorffennaf 2018, y risgiau a oedd yn gysylltiedig ag arwain y sefydliad a chyflawni ein blaenoriaethau a'n hymrwymiadau corfforaethol. Lliniarwyd hyn drwy benodi Prif Weithredwr a Chofrestrydd interim ym mis Gorffennaf 2018 a phenodi Prif Weithredwr

a Chofrestrydd newydd a ymunodd ym mis Ionawr 2019. Rhoddwyd trefniadau trosiannol cadarn a throsglwyddiadau sicrwydd cynhwysfawr ar waith ym mis Gorffennaf 2018 a mis Ionawr 2019 er mwyn sicrhau parhad.

Fel y crybwyllwyd yn flaenorol, cyflwynwyd rhaglen waith sylweddol er mwyn rhoi'r newidiadau gofynnol ar waith i weithredu argymhellion *Lessons Learned Review* yr Awdurdod Safonau Proffesiynol. Disgrifir ein cynnydd yn erbyn y rhaglen waith hon yn adran adolygu perfformiad yr adroddiad hwn.

Ochr yn ochr â'r gwaith pwysig hwn, cynhaliwyd adolygiad trylwyr o'n blaenoriaethau corfforaethol a'n gallu i'w cyflawni. Aethom ati mewn modd pragmataidd a realistig, gan gynnwys atal neu ohirio rhaglenni a phrosiectau nad oeddent yn gritigol i'r busnes fel yr oedd yn briodol.

Mae'r Tîm Gweithredol bellach wedi'i sefydlu, er mai deiliaid swydd interim sy'n ymgymryd â swyddi dau gyfarwyddwr. Rydym yn bwriadu ymdrin â hyn y 2019-2020. Yn ystod y flwyddyn, mae trosiant staff wedi lleihau ond mae'n uchel o hyd. Er y gwnaed cynnydd da mewn perthynas â'n hymrwymiadau corfforaethol, rydym yn cydnabod bod gennym raglen waith uchelgeisiol yn 2019-2020 a fydd yn rhoi mwy o bwysau ar y Tîm Gweithredol.

## Ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd

Rydym yn cydnabod bod *Lessons Learned Review* yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ac adroddiad Panel Annibynnol Gosport wedi effeithio ar ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd ynom. Rydym wedi dangos ein hymrwymiad i ddysgu yn ein gwaith er mwyn ymdrin ag argymhellion yr Awdurdod. Mae'r Cyngor wedi cael adroddiad ar gynnydd yn ystod pob cyfarfod.

Ers mis Mai 2018, mae Cadeirydd y Cyngor wedi canolbwyntio fwy ar weithio mewn partneriaeth â'r Prif Weithredwr a Chofrestrydd er mwyn arwain ein cydberthnasau allanol a sicrhau y caiff hyder y cyhoedd a rhanddeiliaid ei atgyfnerthu a'i gynnal. Rydym yn ymrwymedig i gydgynhyrchu ein strategaeth ar gyfer y dyfodol ar gyfer 2020-2025 â'r cyhoedd, gweithwyr proffesiynol a phartneriaid. Rydym wedi penodi Cyfarwyddwr Datblygu Strategaeth newydd i arwain y gwaith hwn. Gwnaethom hefyd benodi Cyfarwyddwr Materion Allanol newydd i arwain ein gwaith i ddatblygu llais cryfach ac arweiniol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, gan feithrin ymddiriedaeth a hyder yn y broses rheoleiddio proffesiynol.

Gwnaethom gomisiynu gwaith ymchwil yn 2018 er mwyn deall canfyddiadau a disgwyliadau pobl sy'n defnyddio gwasanaethau, teuluoedd, cofrestreion a'n partneriaid yn well. Bydd y gwaith hwn yn llywio'r broses o ddatblygu ein strategaeth ar gyfer y dyfodol 2020-2025.

## Seilwaith Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)

Y risg gorfforaethol fwyaf sylweddol ar ein cofrestr risg ers rhai blynyddoedd bellach fu'r ffaith bod ein systemau TGCh wedi dyddio. Ym mis Mawrth a mis Gorffennaf 2018, cytunodd y Cyngor ar raglen fuddsoddi sylweddol a dechreuwyd ar waith i foderneiddio ac adnewyddu ein systemau etifeddol. Penodwyd Cyfarwyddwr Arloesedd Busnes Technoleg Interim newydd i arwain y gwaith hwn. Gwnaed cynnydd da, gan gynnwys

agor cofrestr newydd ar gyfer cymdeithion nyrsio yn llwyddiannus ym mis Ionawr 2019, ond bydd risgiau TGCh sylweddol yn parhau tan y bydd y rhaglen i adnewyddu'r systemau etifeddol wedi'i chwblhau.

Gwnaethom gynnal ymarfer adfer yn dilyn trychineb TGCh ym mis Gorffennaf 2018. Gwnaethom ddysgu o'r ymarfer hwnnw a chynhaliwyd prawf pellach ym mis Mai 2019.

Gwnaethom gynnal ymarfer sylweddol i ddiweddaru'r system teleffoni er mwyn sefydlogi'r problemau technegol a'r ymyriadau i'r gwasanaeth a brofwyd ar ein system teleffoni a effeithiodd ar argaeledd ein canolfan gyswllt am 6.5 diwrnod yn ystod mis Medi a mis Hydref 2019. Gwnaethom gyhoeddi ymddiheuriad ac esboniad i'r cofrestreion am yr effaith a gafwyd ar ein gwasanaethau.

### Risgiau seilwaith eraill

O ganlyniad i bwysedd isel yn y prif bibellau dŵr mewn rhannau o ganol Llundain yn ystod haf 2018, collwyd y cyflenwad dŵr i'n swyddfa yn Portland Place deirgwaith rhwng mis Ebrill a mis Gorffennaf, ac o ganlyniad, bu'n rhaid i ni gau'r swyddfa. Ar y diwrnodau hynny, symudwyd ein canolfan gyswllt i safle amgen er mwyn amharu cyn lleied â phosibl ar ein cwsmeriaid. Ers hynny, rydym wedi gosod pympiau eilaidd a thanc wrth gefn yn yr islawr yn Portland Place er mwyn atal y broblem hon rhag digwydd eto.

### Cyllid a chaffael

Adolygodd ein harchwilwyr mewnol drefniadau rheoli ariannol cyfarwyddiaethau, a'r systemau ariannol craidd, gan gynnwys y gyflogres. Rhododd y ddau adolygiad sicrwydd sylweddol. Cadarnhaodd yr archwiliadau fod trefniadau cynllunio a monitro ariannol o fewn cyfarwyddiaethau yn gweithredu fel y bwriadwyd a bod ansawdd sylfaenol data ariannol a data'r gyflogres yn gadarn.

Adolygodd ein harchwilwyr mewnol hefyd drefniadau caffael. Rhododd yr adolygiad sicrwydd rhannol, gan nodi bod prosesau a rheolaethau wedi gwella, ond bod angen gwelliannau pellach, gan gynnwys diweddaru canllawiau caffael, a hyfforddiant i ddeiliaid cyllidebau, a bod angen sicrhau bod prosesau yn cael eu rhoi ar waith mewn ffordd fwy cyson. Mae'r canllawiau bellach wedi'u diweddaru a chaiff hyfforddiant ei ddarparu o hydref 2019. Mae'r gwasanaeth archwilio mewnol yn bwriadu cynnal adolygiad pellach o drefniadau caffael yn 2019-2020.

## Pwyllgor Archwilio

Drwy gydol y flwyddyn, mae'r Pwyllgor Archwilio wedi hysbysu'r Cyngor am gryfder y sicrwydd sydd ar gael. Ymhlith y materion yr aeth y Pwyllgor i'r afael â nhw roedd:

- adolygu'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon a'r Adroddiad Addasrwydd i Ymarfer Blynyddol, ac argymell i'r Cyngor y dylid cymeradwyo'r adroddiadau hynny. Cynhaliodd y Pwyllgor hefyd adolygiad o adroddiadau'r archwilwyr allanol a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol, ac ymatebion y Tîm Gweithredol i argymhellion a wnaed gan yr archwilwyr
- adolygu'r polisïau cyfrifyddu ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019

- adolygu'r trefniadau rheoli risg a sicrwydd, gan gynnwys cynllun gwella rheoli risg i ymdrin â'r camau gweithredu allweddol a argymhellwyd yn yr archwiliad mewnol o reoli risg a gynhaliwyd yn ystod haf 2018. Mae'r Pwyllgor hefyd yn adolygu risgiau, camau lliniaru a ffynonellau sicrwydd mewn perthynas â gwaith pob cyfarwyddiaeth ar sail cylchdro
- adolygu digonolrwydd rheolaethau mewnol a sicrwydd cysylltiedig, gan gynnwys parhau i oruchwylio cydymffurfiaeth â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, cadernid busnes TG a seiberddiogelwch yn agos
- cymeradwyo cynllun gwaith archwilio mewnol ar gyfer 2018-2019, adolygu canlyniadau'r adroddiad archwilio mewnol a goruchwylio camau gweithredu er mwyn mynd ati i gau pen y mwdwl ar argymhellion archwilio mewnol nas gweithredwyd
- adolygu digwyddiadau difrifol ac achosion o ddatgelu data, fel bod gwersi yn cael eu rhannu a'u dysgu ar draws y sefydliad er mwyn atal hynny yn y dyfodol
- adolygu gweithredoedd tendr unigol cronnol er mwyn sicrhau ei hun fod y Tîm Gweithredol yn dilyn prosesau caffael priodol ac y gellir cyfiawnhau unrhyw weithredoedd tendr unigol
- monitro'r broses o weithredu a defnyddio'r polisïau mewnol ar gyfer Chwythu'r Chwiban a Gwrth-dwyll, llwgrwobrwyo a llygredigaeth. Mae hyn yn ei sicrhau yr ymchwilir yn llawn i unrhyw faterion a godir ac y caiff unrhyw gamau a gwersi eu datblygu.

## Barn flynyddol y gwasanaeth archwilio mewnol ar gyfer 2018–2019

Cynhaliwyd deg aseiniad archwilio mewnol, gan gynnwys y rheini y cyfeiriwyd atynt eisoes, yn ystod y flwyddyn yn unol â'r rhaglen y cytunwyd arni gan y Pwyllgor Archwilio. Derbyniwyd pob un o argymhellion y gwasanaeth archwilio mewnol ac maent naill ai wedi cael eu hystyried neu wrthi'n cael eu rhoi ar waith, gyda'r wybodaeth ddiweddaraf yn cael ei chyflwyno'n rheolaidd i'r Pwyllgor Archwilio. Rhoddodd y gwasanaeth archwilio mewnol hefyd sicrwydd ynghylch y broses o roi argymhellion yr archwiliadau a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol ar waith.

Barn flynyddol Pennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yw:

> *"Mae gan y sefydliad fframwaith digonol ac effeithiol ar gyfer rheoli risg, llywodraethu a rheolaeth fewnol.*
>
> *Fodd bynnag, mae ein gwaith wedi nodi gwelliannau pellach i'r fframwaith rheoli risg, llywodraethu a rheolaeth fewnol er mwyn sicrhau ei fod yn parhau'n ddigonol ac effeithiol."*

Cydnabu adroddiad blynyddol Pennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol y gwaith sy'n mynd rhagddo i wella'r amgylchedd a'r fframweithiau risg a rheolaeth sy'n effeithio ar feysydd allweddol o weithgarwch. Nododd y gwnaed cynnydd da o ran rhoi argymhellion y gwasanaeth archwilio mewnol ar waith.

Yr heriau allweddol a danlinellwyd ar gyfer y dyfodol oedd: rhoi'r cynllun gwella ar gyfer trefniadau caffael ar waith; moderneiddio ein seilwaith TG sy'n heneiddio; anelu at roi fframwaith Cyber Essentials ar waith a chynnal ein ffocws ar ein rhaglen waith i ymdrin ag argymhellion yr Awdurdod Safonau Proffesiynol yn *Lessons Learned Review*.

## Materion a risgiau allweddol yn y dyfodol

Mae'r amgylchedd allanol a'r tirlun gwleidyddol rydym yn gweithio o'u mewn yn parhau'n heriol:

- **Pwysau cynyddol yn ymwneud â'r economi, y gweithlu a pherfformiad ar y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol.** Mae heriau amlwg yn gysylltiedig â recriwtio a chadw staff ledled y pedair gwlad. Mae angen i ni sicrhau bod ein safonau a'n prosesau yn galluogi ac yn annog nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio diogel ac effeithiol i ymuno â'r gweithlu ac i barhau'n rhan o'r gweithlu.
- **Newidiadau i'r angen am ofal, a sut a phryd y caiff gofal ei roi.** Mae angen i ni sicrhau bod yr addysg a ddarperir i nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio yn addasu er mwyn ymateb i'r heriau hyn. Er enghraifft, niferoedd cynyddol o bobl yn byw â dementia, mwy o alw am ofal cymdeithasol ac effaith y twf o ran anghydraddoldebau.
- **Ansicrwydd gwleidyddol parhaus ac effaith Brexit.** Rydym yn parhau i fonitro goblygiadau Brexit o ran rheoleiddio gofal iechyd a'r NMC yn ofalus. Mae grŵp llywio yn cynnwys uwch arweinwyr wedi ystyried nifer o ganlyniadau posibl, y goblygiadau o ran y gofynion cofrestru i bobl o'r UE ar ein cofrestr, a'r adnoddau y bydd eu hangen. Mae rhaglen gyfathrebu ar waith er mwyn helpu pobl o'r UE sydd ar ein cofrestr yn ystod y cyfnod pontio. Rydym yn parhau i gynllunio ar gyfer gwahanol senarios ac i gydweithio'n agos â llywodraeth y DU er mwyn lleihau unrhyw effaith ar weithlu'r DU ar ôl i ni adael yr UE.

Mae'r materion a'r risgiau y byddwn yn parhau i'w hystyried yn fewnol yn cynnwys y canlynol:

- sicrhau ein bod yn bodloni disgwyliadau allanol a meithrin ymddiriedaeth a hyder yn ei gwaith rheoleiddio
- rhoi ein rhaglen Moderneiddio Gwasanaethau Technoleg ar waith er mwyn adnewyddu systemau TG sydd wedi dyddio a rhoi datrysiadau ar waith sy'n gwella'r defnydd o wybodaeth ac sy'n cynnig profiad gwell i'n staff a'n rhanddeiliaid
- adeiladu ar welliannau i'n prosesau a'n rheolaethau caffael a'u rhoi ar waith
- parhau i roi ein Strategaeth Pobl ar waith, er mwyn sicrhau ein bod yn: denu, datblygu a chadw cyflogeion medrus ac ymroddedig er mwyn rhoi ein rhaglen waith uchelgeisiol ar waith; lleihau ein trosiant staff sy'n parhau'n uchel ar lefel o 21.6 y cant
- parhau i gynnal lefelau perfformiad a lefelau cyflawni wrth i ni symud ein timau addasrwydd i ymarfer yng nghanol Llundain i swyddfeydd newydd yn Stratford.

# Asesiad cyffredinol o effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu a sicrwydd

Fel Cadeirydd y Cyngor a'r Swyddog Cyfrifyddu, rydym wedi adolygu effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu a rheolaethau mewnol.

Fel rhan o drosglwyddiad sicrwydd cynhwysfawr, cafodd y Prif Weithredwr a Chofrestrydd ddatganiad sicrwydd gan y Swyddog Cyfrifyddu Interim a oedd yn gadael ym mis Ionawr 2019 ar y ffordd y rheolwyd adnoddau'r sefydliad yn ystod y cyfnod rhwng mis Gorffennaf 2018 a mis Ionawr 2019. Roedd hyn yn cynnwys barn y Swyddog Cyfrifyddu Interim ar yr asesiad cyffredinol o drefniadau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth. Ategwyd y datganiad gan amrywiaeth o dystiolaeth, a oedd yn cynnwys datganiad sicrwydd gan y Swyddog Cyfrifyddu blaenorol, ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2018 a mis Gorffennaf 2018.

Wrth gynnal ein hasesiad, gwnaethom ddibynnu ar amrywiaeth o dystiolaeth, gan gynnwys barn ac adroddiad Pennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol; asesiadau cyfarwyddwyr o ansawdd rheolaethau a sicrwydd sydd ar waith yn y cyfarwyddiaethau y maent yn gyfrifol amdanynt; adolygiad blynyddol o effeithiolrwydd prosesau rheoli risg. Rydym hefyd wedi dibynnu ar Farn a Llythyr Rheoli ein harchwilwyr allanol; ac Adroddiad Cwblhau Archwiliad a Llythyr Rheoli'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol.

Ar y cyfan, rydym o'r farn bod sicrwydd rhesymol bod trefniadau digonol ar waith ar gyfer llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth.

**Philip Graf**
Cadeirydd
**4 Gorffennaf 2019**

**Andrea Sutcliffe**
Prif Weithredwr a Chofrestrydd
**4 Gorffennaf 2019**

# Adroddiad yr archwilydd annibynnol i ymddiriedolwyr y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

## Barn

Rydym wedi archwilio datganiadau ariannol y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019 sy'n cynnwys y Datganiad o Weithgareddau Ariannol, y Fantolen, y Datganiad Llif Arian, a'r nodiadau i'r datganiadau ariannol, gan gynnwys crynodeb o bolisïau cyfrifyddu o bwys. Mae'r fframwaith adrodd ariannol a roddwyd ar waith wrth eu paratoi yn unol â chyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig, gan gynnwys Safon Adrodd Ariannol 102 Y Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon (Arfer Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig).

Yn ein barn ni, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa'r elusen ar 31 Mawrth 2019 a'r symiadau net yn ei chronfeydd, ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi'u paratoi'n gywir yn unol ag Arfer Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig;
- wedi'u paratoi yn unol â gofynion Deddf Elusennau 2011, a Deddf Buddsoddiadau Elusennau ac Ymddiriedolwyr (Yr Alban) 2005 a rheoliad 8 o Reoliadau Cyfrifon Elusennau (Yr Alban) 2006.

## Sail y farn

Fe'n penodwyd yn archwilydd o dan adran 144 o Ddeddf Elusennau 2011, ac adran 44(1)(c) o Ddeddf Buddsoddiadau Elusennau ac Ymddiriedolwyr (Yr Alban) 2005 ac rydym yn cyflwyno adroddiadau yn unol â'r Deddfau a'r rheoliadau perthnasol a wnaed neu sy'n weithredol oddi tanynt. Cynhaliwyd ein harchwiliad yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol y DU a'r gyfraith gymwys. Caiff ein cyfrifoldebau o dan y safonau hynny eu disgrifio ymhellach yng nghyfrifoldebau'r Archwilydd am archwilio adran datganiadau ariannol ein hadroddiad. Rydym yn annibynnol ar yr elusen yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i archwilio'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol yr FRC, ac rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credwn fod y dystiolaeth archwilio a gafwyd gennym yn cynnig sail ddigonol a phriodol ar gyfer ein barn.

## Cyfrifoldebau ymddiriedolwyr (Cyngor) am y datganiadau ariannol

Fel yr eglurir yn fanylach yn y Datganiad o gyfrifoldebau'r Cyngor, yr ymddiriedolwyr sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol a bodloni eu hunain eu bod yn rhoi darlun gwir a theg, a'r fath reolaeth fewnol ag sydd ei hangen yn eu barn nhw er mwyn gallu paratoi datganiadau ariannol heb unrhyw gamddatganiadau perthnasol, boed o ganlyniad i dwyll neu wall.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am asesu gallu'r elusen i barhau i fod yn fusnes gweithredol, gan ddatgelu, lle y bo'n berthnasol, faterion sy'n ymwneud â busnes gweithredol a defnyddio'r broses gyfrifyddu ar sail busnes gweithredol onid yw'r ymddiriedolwyr naill ai'n bwriadu diddymu'r elusen neu roi'r gorau i weithredu, neu lle nad oes ganddynt unrhyw ddewis amgen realistig ond gwneud hynny.

## Cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol

Rydym yn anelu at gael sicrwydd rhesymol o ran p'un a yw'r datganiadau ariannol yn cynnwys unrhyw gamddatganiadau perthnasol ai peidio, boed o ganlyniad i dwyll neu wall, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys ein barn. Mae sicrwydd rhesymol yn cynnig lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol y DU bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol lle y bydd yn bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac ystyrir eu bod yn berthnasol os gellid disgwyl yn rhesymol iddynt, yn unigol neu ar y cyd, ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wnaed ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Ceir disgrifiad pellach o'n cyfrifoldebau am archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn: **www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities**. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o adroddiad yr archwilydd.

## Casgliadau sy'n ymwneud â busnes gweithredol

Nid oes gennym unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol, lle mae'r Safonau Archwilio Rhyngwladol yn ei gwneud yn ofynnol i ni gyflwyno adroddiad i chi arnynt lle:

- nad yw defnydd yr ymddiriedolwyr o sail gyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol; neu
- nad yw'r ymddiriedolwyr wedi datgelu yn y datganiadau ariannol unrhyw ansicrwydd perthnasol a nodwyd a all fwrw amheuaeth sylweddol dros allu'r elusen i barhau i fabwysiadu sail gyfrifyddu busnes gweithredol am gyfnod o 12 mis o leiaf o'r dyddiad yr awdurdodir cyhoeddi'r datganiadau ariannol.

## Gwybodaeth arall

Yr ymddiriedolwyr sy'n gyfrifol am y wybodaeth arall. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys y wybodaeth a geir yn yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon a'r Cynllun Strategol. Nid yw ein barn ar y datganiadau ariannol yn cynnwys y wybodaeth arall ac, ar wahân i'r graddau a nodir yn benodol fel arall yn ein hadroddiad, nid ydym yn mynegi unrhyw sicrwydd ar y wybodaeth honno.

O ran ein harchwiliad o'r datganiadau ariannol, rydym yn gyfrifol am ddarllen y wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried p'un a yw'r wybodaeth arall yn berthnasol anghyson â'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a gafwyd gennym wrth gynnal yr archwiliad neu fel arall yn ymddangos fel petai wedi'i chamddatgan yn berthnasol. Os nodwn y fath anghysondebau perthnasol neu gamddatganiadau perthnasol ymddangosiadol, mae'n ofynnol i ni bennu p'un a oes camddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol neu p'un a yw'r wybodaeth arall wedi'i chamddatgan yn berthnasol. Os down i'r casgliad, ar sail y gwaith a wnaed gennym, fod camddatganiad perthnasol o ran y wybodaeth arall hon, mae'n ofynnol i ni adrodd hynny. Nid oes gennym ddim i'w nodi yn hyn o beth.

## Materion y mae'n ofynnol i ni gyflwyno adroddiadau arnynt drwy eithriad

Nid oes dim gennym i'w adrodd mewn perthynas â'r materion canlynol lle mae Rheoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008 a Rheoliadau Cyfrifon Elusennau (Yr Alban) 2006 yn ei gwneud yn ofynnol i ni gyflwyno adroddiad i chi os credwn fod y canlynol yn wir:

- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu priodol gan yr elusen, neu ni dderbyniwyd datganiadau sy'n ddigonol ar gyfer ein harchwiliad oddi wrth ganghennau nad ydym wedi ymweld â nhw; neu
- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu digonol a phriodol; neu
- nid yw datganiadau ariannol yr elusen yn gydnaws â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- nid ydym wedi cael yr holl wybodaeth ac esboniadau sy'n ofynnol ar gyfer ein harchwiliad.

## Defnyddio ein hadroddiad

Dim ond i ymddiriedolwyr yr elusen, fel corff, y gwneir yr adroddiad hwn, a hynny'n unol ag adran 144 o Ddeddf Elusennau 2011 a rheoliadau a wnaed o dan adran 154 o'r Ddeddf honno, ac adran 44(1)(c) o Ddeddf Buddsoddiadau Elusennau ac Ymddiriedolwyr (Yr Alban) 2005 a rheoliad 10 o Reoliadau Cyfrifon Elusennau (Yr Alban) 2006. Cynhaliwyd ein gwaith archwilio er mwyn i ni allu hysbysu ymddiriedolwyr yr elusen o'r materion hynny y mae'n ofynnol i ni eu hysbysu ohonynt yn adroddiad yr Archwilydd ac nid at unrhyw ddiben arall. Hyd y caniateir o dan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn cymryd cyfrifoldeb i unrhyw un ac eithrio ymddiriedolwyr yr elusen fel corff, am ein gwaith archwilio, am yr adroddiad hwn, nac am y farn a luniwyd gennym.

**Haysmacintyre LLP**
Archwilwyr Statudol
**4 Gorffennaf 2019**

10 Queen Street Place
London
EC4R 1AG

Mae Haysmacintyre LLP yn gymwys i weithredu fel archwilydd yn unol â thelerau adran 1212 o Ddeddf Cwmnïau 2006

# Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol i Ddau Dŷ'r Senedd

## Barn ar ddatganiadau ariannol

Ardystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019 o dan Erthygl 52 o Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001. Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys: y Datganiad o Weithgareddau Ariannol, y Fantolen, y Datganiad Llif Arian a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys y polisïau cyfrifyddu sylweddol. Mae'r fframwaith adrodd ariannol a roddwyd ar waith wrth eu paratoi yn unol â chyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig (Arfer Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig) fel y'u mabwysiadwyd gan yr Undeb Ewropeaidd. Rwyf hefyd wedi archwilio'r wybodaeth yn yr Adroddiad ar Gydnabyddiaeth y nodir ei bod wedi'i harchwilio yn yr adroddiad hwnnw.

**Yn fy marn i:**

- mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun teg a chywir o sefyllfa'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ar 31 Mawrth 2019 ac o'i incwm net ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- mae'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi'n briodol yn unol â Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001 a chyfarwyddiadau'r Cyfrin Gyngor a gyhoeddwyd yn ôl y gofynion hynny.

## Barn ar reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob ffordd berthnasol mae'r incwm a'r gwariant a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

## Sail y farn

Cynhaliwyd fy archwiliad yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU) a Nodyn Arfer 10 'Audit of Financial Statements of Public Sector Entities in the United Kingdom'. Caiff fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny eu disgrifio ymhellach yn adran cyfrifoldebau'r Archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol fy nhystysgrif. Mae'r safonau hynny yn ei gwneud yn ofynnol i mi a'm staff gydymffurfio â Safon Foesegol Ddiwygiedig y Cyngor Adrodd Ariannol 2016. Rwy'n annibynnol ar y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad a'r datganiadau ariannol yn y DU. Mae fy staff a minnau wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio a gafwyd gennyf yn cynnig sail ddigonol a phriodol i lunio barn.

## Casgliadau sy'n ymwneud â busnes gweithredol

Mae'n ofynnol i mi ddod i gasgliad, ar sail priodoldeb defnydd y rheolwyr o sail gyfrifyddu busnes gweithredol ac yn seiliedig ar y dystiolaeth archwilio a gafwyd, p'un a oes ansicrwydd perthnasol mewn perthynas â digwyddiadau neu amodau a all fwrw amheuaeth sylweddol dros allu'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth i barhau fel busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol. Os dof i'r casgliad bod ansicrwydd perthnasol, mae'n ofynnol i mi dynnu sylw, yn fy adroddiad archwilydd, at y datgeliadau cysylltiedig yn y datganiadau ariannol neu, os nad ydynt yn ddigonol, addasu fy marn. Mae fy nghasgliadau yn seiliedig ar y dystiolaeth archwilio a geir hyd at ddyddiad adroddiad yr archwilydd. Fodd bynnag, gall digwyddiadau neu amodau yn y dyfodol olygu na fydd yr endid yn parhau fel busnes gweithredol. Nid oes gennyf ddim i'w nodi yn hyn o beth.

## Cyfrifoldebau'r Cyngor a'r Prif Weithredwr a Chofrestrydd

Fel yr esboniwyd yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Cyngor a'r Prif Weithredwr a Chofrestrydd mewn perthynas â'r cyfrifon, y Cyngor a'i Brif Weithredwr a Chofrestrydd sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am fodloni eu hunain eu bod yn rhoi darlun gwir a theg.

## Cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio ac ardystio'r datganiadau ariannol a chyflwyno adroddiadau arnynt yn unol â Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001.

Mae a wnelo archwiliad â chasglu tystiolaeth am y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol sy'n ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y datganiadau ariannol yn rhydd o gamddatganiad perthnasol, boed drwy dwyll neu wall. Mae sicrwydd rhesymol yn cynnig lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (DU) bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol lle y bydd yn bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac ystyrir eu bod yn berthnasol os gellid disgwyl yn rhesymol iddynt, yn unigol neu ar y cyd, ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wnaed ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Fel rhan o archwiliad yn unol â'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU), rwy'n arddel barn broffesiynol ac yn cynnal amheuaeth broffesiynol drwy gydol yr archwiliad. Rwyf hefyd yn:

- nodi ac asesu'r risgiau o gamddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol, boed hynny drwy dwyll neu wall, yn cynllunio ac yn cyflawni gweithdrefnau archwilio sy'n ymateb i'r risgiau hynny, ac yn cael tystiolaeth archwilio sy'n ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail i'm barn. Mae'r risg o beidio â nodi camddatganiad perthnasol yn deillio o dwyll yn uwch nag un sy'n deillio o wall, oherwydd gall twyll gynnwys cynllwynio, ffugio, hepgoriadau bwriadol, camgynrychiolaeth, neu anwybyddu rheolaeth fewnol.

- meithrin dealltwriaeth o reolaeth fewnol sy'n berthnasol i'r archwiliad er mwyn cynllunio gweithdrefnau archwilio sy'n briodol o dan yr amgylchiadau, ond nid at ddiben mynegi barn ar effeithiolrwydd rheolaeth fewnol y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth.
- gwerthuso priodoldeb y polisïau cyfrifyddu a ddefnyddir a rhesymoldeb amcangyfrifon cyfrifyddu a datgeliadau cysylltiedig a wneir gan y rheolwyr.
- gwerthuso cyflwyniad, strwythur a chynnwys cyffredinol y datganiadau ariannol, gan gynnwys y datgeliadau, a ph'un a yw'r datganiadau ariannol cyfunol yn cynrychioli'r prif drafodion a digwyddiadau mewn ffordd deg.

Rwy'n cyfathrebu â'r sawl sy'n gyfrifol am lywodraethu ynghylch, ymhlith materion eraill, gwmpas ac amseriad arfaethedig yr archwiliad a chanfyddiadau archwilio pwysig, gan gynnwys unrhyw ddiffygion sylweddol ym maes rheolaeth fewnol a nodaf yn ystod fy archwiliad.

Hefyd, mae'n ofynnol i mi gael digon o dystiolaeth i roi sicrwydd rhesymol bod yr incwm a'r gwariant a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

## Gwybodaeth arall

Y Cyngor a'r Prif Weithredwr a Chofrestrydd sy'n gyfrifol am y wybodaeth arall. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys y wybodaeth a geir yn yr Adroddiad Blynyddol, heblaw am y datganiadau ariannol ac adroddiad yr archwilydd arnynt. Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cynnwys y wybodaeth arall ac nid wyf yn rhoi sicrwydd ar y wybodaeth honno. O ran fy archwiliad o'r datganiadau ariannol, rwy'n gyfrifol am ddarllen y wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried p'un a yw'r wybodaeth arall yn berthnasol anghyson â'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a gafwyd gennyf wrth gynnal yr archwiliad neu fel arall yn ymddangos fel petai wedi'i chamddatgan yn berthnasol. Os dof i'r casgliad, ar sail y gwaith a wnaed gennyf, fod camddatganiad perthnasol o ran y wybodaeth arall hon, mae'n ofynnol i mi adrodd hynny. Nid oes gennyf ddim i'w nodi yn hyn o beth.

## Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i:

- mae'r rhan o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth i'w harchwilio wedi'i pharatoi'n briodol yn unol â'r penderfyniad a wnaed gan y Cyfrin Gyngor o dan Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001;
- yn sgil y wybodaeth a'r ddealltwriaeth o'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth a'i amgylchedd a gafodd eu meithrin yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad Blynyddol;
- mae'r wybodaeth a roddwyd yn yr Adroddiad Blynyddol y rhoddaf farn cysondeb gadarnhaol arni ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol.

## Materion yr wyf yn cyflwyno adroddiadau arnynt drwy eithriad

Nid oes angen i mi gyflwyno adroddiadau mewn perthynas â'r materion canlynol y'ch hysbysaf ohonynt os, yn fy marn i:

- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu priodol neu ni dderbyniwyd datganiadau sy'n ddigonol ar gyfer fy archwiliad oddi wrth ganghennau nad yw fy staff wedi ymweld â hwy; neu
- nid yw'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth i'w harchwilio yn gydnaws â'r cofnodion na'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad; neu
- nid yw'r Datganiad Llywodraethu yn cydymffurfio â chanllawiau Trysorlys EM.

## Adroddiad

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

**Gareth Davies**
Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol

**Dyddiad**
12 Gorffennaf 2019

National Audit Office
157–197 Buckingham Palace Road
Victoria
London
SW1W 9SP

# Datganiad o weithgareddau ariannol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019

| | Nodyn | 2018–19<br>£'000 | 2017–18<br>£'000 |
|---|---|---|---|
| **Incwm o'r canlynol:** | | | |
| Gweithgareddau elusennol: | | | |
| Ffioedd | 2 | 85,244 | 84,257 |
| Buddsoddiadau | 3 | 607 | 258 |
| Incwm arall | 3 | 6,134 | 3,454 |
| **Cyfanswm** | | **91,985** | **87,969** |
| **Gwariant ar y canlynol:** | | | |
| Gweithgareddau elusennol | 4 | (81,558) | (87,890) |
| **Incwm net** | | **10,427** | **79** |
| **Colledion cydnabyddedig eraill:** | | | |
| Colledion actiwaraidd ar y cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig | 17 | (3,282) | (67) |
| **Symudiad net mewn cronfeydd** | | **7,145** | **12** |
| **Cysoni cronfeydd:** | | | |
| Cyfanswm y cronfeydd a gariwyd ymlaen | | 41,187 | 41,175 |
| **Cyfanswm y cronfeydd a gariwyd ymlaen** | | **48,332** | **41,187** |

Mae'r holl gronfeydd yn ddigyfyngiad yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol ac felly y bu yn ystod blynyddoedd ariannol blaenorol hefyd. Deilliodd yr holl weithgareddau a adlewyrchir fel rhan o'r ddwy flwyddyn ariannol uchod o weithrediadau parhaus. Mae'r holl enillion a cholledion cydnabyddedig wedi'u cynnwys yn y datganiad uchod.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 81 i 105 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

Mae nodiadau 4, 5, 7 ac 8 yn cynnwys ailddatganiadau o'r ffigurau cymharol ar gyfer 2017-2018. Ceir gwybodaeth am yr ailddatganiadau hyn yn Nodyn 21.

# Y fantolen ar 31 Mawrth 2019

| | Nodyn | 2018–19 £'000 | 2017–18 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Asedau sefydlog diriaethol** | 10 | 19,685 | 18,932 |
| **Asedau cyfredol** | | | |
| Dyledwyr | 13 | 4,335 | 4,083 |
| Buddsoddiadau | 12 | 65,998 | 65,511 |
| Arian parod yn y banc ac mewn llaw | | 28,790 | 16,665 |
| **Cyfanswm asedau cyfredol** | | **99,123** | **86,259** |
| **Rhwymedigaethau** | | | |
| **Credydwyr:** symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn | 14 | (52,729) | (50,380) |
| **Cyfanswm y rhwymedigaethau cyfredol** | | **(52,729)** | **(50,380)** |
| **Asedau cyfredol net** | | **46,394** | **35,879** |
| **Cyfanswm yr asedau llai rhwymedigaethau cyfredol** | | **66,079** | **54,811** |
| **Credydwyr:** symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn | 15 | (293) | (485) |
| **Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau** | 16 | (3,215) | (1,439) |
| **Asedau net heb gynnwys rhwymedigaeth pensiwn** | | **62,571** | **52,887** |
| **Rhwymedigaeth cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig** | 17 | (14,238) | (11,700) |
| **Cyfanswm asedau net** | | **48,332** | **41,187** |
| **Cronfeydd yr NMC** | | | |
| **Cronfeydd digyfyngiad** | | **48,332** | **41,187** |
| **Total funds** | | **48,332** | **41,187** |

**Philip Graf**
Cadeirydd
**4 Gorffennaf 2019**

**Andrea Sutcliffe**
Prif Weithredwr a Chofrestrydd
**4 Gorffennaf 2019**

# Datganiad o lif arian parod ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019

| | | 2018–19 | | 2017–18 | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Nodyn | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Llifau arian parod o weithgareddau gweithredu** | | | | | |
| **Arian parod net a ddarparwyd gan weithgareddau gweithredus** | | | **15,555** | | **155** |
| **Llifau arian parod o weithgareddau buddsoddi** | | | | | |
| Llog o fuddsoddiadau | 3 | 607 | | 258 | |
| Buddsoddiad arian parod – adnau hirdymor | 12 | (20,093) | | - | |
| Prynu eiddo, peiriannau a chyfarpar | 10 | (3,550) | | (487) | |
| **Arian parod net a ddefnyddiwyd mewn gweithgareddau buddsoddi** | | | **(23,036)** | | **(229)** |
| **Newid mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo yn y cyfnod adrodd** | | | **(7,481)** | | **(74)** |
| **Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo ar ddechrau'r flwyddyn** | | | **82,176** | | **82,250** |
| **Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo ar ddiwedd y flwyddyn** | | | **74,695** | | **82,176** |

# Cysoni incwm net â llif arian parod net o weithgareddau gweithredu

| | 2018–19 | 2017–18 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Incwm net o'r cyfnod adrodd (yn unol â'r datganiad o weithgareddau ariannol) | 10,427 | 79 |
| Llog o fuddsoddiadau | (607) | (258) |
| Taliadau dibrisio | 2,797 | 3,300 |
| Cynnydd mewn dyledwyr | (252) | (164) |
| Cynnydd/(gostyngiad) mewn credydwyr a darpariaethau | 3,933 | (2,247) |
| Symudiadau mewn pensiynau | (743) | (555) |
| Mewnlif arian parod net o weithgareddau gweithredu | 15,555 | 155 |

# Dadansoddiad o arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo

| | 2018–19 | 2017–18 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Arian parod yn y banc ac mewn llaw | 28,790 | 16,665 |
| Buddsoddiadau Byrdymor[4] | 45,905 | 65,511 |
| **Cyfanswm** | **74,695** | **82,176** |

Yn unol â'r SORP ar gyfer Elusennau, FRS 102, dosbarthwyd buddsoddiadau â chyfnodau aeddfedu o dri mis neu lai ar 31 Mawrth 2019 fel yr hyn sy'n cyfateb i arian parod. Disgrifiwyd buddsoddiadau â chyfnodau aeddfedu rhwng tri mis a deuddeg mis fel 'buddsoddiadau hirdymor' yn nodyn 12 ac fe'u dosbarthwyd fel asedau cyfredol ar y fantolen.

4 Gweler nodyn 12 buddsoddiadau.

# Nodiadau i'r cyfrifon

## 1. Y sail ar gyfer paratoi a pholisïau cyfrifyddu

Rydym yn paratoi ein cyfrifon yn unol â'r SORP ar gyfer Elusennau (FRS 102). Fel y nodir yn ein Cyfarwyddyd Cyfrifon gan y Cyfrin Gyngor, a gaiff ei atgynhyrchu yn Atodiad 1, rydym hefyd yn ystyried Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth (FReM), i'r graddau y mae gofynion y Llawlyfr yn egluro neu'n ymhelaethu ar ofynion y SORP ar gyfer Elusennau.

Rydym yn bodloni'r diffiniad o endid budd cyhoeddus o dan FRS 102.

Mae'r prif bolisïau cyfrifyddu a fabwysiadwyd, dyfarniadau a ffynonellau allweddol o ansicrwydd amcangyfrif wrth baratoi'r cyfrifon fel a ganlyn:

### a) Busnes gweithredol

Caiff y cyfrifon eu paratoi ar sail busnes gweithredol.

Ein hamcan yw amddiffyn y cyhoedd drwy reoleiddio nyrsys a bydwragedd yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, a chymdeithion nyrsio yn Lloegr. Cawn ein hariannu gan y ffioedd cofrestru a delir gan nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio. Mae'r Cyngor wedi adolygu ein hamgylchiadau ac mae o'r farn bod digon o adnoddau yn parhau i fod ar gael i ariannu ein gweithgareddau ar gyfer y dyfodol agos. Ym marn y Cyngor, nid oes unrhyw ansicrwydd perthnasol ynghylch gallu'r NMC i barhau fel busnes gweithredol.

### b) Confensiwn cyfrifyddu

Rydym yn paratoi ein cyfrifon yn unol â'r confensiwn cost hanesyddol. Caiff asedau a rhwymedigaethau eu cydnabod i ddechrau ar sail cost hanesyddol neu werth trafodyn oni nodir fel arall ar y nodiadau polisi cyfrifyddu perthnasol.

### c) Dyfarniadau ac amcangyfrifon cyfrifyddu critigol a ffynonellau allweddol o ansicrwydd amcangyfrif

Wrth gymhwyso'r polisïau cyfrifyddu hyn, mae'n ofynnol i ni wneud dyfarniadau, amcangyfrifon a thybiaethau ynghylch gwerth cario asedau a rhwymedigaethau nad yw'n amlwg o ffynonellau eraill.

Mae'r amcangyfrifon a'r dyfarniadau yn seiliedig ar brofiad hanesyddol a ffactorau eraill, gan gynnwys disgwyliadau o ran digwyddiadau yn y dyfodol y credir eu bod yn rhesymol o dan yr amgylchiadau. Yn y pen draw, gall y canlyniadau gwirioneddol fod yn wahanol i'r amcangyfrifon hynny. Mae'r meysydd sylweddol y ffurfir amcangyfrifon a dyfarniadau yn eu cylch fel a ganlyn:

### • Dibrisiant

Mae bywydau economaidd defnyddiol asedau sefydlog diriaethol yn seiliedig ar ddyfarniad a phrofiad rheolwyr.

### • Pensiynau

Nodir y prif dybiaethau a ddefnyddir i gyfrifo'r rhwymedigaethau yn y cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig yn nodyn 17.

## d) Incwm

Cydnabyddir pob incwm unwaith y bydd gan yr NMC hawl iddo, mae'n debygol y derbynnir yr incwm a gellir mesur y swm yn ddibynadwy.

### • Incwm o weithgareddau elusennol

Rhaid i nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio dalu ffi gofrestru flynyddol er mwyn cofrestru â'r NMC a gallu ymarfer. Caiff ffioedd cofrestru eu talu naill ai'n flynyddol ymlaen llaw neu'n chwarterol ymlaen llaw. Rydym yn cydnabod y ffioedd fel incwm ar sail fisol drwy gydol y flwyddyn y mae'r ffi gofrestru yn berthnasol iddi. Swm yr incwm gohiriedig o fewn ein credydwyr yw gwerth y ffioedd rydym wedi'u cael ar ddyddiad pob mantolen sy'n berthnasol i flwyddyn ariannol yn y dyfodol. Caiff ffioedd eraill, gan gynnwys ffioedd dilysu, eu credydu i'r incwm ar y diwrnod derbyn.

### • Incwm buddsoddiadau

Rhoddir cyfrif am incwm buddsoddiadau pan fo'n dderbyniadwy.

## e) Gwariant

### • Gweithgareddau elusennol

Ymhlith y gwariant ar weithgareddau elusennol mae'r holl wariant sy'n gysylltiedig â swyddogaethau'r elusen sy'n cynnwys: hyrwyddo safonau a datblygu polisïau, addysg, cynnal y gofrestr, addasrwydd i ymarfer a chyfathrebu ac ymgysylltu â'r cyhoedd. Gweler nodyn 4.

### • Costau cymorth

Costau cymorth yw costau ein swyddogaethau corfforaethol, gan gynnwys safleoedd, TG, cyllid ac adnoddau dynol. Cânt eu dosrannu i'r swyddogaethau rheoleiddio ar sail nifer y cyflogeion yn y swyddogaethau rheoleiddio.

## f) Costau datblygu

Caiff costau mewnol yr aed iddynt wrth ddatblygu meddalwedd eu dileu yn y flwyddyn yr eir iddynt.

## g) Cyfrifyddu cronfeydd

Mae'r holl gronfeydd yn ddigyfyngiad ar hyn o bryd ac adroddir arnynt o'r safbwynt hwnnw yn y datganiadau ariannol. Maent ar gael i'w defnyddio yn ôl disgresiwn y Cyngor er mwyn cefnogi amcanion cyffredinol yr NMC.

Pe byddem yn cael cronfeydd cyfyngedig, câi'r rhain eu defnyddio yn unol â chyfyngiadau penodol a osodir gan roddwyr.

## h) Asedau ar les

Codir rhenti sy'n gymwys i lesoedd gweithredol, lle mae holl fuddiannau a risgiau perchenogaeth yn perthyn i'r lesddeiliad i raddau helaeth, i'r datganiad o weithgareddau ariannol mewn symiau cyfartal dros gyfnodau'r lesoedd.

## i) Buddiannau cyflogeion

### • Tâl gwyliau

Caiff tâl gwyliau ei gydnabod fel traul yn y cyfnod y derbyniwyd y gwasanaeth ynddo.

### • Costau pensiwn

Darperir buddiannau pensiwn drwy gynllun buddiannau diffiniedig a chynllun cyfraniadau diffiniedig. Ariennir y ddau gynllun drwy gyfraniadau gan yr NMC a chyflogeion. Gwneir taliadau i ymddiriedolaethau pensiwn, sydd ar wahân i'r NMC yn ariannol.

Gwneir taliadau i'r cynllun buddiannau diffiniedig yn unol â chyfrifiadau cyfnodol gan actiwarïaid sy'n meddu ar gymwysterau proffesiynol, a chyfrifir am gostau pensiwn y cynllun buddiannau diffiniedig ar sail codi cost ddisgwyliedig darparu pensiynau dros y cyfnod y mae'r NMC yn cael budd o wasanaeth y cyflogeion. Lledaenir effaith amrywiadau i gostau rheolaidd dros gyfnod o amser a bennir gan yr ymddiriedolaeth bensiwn.

Gwneir taliadau i'r cynllun cyfraniadau diffiniedig ar sail cyfraniadau canrannol penodedig gan yr NMC a chyflogeion, a chodir y costau i'r Datganiad o Weithgareddau Ariannol wrth iddynt godi.

## j) Asedau sefydlog

Caiff asedau sefydlog diriaethol sy'n werth dros £5,000 eu cyfalafu. Dibrisir asedau sefydlog diriaethol er mwyn gostwng eu gwerth nominal i £1 dros eu bywydau defnyddiol amcangyfrifedig mewn rhandaliadau cyfartal fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Cyfarpar | 3-5 mlynedd |
| Dodrefn | 10 mlynedd |
| Prosiectau TG | 3-5 mlynedd |
| Gwaith adnewyddu – 23 Portland Place | 10 mlynedd |
| Safle lesddaliad hir – 23 Portland Place[5] | 50 mlynedd |

Gwnaethom ailbrisio 23 Portland Place yn ystod 2013-2014 ac adeg mabwysiadu FRS 102 am y tro cyntaf, gwnaethom ddewis defnyddio'r prisiad hwn fel y gost dybiedig wrth fynd ymlaen.

## k) Dyledwyr

Cydnabyddir dyledwyr ac incwm cronedig yn ôl y swm sy'n ddyledus ar ddiwedd y flwyddyn. Pennir gwerth rhagdaliadau ar y swm a ragdalwyd.

## l) Arian parod yn y banc ac mewn llaw

Mae arian parod yn y banc ac mewn llaw yn cynnwys arian parod a buddsoddiadau hylif iawn byrdymor sydd â chyfnod aeddfedu o dri mis neu lai o'r dyddiad caffael neu agor y cyfrif adnau neu gyfrif tebyg.

## m) Credydwyr a darpariaethau

Cydnabyddir credydwyr a darpariaethau lle mae gennym rwymedigaeth bresennol yn deillio o ddigwyddiad yn y gorffennol a fydd fwy na thebyg yn arwain at drosglwyddo cronfeydd i drydydd parti a gellir mesur y swm sy'n ddyledus i setlo'r rhwymedigaeth neu ei amcangyfrif yn ddibynadwy. Fel arfer caiff credydwyr a darpariaethau eu cydnabod ar eu swm setlo ar ôl cyfrif am unrhyw ddisgownt masnach sy'n ddyledus.

## n) Offerynnau ariannol

Dim ond asedau a rhwymedigaethau ariannol a ystyrir yn offerynnau ariannol sylfaenol sydd gennym. Caiff offerynnau ariannol sylfaenol eu cydnabod i ddechrau ar eu gwerth trafodyn ac yna fe'u mesurir ar sail cost wedi'i hamorteiddio. Mae asedau ariannol a ddelir ar gost wedi'i hamorteiddio yn cynnwys balansau arian parod, adneuon byrdymor, masnach a dyledwyr eraill. Mae rhwymedigaethau ariannol a ddelir ar gost wedi'i hamorteiddio yn cynnwys credydwyr masnach, credydwyr eraill a chroniadau.

5 Gweler Nodyn 10.1.

## 2. Incwm ffioedd

| | 2018–19 | 2017–18 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Ffioedd cofrestru | 82,990 | 82,807 |
| Ffioedd eraill a delir gan gofrestreion | 2,254 | 1,450 |
| **Cyfanswm** | **85,244** | **84,257** |

## 3. Buddsoddiadau ac incwm arall

| | 2018–19 | 2017–18 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Llog a geir o adneuon banc | 607 | 258 |
| Incwm arall | 6,134 | 3,454 |
| **Cyfanswm** | **6,741** | **3,712** |

Mae incwm arall yn cynnwys:

£2.259 miliwn o dan gontract gyda'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol am waith a wnaed gan yr NMC i gynnwys cymdeithion nyrsio ar y gofrestr (2017-2018: £2.279 miliwn).

Ad-daliad o £2.119 miliwn gan CThEM mewn perthynas â thaliadau treth incwm ac Yswiriant Gwladol panelwyr yn ystod blynyddoedd blaenorol.

## 4. Dadansoddiad o wariant ar weithgareddau elusennol

| | Gweithgareddau a gyflawnwyd yn uniongyrchol | | Costau cymorth | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Costau cyflogeion | Costau eraill | Costau cyflogeion | Costau eraill | Cyfanswm 2018–19 |
| 2018–2019 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Gweithgareddau elusennol:** | | | | | |
| Hyrwyddo safonau a datblygu polisïau | 1,454 | 275 | 417 | 527 | 2,673 |
| Addysg | 1,275 | 1,947 | 224 | 283 | 3,729 |
| Cynnal y gofrestr | 5,877 | 2,228 | 2,066 | 2,611 | 12,782 |
| Addasrwydd i ymarfer | 19,978 | 19,072 | 7,075 | 13,360 | 59,485 |
| Cyfathrebu ac ymgysylltu â'r cyhoedd | 1,238 | 553 | 485 | 613 | 2,889 |
| **Cyfanswm** | **29,822** | **24,075** | **10,267** | **17,394** | **81,558** |

| | Gweithgareddau a gyflawnwyd yn uniongyrchol | | Costau cymorth | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Costau cyflogeion | Costau eraill | Costau cyflogeion | Costau eraill | Cyfanswm 2017–18 |
| 2017–2018 Ailddatganwyd | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Gweithgareddau elusennol:** | | | | | |
| Hyrwyddo safonau a datblygu polisïau | 1,229 | 307 | 261 | 308 | 2,105 |
| Addysg | 1,400 | 1,417 | 410 | 484 | 3,711 |
| Cynnal y gofrestr | 5,481 | 2,437 | 2,552 | 3,013 | 13,483 |
| Addasrwydd i ymarfer | 21,767 | 22,089 | 8,670 | 13,624 | 66,150 |
| Cyfathrebu ac ymgysylltu â'r cyhoedd | 1,148 | 289 | 460 | 544 | 2,441 |
| **Cyfanswm** | **31,025** | **26,539** | **12,353** | **17,973** | **87,890** |

Mae Nodyn 5 isod yn dadansoddi'r costau cymorth rhwng costau gwahanol swyddogaethau corfforaethol, ac yn dangos sut y dyrannwyd y costau hynny i weithgareddau elusennol. Ceir rhagor o wybodaeth am ailddatgan y ffigurau cymharol ar gyfer 2017-2018 yn Nodyn 21.

## 5. Dadansoddi costau cymorth

| 2018–2019 | Hyrwyddo safonau a datblygu polisïau £'000 | Addysg £'000 | Cynnal y gofrestr £'000 | Addasrwydd i ymarfer £'000 | Cyfathrebu ac ymgysylltu â'r cyhoedd £'000 | Cyfanswm 2018-19 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfleusterau | 84 | 45 | 414 | 5,832 | 97 | 6,472 |
| Cyllid a Chaffael | 131 | 71 | 658 | 2,261 | 156 | 3,277 |
| Adnoddau Dynol | 139 | 75 | 689 | 2,359 | 162 | 3,424 |
| TGCh | 277 | 148 | 1,371 | 4,690 | 320 | 6,806 |
| Llywodraethu | 149 | 80 | 732 | 2,514 | 173 | 3,648 |
| Cyfreithiol | 38 | 21 | 191 | 650 | 45 | 945 |
| Dibrisiant | 114 | 61 | 563 | 1,927 | 132 | 2,797 |
| Addasiadau pensiwn | 12 | 6 | 59 | 202 | 13 | 292 |
| **Cyfanswm** | **944** | **507** | **4,677** | **20,435** | **1,098** | **27,661** |

| 2017–2018 Ailddatganwyd | Hyrwyddo safonau a datblygu polisïau<br>£'000 | Addysg<br>£'000 | Cynnal y gofrestr<br>£'000 | Addasrwydd i ymarfer<br>£'000 | Cyfathrebu ac ymgysylltu â'r cyhoedd<br>£'000 | Cyfanswm 2017–18<br>£'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfleusterau | 52 | 82 | 508 | 5,114 | 92 | 5,848 |
| Cyllid a Chaffael | 72 | 112 | 694 | 2,356 | 125 | 3,359 |
| Adnoddau Dynol | 62 | 98 | 608 | 2,066 | 110 | 2,944 |
| TGCh | 212 | 333 | 2,075 | 7,052 | 374 | 10,046 |
| Llywodraethu | 85 | 134 | 836 | 2,841 | 151 | 4,047 |
| Cyfreithiol | 10 | 16 | 102 | 346 | 19 | 493 |
| Dibrisiant | 70 | 109 | 682 | 2,316 | 123 | 3,300 |
| Addasiadau pensiwn | 6 | 10 | 60 | 203 | 10 | 289 |
| **Cyfanswm** | **569** | **894** | **5,565** | **22,294** | **1,004** | **30,326** |

## 6. Costau llywodraethu

Y dadansoddiad o gostau llywodraethu (wedi'u cynnwys o fewn costau cymorth) yw:

| | 2018–19<br>£'000 | 2017–18<br>£'000 |
|---|---|---|
| Lwfansau, yswiriant gwladol, costau teithio a chynhaliaeth aelodau'r Cyngor | 374 | 366 |
| Cydnabyddiaeth archwilwyr: Haysmacintyre | 21 | 21 |
| Cydnabyddiaeth archwilwyr: Swyddfa Archwilio Genedlaethol | 6 | 6 |
| Ffi flynyddol yr Awdurdod Safonau Proffesiynol | 1,775 | 1,762 |
| Costau gweithredu (gan gynnwys cyflogau) | 1,472 | 1,892 |
| **Cyfanswm** | **3,648** | **4,047** |

## 7. Cyfanswm yr adnoddau a wariwyd yn ôl categori cost

| | 2018–19<br>£'000 | 2017–18 Ailddatganwyd<br>£'000 |
|---|---|---|
| Cyflogau a chostau cysylltiedig | 40,089 | 40,627 |
| Costau sy'n ymwneud ag addasrwydd i ymarfer | 17,424 | 22,579 |
| Ffioedd proffesiynol | 6,802 | 8,850 |
| Datblygu TG a chymorth TG | 3,818 | 3,034 |
| Rhent sy'n daladwy ar lesoedd swyddfeydd | 2,542 | 2,320 |
| Costau eraill sy'n gysylltiedig â safleoedd | 3,100 | 2,648 |
| Dibrisiant | 2,797 | 3,300 |
| Costau eraill sy'n gysylltiedig â chyflogeion | 2,096 | 1,891 |
| Sicrhau ansawdd addysg | 1,284 | 1,014 |
| Costau cyllid ac yswiriant[6] | 678 | 512 |
| Argraffu, postio a deunydd ysgrifennu | 478 | 646 |
| Costau'r Cyngor a phwyllgorau | 450 | 469 |
| **Cyfanswm** | **81,558** | **87,890** |

6 Yn cynnwys yswiriant indemniad ymddiriedolwyr.

# 8. Gwybodaeth am gyflogeion

| Cyflogau a chostau cysylltiedig | Tîm Gweithredol £'000 | Cyflogeion eraill £'000 | Cyfanswm 2018-19 £'000 | Cyfanswm 2017-18 Ailddatganwyd £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Cyflogau: | 905 | 28,578 | 29,483 | 27,044 |
| Costau nawdd cymdeithasol (cyfraniadau YG y cyflogwr a'r ardoll prentisiaethau) | 132 | 3,108 | 3,240 | 2,998 |
| Costau pensiwn buddiannau diffiniedig – cyflogeion presennol[7] | 69 | 2,128 | 2,197 | 2,728 |
| Costau pensiwn cyfraniadau diffiniedig – cyflogeion presennol | 71 | 1,949 | 2,020 | 1,563 |
| Costau pensiwn - cyflogeion sydd wedi ymddeol o sefydliadau blaenorol | - | - | - | 22 |
| Gweithwyr dros dro a gweithwyr contractwyr | 175 | 2,693 | 2,868 | 6,057 |
| Taliadau terfynu[8] | 56 | 225 | 281 | 215 |
| **Cyfanswm** | **1,408** | **38,681** | **40,089** | **40,627** |

Ceir rhagor o wybodaeth am ailddatgan y ffigurau cymharol yn Nodyn 21.

## Gwybodaeth am gyflogeion ar gyflogau uwch (gan gynnwys y Tîm Gweithredol)

Roedd 87 o gyflogeion (2017-2018: 68) (gan gynnwys aelodau interim o'r Tîm Gweithredol ar gyfer y cyfnod) yr oedd eu cydnabyddiaeth yn dod o dan y bandiau canlynol:

| Bandiau cydnabyddiaeth (£) | 2018–19 Nifer y cyflogeion | 2017–18 Nifer y cyflogeion |
|---|---|---|
| 60,001 - 70,000 | 46 | 33 |
| 70,001 - 80,000 | 12 | 11 |
| 80,001 - 90,000 | 15 | 10 |
| 90,001 - 100,000 | 2 | 5 |

7 Ceir rhagor o wybodaeth am gynlluniau pensiwn cyflogeion yr NMC yn Nodyn 17.

8 Mae hyn yn cynnwys taliadau cytundebol ychwanegol o £23,000, taliadau diswyddo o £87,000 a thaliadau yn lle rhybudd o £171,000 (2017-18: taliadau cytundebol ychwanegol o £27,000, taliadau diswyddo o £43,000 a thaliadau yn lle rhybudd o £145,000).

| Bandiau cydnabyddiaeth (£) | 2018–19<br>Nifer y cyflogeion | 2017–18<br>Nifer y cyflogeion |
|---|---|---|
| 100,001 - 110,000 | 2 | 2 |
| 120,001 - 130,000 | 6 | 3 |
| 130,001 - 140,000 | 1 | 1 |
| 150,001 - 160,000 | 1 | 1 |
| 190,001 - 200,000 | - | 1 |

Mae'r tabl uchod yn cynnwys 9 aelod o'r Tîm Gweithredol a gafodd fwy na £60,000 yn ystod y flwyddyn. Roedd dau aelod arall o'r Tîm Gweithredol yn eu swyddi am ran o'r flwyddyn yr oedd eu henillion yn y bandiau £30,001– £40,000 a £50,001– £60,000. I gael rhagor o wybodaeth am gydnabyddiaeth y Tîm Gweithredol yn ystod y flwyddyn, gweler yr adroddiad ar gydnabyddiaeth.

Mae'r cynnydd yn nifer y cyflogeion ar gyflogau uwch rhwng y blynyddoedd yn deillio o newidiadau o ran Addasrwydd i Ymarfer ac Addysg a Safonau er mwyn rhoi'r newidiadau rheoleiddio sy'n deillio o *Lessons Learned Review* ar waith.

Cyflogwyd 798 o gyflogeion ar gyfartaledd yn ystod y flwyddyn (8 yn y Tîm Gweithredol a 790 o gyflogeion eraill) ac yn ystod y flwyddyn flaenorol, cyflogwyd 712 (7 yn y Tîm Gweithredol a 705 o gyflogeion eraill).

Yn ystod y flwyddyn, roedd benthyciadau ar gyfer tocynnau tymor a wnaed i aelodau'r Tîm Gweithredol fel a ganlyn:

| | 2018–19<br>£ | 2017–18<br>£ |
|---|---|---|
| R Sheldon | **6,001-7,000** | - |
| S Page | **-** | 501-1,000 |

# 9. Statws elusennol

Rydym wedi ein cofrestru fel elusen yng Nghymru a Lloegr â'r Comisiwn Elusennau (rhif elusen 1091434) ac yn yr Alban â Swyddfa Rheoleiddiwr Elusennau'r Alban (rhif elusen SC038362).

O ganlyniad i'n statws elusennol, nid ydym yn atebol i dalu treth gorfforaeth ar ein gweithgareddau elusennol. Rydym hefyd yn derbyn rhyddhad ardrethi elusennol gan Ddinas Westminster, Bwrdeistref Newham yn Llundain a Chyngor Dinas Caeredin.

# 10. Asedau sefydlog diriaethol at ddefnydd yr elusen

| | Dodrefn | Cyfarpar | 23PP Safle lesddaliad hir[9] | Adnewyddu adeiladau | Prosiectau TG | Gwaith cyfalaf sy'n mynd rhagddo[10] | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Cost:** | | | | | | | |
| 1 Ebrill 2018 | 555 | 10,334 | 15,448 | 12,198 | 1,812 | 718 | **41,065** |
| Ychwanegiadau | - | - | - | - | - | 3,550 | **3,550** |
| Trosglwyddiadau | - | - | - | - | 1,174 | (1,174) | **-** |
| 31 Mawrth 2019 | 555 | 10,334 | 15,448 | 12,198 | 2,986 | 3,094 | **44,615** |
| **Dibrisiant:** | | | | | | | |
| 1 Ebrill 2018 | 369 | 8,661 | 1,361 | 9,930 | 1,812 | - | **22,133** |
| Tâl a godwyd am y flwyddyn | 26 | 1,446 | 354 | 711 | 260 | - | **2,797** |
| 31 Mawrth 2019 | 395 | 10,107 | 1,715 | 10,641 | 2,072 | - | **24,930** |
| Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2018 | 186 | 1,673 | 14,087 | 2,268 | - | 718 | **18,932** |
| **Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2019** | **160** | **227** | **13,733** | **1,557** | **914** | **3,094** | **19,685** |

Caiff prosiectau gwaith cyfalaf sy'n mynd rhagddo eu hychwanegu at y gofrestr asedau sefydlog a'u dibrisio pan gânt eu defnyddio.

Mae'r gwaith adnewyddu adeiladau, uchod, yn cynnwys dau brosiect adnewyddu a ddatgelwyd ar wahân yn flaenorol: 23 Portland Place (23 PP) (2018: gwerth llyfr net £0.126 miliwn) a'r adeiladau Addasrwydd i Ymarfer (2018: gwerth llyfr net £2.142 miliwn).

9 Gweler Nodyn 10.1.
10 Gweler Nodyn 10.2.

### 10.1 10.1 Safle lesddaliad hir

Caffaelodd yr UKCC (y corff a ragflaenodd yr NMC) y buddiant lesddaliadol yn 23 Portland Place, Llundain W1B 1PZ oddi wrth Gyngor Nyrsio Cyffredinol Cymru a Lloegr am ddim cost. Mae'r les yn cynnig rhent rhad o £250 y flwyddyn ac mae'n dirwyn i ben yn y flwyddyn 2933. Prisiwyd y les ar 31 Mawrth 2014 ar sail defnydd presennol, gan briswyr allanol Carter Jonas, a nodwyd ei bod yn werth £17.185 miliwn. Mae cyfamod cyfyngol ar y les sy'n golygu mai dim ond yr NMC all ddefnyddio a meddiannu'r adeilad.

### 10.2 Gwaith cyfalaf sy'n mynd rhagddo

Dyma brosiectau sy'n anelu at greu asedau cyfalaf i'w defnyddio fel rhan o'r busnes lle yr aed i wariant erbyn diwedd y cyfnod ond lle nad yw'r asedau wedi'u cwblhau neu lle na ddechreuwyd eu defnyddio eto. Maent yn cynnwys cyfres rhaglenni TG Dynamics 365, gwaith i ddiweddaru cronfa ddata'r Gofrestrfa i gynnwys cymdeithion nyrsio a swyddfeydd newydd i'n timau addasrwydd i ymarfer yn Stratford, Dwyrain Llundain.

## 11. Trafodion â phartïon cysylltiedig

Rydym yn atebol i'r Senedd drwy'r Cyfrin Gyngor. Noda Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001 natur ein cydberthynas â'r Cyfrin Gyngor a'r dulliau adrodd sy'n ofynnol. Er nad ydym yn atebol i'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, rydym yn cysylltu'n rheolaidd â'r Adran ynghylch materion polisi a materion eraill.

Yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2018 a 31 Mawrth 2019, talwyd cyfanswm lwfansau o £86,754 (2017-2018: £63,050) i'r Cadeirydd presennol a'r Cadeirydd blaenorol, a thalwyd lwfansau, treuliau teithio a chynhaliaeth a threuliau hyfforddi o £294,464 (2017–2018: £365,828) i aelodau'r Cyngor, neu mewn perthynas â nhw. Telir aelodau'r Cyngor yn uniongyrchol drwy gyflogres yr NMC. Nodir manylion y symiau a dalwyd i aelodau unigol y Cyngor a'r Tîm Gweithredol yn yr adroddiad ar gydnabyddiaeth.

Gwnaed croniad o £46,251 (2017-2018: £41,731) ar gyfer rhwymedigaethau treth incwm ac Yswiriant Gwladol mewn perthynas â threuliau teithio a chynhaliaeth aelodau.

## 12. Buddsoddiadau

| | 2018–19 | 2017–18 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Adneuon byrdymor (cyfnod aeddfedu o 3 mis neu lai) | 45,905 | 65,511 |
| Adneuon hirdymor (cyfnod aeddfedu o fwy na 3 mis ond llai na 12 mis) | 20,093 | - |
| **Cyfanswm** | **65,998** | **65,511** |

## 13. Dyledwyr

| | 2018–19<br>£'000 | 2017–18<br>£'000 |
|---|---|---|
| Dyledwyr | 518 | 542 |
| Rhagdaliadau ac incwm cronedig | 3,817 | 3,541 |
| **Cyfanswm** | **4,335** | **4,083** |

## 14. Credydwyr

| Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn | 2018–19<br>£'000 | 2017–18<br>£'000 |
|---|---|---|
| Credydwyr a chroniadau | 9,235 | 6,370 |
| Trethi eraill a nawdd cymdeithasol | 1,074 | 862 |
| Incwm gohiriedig | 42,420 | 43,148 |
| **Cyfanswm** | **52,729** | **50,380** |

Mae'r cynnydd mewn credydwyr yn cynnwys croniad o £1.6 miliwn ar gyfer cost gwaith ymchwiliadau addasrwydd i ymarfer ychwanegol a drefnwyd ar gontractau allanol a wnaed tua diwedd y flwyddyn.

## 15. Credydwyr

| Symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn | 2018–19<br>£'000 | 2017–18<br>£'000 |
|---|---|---|
| Incwm gohiriedig | 42 | 117 |
| Premiwm les | 251 | 368 |
| **Cyfanswm** | **293** | **485** |

# 16. Darpariaethau

| | Meddalwedd | Dadfeiliadau | Pensiwn – Ymddeoliadau cynnar | TAW[11] | Panelwyr[12] | Cyfanswm 2018–19 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Ar 1 Ebrill 2018 | 416 | 733 | 290 | - | - | 1,439 |
| Defnyddiwyd yn ystod y flwyddyn | - | - | (67) | - | - | (67) |
| Ychwanegiadau | - | 259 | - | 500 | 1,500 | 2,259 |
| Gwerthiannau | (416) | - | - | - | - | (416) |
| **Ar 31 Mawrth 2019** | **-** | **992** | **223** | **500** | **1,500** | **3,215** |

11 Mae rhwymedigaeth TAW wedi codi o ganlyniad i adolygiad gan CThEM. Mae gwerth y rhwymedigaeth yn ansicr hyd nes y bydd gwaith wedi'i gwblhau i ymdrin ag ymholiadau CThEM am ein TAW wrth werthu.

12 Mae'r ddarpariaeth ar gyfer costau posibl panelwyr ychwanegol yn adlewyrchu ein hamcangyfrif darbodus o effaith ehangach bosibl hawliad unigol i dribiwnlys cyflogaeth am symiau ychwanegol gan banelwr addasrwydd i ymarfer. Mae panelwyr yn gontractwyr annibynnol sy'n aelodau o'n paneli addasrwydd i ymarfer. Hawliad newydd yw'r hawliad hwn sy'n ystyried p'un a yw'r panelwr yn weithiwr ac felly, p'un a oes hawl ganddo i gael tâl gwyliau. Rydym yn herio'r hawliad er mwyn cael eglurhad o'r sefyllfa, nad oes sicrwydd cyfreithiol yn ei gylch ar hyn o bryd. Gan ddibynnu ar y canlyniad, mae'n bosibl y bydd angen i ni adlewyrchu'r dyfarniad yn ein trefniadau gyda phanelwyr eraill, ac y bydd angen gwneud darpariaeth ar gyfer costau posibl sefyllfa o'r fath.

# 17. Ymrwymiadau pensiwn

Mae gennym ddau gynllun pensiwn: cynllun buddiannau diffiniedig a chynllun cyfraniadau diffiniedig.

## Y cynllun buddiannau diffiniedig

Rydym yn cymryd rhan mewn cynllun buddiannau diffiniedig aml-gyflogwr ar y cyd â'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (cynllun pensiwn y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth a Chyflogwyr Cysylltiedig, rhif cofrestru'r cynllun 101652586) a weinyddir gan Premier Pensions Management Limited. Tynnodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac NHS Education for Scotland, a oedd yn gyfranogwr blaenorol, yn ôl o'r cynllun yn ystod 2013 a 2015 yn y drefn honno. Mae'r cynllun, yr oedd tua 14 y cant o gyflogeion yr NMC yn aelodau ohono ar 31 Mawrth 2019, yn gynllun buddiannau diffiniedig a ariennir.

Codir cyfraniadau i'r cynllun i'r Datganiad o Weithgareddau Ariannol er mwyn lledaenu cost pensiynau dros fywyd gwaith cyflogeion. Pennir cyfraniadau gan actwari cymwysedig ar sail prisiadau bob tair blynedd.

Cwblhawyd y prisiad diweddaraf o'r cynllun ar ran ymddiriedolwyr y pensiwn gan Premier Pensions Management Limited ar 31 Mawrth 2016, gan ddefnyddio'r dull unedau rhagamcanol o brisio. Ar ddyddiad y prisiad, roedd asedau'r cynllun yn werth £106.9 miliwn (gan gynnwys blwydd-daliadau a ddelir gan bensiynwyr yswiriedig). Roedd gwerth yr asedau yn cyfrif am 88 y cant o werth y buddiannau, a oedd wedi cronni i aelodau ar ôl caniatáu ar gyfer cynnydd disgwyliedig mewn enillion a phensiynau yn y dyfodol. Mae'r diffyg asedau mewn perthynas â gwasanaethau yn y gorffennol yn cael ei amorteiddio dros y cyfnod hyd at 31 Mawrth 2026. Y prif dybiaethau a ddefnyddiwyd yn y prisiad oedd enillion gwirioneddol o fuddsoddiadau uwchlaw cynnydd o 0.65 y cant y flwyddyn mewn cyflogau ac uwchlaw cynnydd o -0.15 y cant a -0.20 y cant y flwyddyn mewn pensiynau ar gyfer y rhai nad ydynt yn bensiynwyr a phensiynwyr, yn y drefn honno.

Pe bai'r cynllun wedi cael ei ddirwyn i ben ar y dyddiad prisio (31 Mawrth 2016), byddai'r asedau wedi cyfrif am tua 72 y cant o'r swm sydd ei angen i brynu contractau yswiriant i fodloni buddiannau cronedig aelodau gweithredol a'r rhai sydd wedi gadael y cynllun a buddiannau cyfredol pensiynwyr. Byddai'r diffyg amcangyfrifedig wedi bod yn £42.8 miliwn.

Cynhelir y prisiad bob tair blynedd ac mae'r prisiad nesaf, ar gyfer 31 Mawrth 2019, wrthi'n cael ei baratoi.

Mae Cynllun Adfer ar waith i sicrhau y bydd lefel ariannu'r cynllun yn cyrraedd 100 y cant yn seiliedig ar dybiaethau actiwaraidd presennol, erbyn 31 Mawrth 2026. Byddwn yn unioni'r diffyg dros y cyfnod hyd at 31 Mawrth 2026 drwy wneud taliadau o dan y Cynllun Adfer sy'n cyfateb i £983,000 y flwyddyn, gyda chynnydd o 3.65 y cant bob mis Ebrill (gwnaed y cynnydd cyntaf o'r fath ym mis Ebrill 2015). Gwerth taliadau'r Cynllun Adfer yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019 oedd £1,134,348 (31 Mawrth 2018: £1,091,188).

Seiliwyd prisiad FRS 102 ar asesiad llawn o rwymedigaethau'r cynllun ar 31 Mawrth 2019.

Cydnabuwyd enillion a cholledion actiwaraidd yn y cyfnod y gwnaethant ddigwydd.

| Symiau a gydnabuwyd yn y Fantolen | 2018–19<br>£'000 | 2017–18<br>£'000 |
|---|---|---|
| Asedau ar eu gwerth teg | **76,862** | 72,414 |
| Gwerth presennol rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig | **(91,100)** | (84,114) |
| **Diffyg** | **(14,238)** | **(11,700)** |
| **Rhwymedigaeth net** | **(14,238)** | **(11,700)** |

| Symiau a gydnabuwyd yn SoFA | 2018–19<br>£'000 | 2017–18<br>£'000 |
|---|---|---|
| Cost gwasanaeth bresennol | (2,223) | (2,575) |
| Cost gwasanaeth flaenorol | (82) | - |
| Elw disgwyliedig ar asedau cynllun | 1,866 | 1,769 |
| Llog ar rwymedigaethau pensiwn | (2,152) | (2,109) |
| **Swm net a gydnabuwyd yn y SoFA** | **(2,591)** | **(2,915)** |

| Cysoni gwerth presennol rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig | 2018–19<br>£'000 | 2017–18<br>£'000 |
|---|---|---|
| **Balans agoriadol ar 31 Mawrth 2018** | **84,114** | **80,467** |
| Cost gwasanaeth bresennol | 2,223 | 2,575 |
| Cost gwasanaeth flaenorol | 82 | - |
| Cost llog | 2,152 | 2,109 |
| Cyfraniad cyflogeion | 311 | 341 |
| Colledion actiwaraidd | 4,180 | 18 |
| Buddiannau a dalwyd | (1,962) | (1,396) |
| **Balans adeg cau ar 31 Mawrth 2019** | **91,100** | **84,114** |

| Cysoni gwerth teg asedau cynllun | 2018–19<br>£'000 | 2017–18<br>£'000 |
|---|---|---|
| **Balans agoriadol ar 31 Mawrth 2018** | **72,414** | **68,279** |
| Elw disgwyliedig ar asedau | 1,866 | 1,769 |
| Elw/(colledion) actiwaraidd | 898 | (49) |
| Cyfraniad cyflogwyr | 3,335 | 3,470 |
| Cyfraniad cyflogeion | 311 | 341 |
| Buddiannau a dalwyd | (1,962) | (1,396) |
| **Balans adeg cau ar 31 Mawrth 2019** | **76,862** | **72,414** |

| Cysoni newid mewn statws ariannu | 2018–19<br>£'000 | 2017–18<br>£'000 |
|---|---|---|
| **Balans agoriadol ar 31 Mawrth 2018** | **(11,700)** | **(12,188)** |
| Costau pensiwn | (2,591) | (2,915) |
| Cyfraniad cyflogwyr | 3,335 | 3,470 |
| Colledion actiwaraidd | (3,282) | (67) |
| **Balans adeg cau ar 31 Mawrth 2019** | **(14,238)** | **(11,700)** |
| **Elw gwirioneddol ar asedau cynllun** | **2,764** | **1,720** |

| Hanes o addasiadau profiad | 2018–19<br>£'000 | 2017–18<br>£'000 | 2016–17<br>£'000 | 2015–16<br>£'000 |
|---|---|---|---|---|
| Rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig | (91,100) | (84,114) | (80,467) | (71,980) |
| Asedau cynllun | 76,862 | 72,414 | 68,279 | 59,355 |
| **Diffyg** | **(14,238)** | **(11,700)** | **(12,188)** | **(12,625)** |
| Addasiadau profiad ar rwymedigaeth cynllun | (695) | (2,795) | 2,238 | 1,152 |
| Addasiadau profiad ar asedau cynllun | 898 | (49) | 4,839 | 2,408 |

| Cyfraniad disgwyliedig yn ystod y flwyddyn ganlynol | Ar 31 Mawrth 2019<br>£'000 |
|---|---|
| Cyflogwr | 3,223 |
| Cyflogai | 283 |
| **Cyfanswm** | **3,506** |

Nodir y prif dybiaethau a ddefnyddiwyd gan yr actiwariaid cymwysedig annibynnol i gyfrifo'r rhwymedigaethau o dan FRS 102 isod.

| | **2019** | **2018** |
|---|---:|---:|
| **Prif dybiaethau** | **y flwyddyn** | **y flwyddyn** |
| Cyfradd disgownt | 2.60% | 2.55% |
| Chwyddiant prisiau manwerthu | 3.45% | 3.25% |
| Chwyddiant prisiau defnyddwyr | 2.45% | 2.25% |
| Cynnydd mewn pensiwn | 3.40% | 3.15% |
| Elw disgwyliedig ar asedau | 2.60% | 2.55% |
| **Disgwyliad oes yn 60 oed** | **Blynyddoedd** | **Blynyddoedd** |
| Dynion a aned 1959 / 1958 | 26.9 | 26.8 |
| Menywod a aned 1959 / 1958 | 28.9 | 28.8 |
| Dynion a aned 1979 / 1978 | 28.8 | 28.7 |
| Menywod a aned 1979 / 1978 | 30.9 | 30.8 |

| | **2018–19** | **2017–18** |
|---|---:|---:|
| **Asedau'r cynllun** | **£'000** | **£'000** |
| Cronfeydd twf | 36,549 | 39,131 |
| Bondiau | 1,990 | 14,838 |
| Giltiau | 4,263 | 4,717 |
| Arian parod | 7,028 | 2,215 |
| Blwydd-daliadau yswiriedig | 27,032 | 11,513 |
| **Cyfanswm** | **76,862** | **72,414** |

## Y cynllun cyfraniadau diffiniedig

Gwnaethom gyflwyno cynllun pensiwn cyfraniadau diffiniedig y gallai cyflogeion ymuno ag ef yn wirfoddol o 1 Tachwedd 2013, a weithredir gan The People's Pension. Gwnaethom gyfrannu cyfradd sylfaenol o 8 y cant o gyflog pensiynadwy yn ystod 2018-2019 (2017-2018: 7 y cant) a chyfradd gyfrannu sylfaenol y cyflogai oedd 1 y cant. Gall cyflogeion wneud cyfraniadau ychwanegol a bydd yr NMC yn gwneud cyfraniadau cyfatebol hyd at uchafswm cyfraniad y cyflogwr, sef 12 y cant. Mabwysiadwyd y cynllun hwn fel cynllun awto-gofrestru ar gyfer yr NMC o 1 Ebrill 2014.

| | 2018–19 | 2017–18 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Cyfraniadau a wnaed gan yr NMC (cyflogwr) at y cynllun cyfraniadau diffiniedig yn ystod y flwyddyn | 2,020 | 1,555 |
| | **2,020** | **1,555** |
| Cyfraniad yr NMC (cyflogwr) at y cynllun buddiannau diffiniedig | 39.3% | 39.3% |
| Cyfraniad cyflogeion at y cynllun buddiannau diffiniedig | 6% | 6% |
| Cyfraniad sylfaenol yr NMC (cyflogwr) at y cynllun buddiannau diffiniedig | 8% | 7% |
| Cyfraniad sylfaenol cyflogeion at y cynllun buddiannau diffiniedig | 1% | 1% |

Yn y gorffennol, rydym wedi talu cost unrhyw gynnydd pensiwn nas ariennir a roddir i bensiynwyr sefydliadau rhagflaenol nad oeddent yn aelodau o gynllun pensiwn yr NMC. Talwyd y costau hyn wrth iddynt godi ac fe'u codwyd i'r Datganiad o Weithgareddau Ariannol yn unol â hynny. Daeth y rhwymedigaeth hon i ben yn 2017-2018 pan fu farw'r unig bensiynwr a oedd yn fyw o hyd. Felly, yn 2018-2019 roedd y gwariant hwn yn cyfateb i £0 (2017-2018: £3,001).

## 18. Ymrwymiadau cyfalaf

Ar 31 Mawrth 2019, nid oedd unrhyw wariant cyfalaf y contractiwyd ar ei gyfer nad oedd wedi darparu ar ei gyfer yn y datganiadau ariannol.

Cymeradwywyd y gwariant cyfalaf canlynol ond ni chontractiwyd ar ei gyfer (2017-2018: Dim).

| | 2018–19 | 2017–18 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Moderneiddio gwasanaethau technoleg | 2,300 | - |
| Adeiladau amgen yn Llundain | 2,900 | - |
| **Cyfanswm** | **5,200** | **-** |

## 19. Ymrwymiadau les gweithredu

Ar 31 Mawrth 2019, roedd gennym y taliadau les gweithredu gofynnol canlynol yn y dyfodol:

| | Tir ac adeiladau | |
|---|---|---|
| | 2018–19 | 2017–18 |
| | £'000 | £'000 |
| O fewn blwyddyn | 2,388 | 2,367 |
| Rhwng blwyddyn a phum mlynedd | 7,163 | 4,449 |
| Mwy na phum mlynedd | 3,481 | 198 |
| **Cyfanswm** | **13,032** | **7,014** |

Rydym yn lesio eiddo yn 61 Aldwych, Llundain, am y cyfnod hyd at 10 Medi 2019; Clarendon House (llawr daear a llawr cyntaf), 114-116 George Street, Caeredin, am y cyfnod hyd at 24 Ebrill 2021; 1 Kemble Street, Llundain, am y cyfnod hyd at 21 Rhagfyr 2019; 2 Stratford Place am y cyfnod hyd at 21 Gorffennaf 2024; a 1 Westfield Avenue, Stratford, am y cyfnod hyd at 6 Chwefror 2029.

# 20. Offerynnau ariannol

Mae offerynnau ariannol yn chwarae rôl fwy cyfyngedig o ran creu a rheoli risg nag yn achos sefydliad masnachol.

| | 2018–19 | 2017–18 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Asedau ariannol wedi'u mesur ar sail cost wedi'i hamorteiddio | 99,123 | 86,259 |
| Rhwymedigaethau ariannol wedi'u mesur ar sail cost wedi'i hamorteiddio | (10,309) | (7,232) |

# 21. Ailddatganiadau'r flwyddyn flaenorol

## Y dyraniad rhwng costau Cyfleusterau ac Addasrwydd i Ymarfer

**Nodiadau 4 a 5:** Caiff costau sy'n gysylltiedig â safleoedd, yr ymdriniwyd â nhw'n flaenorol fel costau elusennol uniongyrchol Addasrwydd i Ymarfer, bellach eu trin fel costau cyfleusterau, rhan o gostau Cymorth cyn eu hailddyrannu i'r swyddogaethau craidd fel y dangosir yn Nodyn 4 uchod. Cafwyd cyfanswm o £4.417m o gostau o'r fath yn 2018–2019 a £3.388m yn 2017–2018. Ailddatganwyd y ffigurau cymharol ar gyfer 2017-2018 er mwyn adlewyrchu'r newid hwn yn y dull trin. Gwnaed y newid hwn er mwyn gallu cymharu costau craidd Addasrwydd i Ymarfer a chyfanswm costau cyfleusterau fesul blwyddyn mewn ffordd fwy ystyrlon.

**Nodiadau 7 a 8:** Yn 2017-2018, cynhwyswyd £0.138m o gostau'r ardoll prentisiaeth o fewn Gwariant Gweithredu Arall. Yn 2018–2019, cynhwyswyd £0.151m o gostau'r ardoll prentisiaeth o fewn Costau Staff, yn unol ag arfer cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol ac ailddatganwyd y ffigurau cymharol.

**Nodyn 7:** Dadansoddiad o gyfanswm y gwariant elusennol yn ôl y math o wariant. Lleihawyd nifer y categorïau gwariant yn y nodyn hwn er mwyn ei gwneud hi'n haws deall y meysydd gwariant allweddol.

**Nodyn 8:** Tabl o'r staff ar gyflogau uwch mewn bandiau o £5,000 – yn y gorffennol, cyflwynwyd dau dabl ar wahân ar gyfer y Tîm Gweithredol ac aelodau eraill o staff. Ar gyfer 2018-2019, fe'u cyfunwyd i greu un tabl ac ailddatganwyd y ffigurau cymharol ar gyfer 2017-2018 yn unol â hynny. Gwnaed hyn er mwyn cynnig dadansoddiad mwy cryno y gellir ei gymharu'n uniongyrchol rhwng y blynyddoedd.

## 22. Datganiad cymharol o weithgareddau ariannol

Yn y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2018, nid oedd unrhyw incwm na gwariant cyfyngedig, ac nid oedd unrhyw falans cyfyngedig a ddygwyd ymlaen.

## 23. Taliadau cytundebol ychwanegol

Gwnaed un taliad cytundebol ychwanegol yn ystod y cyfnod hyd at 31 Mawrth, sef cyfanswm o £0.23 miliwn fel iawndal am golli swydd a dalwyd i aelod o staff (y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2018: £0.27 miliwn – iawndal am golli swydd.)

## 24. Asedau wrth gefn a rhwymedigaethau wrth gefn

Ar 31 Mawrth 2019, nid oedd unrhyw asedau na rhwymedigaethau wrth gefn.

## 25. Digwyddiadau ôl-fantolen

Ni fu unrhyw ddigwyddiadau ar ôl dyddiad y fantolen yr oedd angen eu haddasu neu eu datgelu yn y datganiadau ariannol hyn.

Mae'r adroddiad blynyddol a chyfrifon wedi'u hawdurdodi i'w cyhoeddi ar y dyddiad yr ardystiwyd y cyfrifon gan y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol.

# Atodiad 1

## The Nursing and Midwifery Order 2001 (Form of Accounts) Determination 2010

Their Lordships make the following determination in exercise of powers conferred by article 52(1) of the Nursing and Midwifery Order 2001.[1]

This determination has effect from 23rd February 2010.

### Interpretation

1. In this Determination-

“the accounts” means the accounts which it is the Council’s duty to keep and prepare under article 52(1) of the Nursing and Midwifery Order 2001 in respect of the financial year ending on 31st March 2010 and subsequent financial years;

“the Charities’ SoRP” means the “Accounting and Reporting by Charities: Statement of Recommended Practice 2005 prepared by the Charities Commission or any updated edition in force for the relevant financial year.

“the Council” means the Nursing and Midwifery Council;

“the FReM” means the Government Financial Reporting Manual issued by HM Treasury which is in force for the relevant financial year.

### Determination

2. The accounts must-

(a) be prepared so as to give a true and fair view of the Council’s state of affairs as at 31st March of the financial year in question and of the incoming resources and application of resources of the Council for that financial year; and

(b) disclose any material incoming or outgoing resources that have not been applied to the purposes intended by Parliament or material transactions that have not conformed to the authorities which govern them.

1 S.I. 2002/253.

3. Subject to paragraph 4, in order to comply with paragraph 2(a), the accounts must be prepared-

(a) in compliance with the accounting principles and disclosure requirements contained in the Charities' SoRP; and

(b) having regard to the requirements of the FReM to the extent that those requirements clarify, or build on, the requirements of the Charities' SORP.

4. Where the presence of exceptional circumstances means that compliance with the requirements of the Charities SORP or the FReM would give rise to the preparation of accounts which were inconsistent with the requirement in paragraph 2(b), those requirements should be departed from only to the extent necessary to give a true and fair view of that state of affairs.

5. In cases referred to in paragraph 4, informed and unbiased judgement should be used to devise an appropriate alternative treatment which is consistent with both the economic characteristics of the circumstances concerned and the spirit of the Charities' SORP and the FReM.

6. This determination shall be reproduced as an appendix to the published accounts.

Signed by the authority of the Privy Council

Dated: 18th July 2011

Nursing &
Midwifery
Council

CCS0619426012
ISBN 978-1-5286-1433-7